

**Uchelwagedd y Beirdd:  
Astudiaeth o'r Canu Mawl i Uchelwagedd  
(1300–1500)**

**Hanna Gwen Hopwood  
Traethawd a gyflwynir ar gyfer gradd MPhil  
2013**

# Cynnwys

<b>Crynodeb</b>	ii
<b>Datganiadau</b>	iii
<b>Cydnabyddiaeth</b>	iv
<b>Byrfoddau</b>	v
<b>Rhagymadrodd</b>	1
<b>Pennod 1:</b> Noddwagedd Canoloesol: Arolwg	4
<b>Pennod 2:</b> Perthynas y Bardd a'r Uchelwraig	23
<b>Pennod 3:</b> Y Rhinweddau a Folir	xx
<b>Pennod 4:</b> Casgliad	xx
<b>Llyfryddiaeth</b>	xx

## Crynodeb

Maes yr astudiaeth hon yw cerddi mawl i uchelwragedd o'r bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed. Ystyrir yn gyntaf y darlun a geir o berthynas y bardd a'r uchelwraig, ac yn ail dadansoddir yr elfennau yr ystyriai'r beirdd eu bod yn rhinweddau teilwng o fawl.

Y ffynonellau craidd yw'r farddoniaeth sydd eisoes wedi ei golygu ac sy'n dyddio o'r cyfnod 1300–1500. Rhennir y gwaith yn rhagymadrodd wedi ei ddilyn gan bedair pennod. Yn gyntaf, ceir arolwg beirniadol ar rai o'r prif drafodaethau ar merched a nawdd mewn llenyddiaeth ganoloesol. Yn yr ail bennod, defnyddir y ffynonellau cynradd i archwilio'r berthynas a fodolai rhwng y bardd a'r uchelwraig – gwneir hyn yng nghyd-destun y canu marwnad, y canu gofyn a diolch, a'r cerddi diolch am ymgeledd. Canolbwyntir ar ferched 'delfrydol' y beirdd yn y drydedd bennod a hynny'n rhannol drwy gyflwyno pedair astudiaeth achos o'r cyfnod dan sylw. Yn olaf, cyflwynir crynodeb o'r canfyddiadau.

# Datganiadau

## DATGANIAD

Ni dderbyniwyd y gwaith hwn yn sylweddol yn y gorffennol ar gyfer unrhyw radd ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd i ymgeisio am unrhyw radd.

Llofnod ..... (ymgeisydd) Dyddiad .....

## GOSODIAD 1

Mae'r traethawd ymchwil hwn yn cael ei gyflwyno i gyflawni'n rhannol ofynion gradd MPhil.

Llofnod ..... (ymgeisydd) Dyddiad .....

## GOSODIAD 2

Mae'r traethawd ymchwil hwn yn ffrwyth fy ngwaith a'm hymchwil annibynnol fy hun, ar wahân i lle nodir fel arall.

Caiff ffynonellau eraill eu cydnabod trwy gyfeiriadau eglur.

Llofnod ..... (ymgeisydd) Dyddiad .....

## GOSODIAD 3

Trwy hyn, rwy'n rhoi caniatâd i'm traethawd ymchwil, os bydd yn cael ei dderbyn, fod ar gael i'w lungopïo ac ar gyfer benthyciadau rhynglyfrgellol, ac i'r teitl a'r crynodeb fod ar gael i sefydliadau allanol.

Llofnod ..... (ymgeisydd) Dyddiad .....

## GOSODIAD 4: GWAHARDDIAD AR FYNEDIAD A GYMERADWYWYD YMLAEN LLAW

Trwy hyn, rwy'n rhoi caniatâd i'm traethawd ymchwil, os bydd yn cael ei dderbyn, fod ar gael i'w lungopïo ac ar gyfer benthyciadau rhynglyfrgellol **ar ôl i waharddiad ar fynediad a gymeradwywyd ymlaen llaw gan y Pwyllgor Datblygu Graddedigion ddod i ben.**

Llofnod ..... (ymgeisydd) Dyddiad .....

## Cydnabyddiaeth

Carwn ddiolch yn arbennig i'r Athro Sioned Davies a'r Dr Dylan Foster Evans am eu hamynedd, eu harweiniad a'u cyfarwyddyd manwl o'r cychwyn cyntaf. Diolch hefyd i Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen am y gefnogaeth ariannol ac i holl staff Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, am eu cefnogaeth gyson. Hoffwn ddiolch hefyd i'r Dr Bleddyn Owen Huws am ganiatáu i mi darllen copi anghyhoeddiedig o ysgrif ar waith Guto'r Glyn.

## Byrfoddau

- BYG** Johnston, D. 1991. Lewys Glyn Cothi, Bardd y Gwragedd. Yn: *Taliesin* 94 (Haf), tt. 68-77
- CO** Bromwich, R. ac Evans, D. goln. 1997. *Culhwch ac Olwen*. 2<sup>il</sup> arg., Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- CSTB** Donovan, P. J. gol. 1982. *Cywyddau Serch y Tri Bedo*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru ar ran yr Academi Gymreig.
- GBF** Andrews, Rh. *et al.* goln. 1996. *Gwaith Bleddyn Fardd a Beirdd Eraill Ail Hanner y Drydedd Ganrif ar Ddeg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Caerdydd
- GC** Daniel, R. I. gol. 1999. *Gwaith Casnodyn*. Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru
- GCBMi** Jones, N. ac Owen, A. P. goln. 1991. *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr i*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- GDB** Daniel, R. I. gol. 1998. *Gwaith Dafydd Bach ap Madog Wladaidd 'Sypyn Cyfeiliog' a Llywelyn ab y Moel*. Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru
- GDID** Davies, A. E. gol. 1992. *Gwaith Deio ab Ieuan Du a Gwilym ab Ieuan Hen*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- GDLI** Richards, W. L. gol. 1964. *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- GGDT** Costigan (Bosco), N. G. *et al.* goln. 1995. *Gwaith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur, Gwilym Ddu o Arfon, Trahaearn Brydydd Mawr ac Iorwerth Beli*. Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru
- GGGI** Williams, I. gol. 1961. *Gwaith Guto'r Glyn*. 2<sup>il</sup> arg., Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

- GGLI** Ifans, Rh. gol. 2000. *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill*. Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru
- GGrG** Ifans, Rh. *et al.* goln. 1997. *Gwaith Gronw Gyriog, Iorwerth ab y Cyriog, Mab Clochyddyn, Gruffudd ap Tudur Goch ac Ithel Ddu*. Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru
- GGM** Owen, A. gol. 2007. *Gwaith Gruffudd ap Maredudd III, Canu Amrywiol*. Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru
- GHC** Jones, I. gol. 1963. *Gwaith Hywel Cilan*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- GIF** Jones, H. Ll. a Rowlands, E. I. goln. 1975. *Gwaith Iorwerth Fynglwyd*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru ar ran Bwrdd Gwybodau Celtaidd Prifysgol Cymru
- GIG** Johnston, D. gol. 1988. *Gwaith Iolo Goch*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- GLGC** — 1995. *Gwaith Lewys Glyn Cothi*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- GLIBH** Owen, A. gol. 1996. *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac Eraill*. Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru
- GLIF** Bramley, K. *et al.* goln. 1994. *Gwaith Llywelyn Fardd I ac Eraill o Feirdd y Ddeuddegfed Ganrif*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- GMB** Lewis, B. J. gol. 2007. *Gwaith Madog Benfras ac Eraill o Feirdd y Bedwaredd Ganrif ar Ddeg*. Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru
- GMBD** Williams, J. E. C. gol. 1994. *Gwaith Meilyr Brydydd a'i Ddisgynyddion*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- GP** Jones E. J. a Williams G. J. goln. 1935. *Gramadegau'r Penceirddiaid*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

- GS** Jones, N. a Rheinallt, E. H. goln. 1995. *Gwaith Sefnyn, Rhisierdyn, Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed a Llywarch Bentwrch*. Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru
- GTP** Roberts, T. 1958. *Gwaith Tudur Penllyn ac Ieuan ap Tudur Penllyn*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- gutorglyn.net** Golygiad electronig o waith Guto'r Glyn. Gol. cyffredinol Ann Parry Owen. Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Ar-lein: <[www.gutorglyn.net](http://www.gutorglyn.net)>
- LIYU** Johnston, D. 2005. *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300-1525*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- OBWV** Parry, T. gol. 1962. *The Oxford Book of Welsh Verse*. Oxford: Oxford University Press
- PKM** Williams, I. gol. 1978. *Pedeir Keinc y Mabinogi*. 6<sup>ed</sup> arg., Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- PWDN** Williams, I. a Roberts, T. goln. 1923. *The Poetical Works of Dafydd Nanmor*. Cardiff: University of Wales Press
- TYP** Bromwich, R. gol. 2006. *Trioedd Ynys Prydein*. 3<sup>ydd</sup> arg., Cardiff: University of Wales Press



## Rhagymadrodd

'Mygr hoywlamp Bowys, magwyr hywledd' (GS 5.8). Dyma sut y cyfarchodd y bardd Rhisierdyn Fyfanwy wraig Goronwy Fychan ap Tudur o Benmynydd, rywdro yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg. Mae'r llinell yn datgan bod Myfanwy yn un o gynheiliaid y gymdeithas, yn un o'i seiliau cadarnaf, a'i bod yn cynnig goleuni a gobaith i drigolion yr ardal. Wrth aralleirio'r ymadrodd 'magwyr hywledd', dewis y golygydd oedd 'noddwraig sy'n darparu gwleddoedd moethus'.<sup>1</sup> Gwelir felly fod y gair 'magwyr' (sef 'mur', o'i ddeall yn llythrennol) wedi ei aralleirio â'r term 'noddwraig'. Trwy hynny, fe'i cymerir yn ganiataol bod modd i ferch fel Myfanwy 'nodd' beirdd, er na ddefnyddir y gair hwnnw yn y testun gwreiddiol. Ar begwn arall y sbectrwm, fodd bynnag, cawn fod ysgolheigion eraill megis Helen Fulton ac Elisa Moras yn gyndyn i weld moliant i'r ferch yn unrhyw beth mwy na mawl anuniongyrchol i'w gŵr.<sup>2</sup> Canolbwyntir ganddynt ar y dystiolaeth yn y cerddi sy'n dangos yr uchelwraig yn dod yn ail i'r uchelwr, megis pan ddywed Lewys Glyn Cothi : 'i mewn y rhol mae enw Rhys / yn ei ôl mae enw Elys' (GLGC, 162.33-4). Rhydd yr ysgolheigion hyn sylw hefyd i'r pwyslais cyson a roddir ar ganmol harddwch a chwarteisi uchelwraig, sy'n awgrymu mai ei phennaf swyddogaeth oedd bod yn ddelw hardd a chymhedrol. Ond nid dyma'r unig ddarlun a geir ohoni.

Awgrymir gan hyn nad oes consensws ymhlith ysgolheigion ynghylch rôl a statws yr uchelwraig ym marddoniaeth Gymraeg ganoloesol hyd yma, a hynny sydd wedi arwain at brif fwriad yr astudiaeth hon, sef ceisio miniogi ein dealltwriaeth o rôl uchelwraedd yn y gyfundrefn nawdd. Bwriedir gwneud hyn drwy ystyried yn gyntaf yr agweddau gwahanol ar

---

<sup>1</sup>Oni nodir yn wahanol, daw'r holl aralleiriadau o gyfres *Beirdd yr Uchelwyr*.

<sup>2</sup>Gweler, er enghraifft, Moras, 2005, 40 a Fulton, 1989, 77.

berthynas y bardd a'r uchelwraig, fel y'u portreadir yn y cerddi, ac yn ail, eto ar sail tystiolaeth y cerddi, drwy edrych ar y darlun a geir o'r uchelwragedd ynghyd â'r rhinweddau y'i molir hi o'u herwydd.

Mae cynnyrch llenyddol y cyfnod 1300 – 1500 yn ffynhonnell bwysig wrth inni geisio amgyffred y math ar gymdeithas a fodolai yng Nghymru yn gyffredinol. Dyma'r cyfnod a esgorodd ar garfan o feirdd a elwir 'Beirdd yr Uchelwyr', y beirdd a ddidanai haen uchaf y gymdeithas hon, ac yn eu cerddi cawn weld llunio a hyrwyddo ideoleg y gymdeithas. Mae eu gwaith yn cynnig disgrifiad inni o sut yr oedd y llysoedd yn gweithredu, sut oedd pobl y llys yn cymdeithasu, beth yr oeddent yn ei wisgo, beth oedd eu syniadau ynghylch statws a lleoliad dyn yn y pyramid cymdeithasol, ac, yn bwysicach, beth oedd y delfrydau a fyddai'n sicrhau lle i'r unigolyn a'u mabwysiadai ar ben y pyramid hwnnw.<sup>3</sup>

Ond fel yr awgrymwyd eisoes, nid yr uchelwyr yw ffocws y traethawd hwn ond yn hytrach yr uchelwragedd. Mae'n wir mai cerddi gan wŷr yw bron holl gerddi'r ddwy ganrif hyn, a bod y sylw a delir i'r ferch ganddynt, ar yr olwg gyntaf, yn ymylol. Yn wir, cymaint ynghudd yw'r ferch yn y traddodiad llenyddol nes caniatáu i Tony Conran lunio erthygl gyfan ar lenyddiaeth ganoloesol dan y teitl 'The Lack of the Feminine' (1992). Os oedd merched yn barddoni o gwbl yn y cyfnod dan sylw, prin iawn oeddynt, neu o leiaf, prin iawn yw'r gwaith sydd wedi goroesi ganddynt. Llais unig yw un Gwerful Mechain wrth iddi amddiffyn merched mewn dadleuon sydd yn ein hatgoffa o'r *querelle des femmes* a gafwyd yn Ffrainc,<sup>4</sup> ac mae ei gwaith hi eisoes wedi denu sylw ysgolheigion megis Marged Haycock (1990) a

---

<sup>3</sup> Ar hanes y cyfnod, gweler Davies, 1995; Williams, 1987.

<sup>4</sup> '...defenders nevertheless persisted in their attempts to match antifeminist dogma blow for blow' meddai Blamires (1992, 14).

Ceridwen Lloyd-Morgan (1990 a 1996).<sup>5</sup> Fodd bynnag, nid gweithiau *gan* ferched yw craidd yr ymdriniaeth hon, ond yn hytrach, gweithiau *am* ferched, ac yma eto, teg dweud mai canran gymharol fechan o holl gerddi'r cyfnod yw'r rhai a gyfansoddwyd yn benodol i'r ferch. Yn achos gwaith beirdd o'r bedwaredd ganrif ar ddeg y golygir eu waith yng Nghyfres Beirdd yr Uchelwyr Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, gwelir mai dim ond tua 5% o'r cyfanswm y gellir eu hystyried yn gerddi mawl i uchelwragedd.<sup>6</sup> Ac yng ngwaith Guto'r Glyn, Lewys Glyn Cothi a Dafydd Nanmor (tri o'r beirdd beirdd a ystyrir yn feistri'r bymthegfed ganrif),<sup>7</sup> gwelwn mai dim ond tuag 16% o'u cerddi hwy sy'n ymwneud â mawl i'r ferch, ac mae dros hanner y cerddi hynny yn fawl i 'barau priod'.

Serch hyn, er bod y ganran yn isel, mae'r corpws yn arwyddocaol ac yn ddiddorol. Trwy astudio'r cerddi hyn daw darlun o uchelwraig ddelfrydol un o gyfnodau pwysicaf hanes llenyddiaeth Cymru yn fwy eglur. Hyd yn hyn, ni chafwyd astudiaeth gyflawn o'r modd y mae beirdd 1300 – 1500 yn ymdrin â merched. Yn sicr, y mae'n destun sydd yn haeddu sylw, a cham yn y broses o geisio llenwi'r bwlch yw'r ymchwil hwn.

---

<sup>5</sup> Am olygiad o waith Gwerful gweler Howells, 2001.

<sup>6</sup> Cofier nad yw gwaith Dafydd ap Gwilym yn rhan o'r gyfres hon.

<sup>7</sup> Gweler LIYU, 247.

# Pennod 1

## Noddwragedd Canoloesol: Arolwg

Yn ystod saithdegau'r ugeinfed ganrif, dechreuodd ysgolheigion yn Lloegr ac ar y cyfandir ymddiddori yn sefyllfa'r ferch yn Ewrop yn yr Oesoedd Canol, gan gyfranogi o symudiad ehangach a oedd eisoes ar droed, sef 'y twf cyffredinol ym maes astudiaethau ffeministaidd', chwedl Cartwright (1999, 1). Pwrpas y bennod gyntaf hon, felly, yw adolygu'n feirniadol faes sydd wedi newid a datblygu yn sylweddol er y saithdegau, a hynny er mwyn llunio cyd-destun deallusol ar gyfer astudio'r cerddi a drafodir yn y traethawd hwn.

Yng nghanol y saithdegau y cyhoeddwyd cyfrol arloesol Eileen Power *Medieval Women* (1975) ac fe'i dilynwyd yn ystod yr wythdegau a'r nawdegau gan nifer o astudiaethau pwysig eraill, megis *The Fourth Estate: A History of Women in the Middle Ages* gan Shulamith Shahar (1983), *The Lady in the Tower: Medieval Courtesy Literature for Women* gan Diane Bornstein (1983), *Medieval English Prose for Women* a olygwyd gan Bella Millet a Jocelyn Wogan-Browne (1990), a *Virgin Lives and Holy Death*, a olygwyd gan Glenn Bruggess a Wogan-Browne (1996).<sup>8</sup> Un nodwedd amlwg ar yr astudiaethau hyn yw'r modd y maent yn canolbwyntio ar weithiau llenyddol a gyfansoddwyd *ar gyfer* y ferch, gan ystyried yn arbennig y llenyddiaeth a draethai ynghylch ymddygiad y ferch ddelfrydol. Sylwodd nifer o'r ysgolheigion hyn ar y berthynas agos rhwng moesoldeb merched a'u haddysg, sydd yn arwain yn aml iawn at drafodaethau ynghylch pwysigrwydd gwryfodod.<sup>9</sup> Fel y dywed Wogan-Browne:

---

<sup>8</sup> Gweler hefyd Berman *et al*, 1985.

<sup>9</sup> Ar y berthynas rhwng addysg merched a chrefydd, gweler hefyd Smith, 1998, 206.

Virginity is thus a potentially crucial entry-qualification for all the occupations officially available to women: for marriage women are required, ideally, to have and lose it; for the religious life they are required, ideally, to have and maintain it. (1994, 165)

Pwnc cysylltiedig ag addysg yw llythrennedd, ac mae'r graddau y gallai uchelwragedd canoloesol ysgrifennu a/neu ddarllen wedi ennyn cryn sylw. Yn y gyfrol o ysgrifau *Women, the Book and the Godly*, sydd yn ystyried addysg merched yn yr Oesoedd Canol yn Lloegr ac ar gyfandir Ewrop, dywed y golygyddion Lesley Janette Smith a Jane H. M. Taylor: 'Solid archival research offers convincing and depressing evidence of a female oral world and a male textual world, where women listened rather than read, heard rather than preached' (1995a, x-xi).<sup>10</sup> Mae eraill, fodd bynnag, wedi pwysleisio bod gan yr uchelwraig, er nad oedd o reidrwydd yn darllen nac yn ysgrifennu, ran bwysig i'w chwarae yn y byd llenyddol:

Aristocratic women were expected and encouraged to be connoisseurs and patrons of their arts. The generosity such women lavished on the writers, musicians and artists of their courts redounded to the credit of their houses and to the honour of every man and woman associated with them. (Leyser, 1995, 240)

Er bod tystiolaeth felly yn bodoli bod uchelwragedd y tu hwnt i Gymru yn noddol llenyddiaeth wedi dod i'r amlwg, sylwodd Rita Lejeune yn 1976 nad oedd 'une bonne oeuvre générale' yn bodoli yn benodol ar yr agwedd hon (yn McCash, 1996, ix), ac ysgogwyd nifer o ysgolheigion i edrych ar y maes o'r newydd yn dilyn hyn. Yn y gyfrol *The Cultural Patronage of Medieval Women* (1996), a olgwyd gan June McCash, ceir nifer o erthyglau dadlennol sy'n edrych ar y graddau yr oedd y ferch yn noddol a hybu diwylliant yn annibynnol ar ei gŵr, nid yn unig fel noddwraig barddoniaeth ond hefyd fel un a fyddai'n noddol'r celfyddydau gweledol a phensaernïol.

---

<sup>10</sup> Gweler hefyd Smith a Taylor, 1995b; Smith a Taylor, 1997 a Blamires, 1997.

Gwelwyd hefyd fod rhai ysgolheigion wedi mynd ati i gyhoeddi astudiaethau sy'n trafod llenyddiaeth gan ferched canoloesol, megis gwaith Peter Dronke, *Women Writers of the Middle Ages* (1984), a chyflwynodd Alcuin Blamires yn ei *Women Defamed and Women Defended* (1992) ddetholiad o lenyddiaeth a ysgrifennwyd gan ferched yn ogystal ag amdanynt. Cyfieithwyd a chyhoeddwyd gweithiau rhai o'r merched hyn yn ystod yr wythdegau a'r nawdegau, er enghraifft Marie de France (Burgess a Busby, 1986) a Christine de Pisan (Lawson, 1985).<sup>11</sup> Rhwng popeth, felly, nid yw'r ymchwil sy'n ymdrin â rôl y ferch o fewn llenyddiaeth yr Oesoedd Canol yn Ewrop yn brin.

Fodd bynnag, mae gwendid amlwg sydd yn gyffredin i'r cyfan o'r gweithiau hyn. Er eu bod yn aml yn cyfeirio at 'Ewrop', at ei gilydd maent yn canolbwyntio ar ddyrnaid o'r prif ieithoedd Ewropeaidd yn unig, ac yn bennaf y Saesneg a'r Ffrangeg. Edrych a wnânt felly ar ferched sydd yn perthyn i ddiwylliannau pwerus sydd yn aml yn croesi ffiniau gwleidyddol. Nid ydynt yn rhoi unrhyw sylw ystyrlon i'r rhan fwyaf o ieithoedd Ewrop, ac afraid dweud nad ydynt ychwaith yn ystyried sefyllfa Cymru a'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae nifer o astudiaethau ar Gymru'n benodol wedi ymddangos dros y degawdau diwethaf, boed ar ferched yn gyffredinol neu yn benodol ar ferched a llenyddiaeth.

O blith yr astudiaethau mwy cyffredinol gellir nodi erthygl werthfawr Sioned Davies ar 'Y Ferch yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol'. Mae hon yn crisialu nifer o brif syniadau'r cyfnod am y ferch, er enghraifft ei statws israddol a ddeilliai o'r gred ei bod wedi ei ffurfio o asen Adda ac felly yn eilradd i ddynion (1994). Tynnir ar ystod eang o ffynonellau, megis y

---

<sup>11</sup> Gweler hefyd Wolters, 1966; Windeatt, 1985; Larrington, 1995 a Klinck a Rasmussen, 2002.

Beibl, Bucheddau'r Seintiau a'r Santesau, y testunau meddygol o'r bedwaredd ganrif ar ddeg, yn ogystal â'r Mabinogion a barddoniaeth y Cywyddwyr. Canolbwyntir ar agweddau cyfreithiol ar brofiad y ferch gan Morfydd Owen, Dafydd Jenkins ac eraill yn *The Welsh Law of Women* (1980). Addysg a llythrennedd a gafodd sylw gan Ceridwen Lloyd-Morgan yn 'More written about than writing? Welsh women and the written word' (1998), trafodaeth sydd yn ystyried y cyfnod rhwng y ddeuddegfed ganrif a'r bymthegfed. Dengys Lloyd-Morgan fod rhai merched, mor gynnar â 1197, yn ymwneud â dogfennau ynghylch eu hawliau a'u hystadau;<sup>12</sup> eithr pwysleisia:

... although being a party to a deed or attaching one's seal to a document may indicate a person's status, wealth or power, or reflect the importance attached to a written record by an individual or their community, it certainly does not prove that that individual or indeed anyone but the scribe – could either read or write. (1998, 150)

Wedi dweud hyn, cawn efallai brawf fod rhai o'r merched o leiaf yn gallu darllen yn y ffaith bod cyfieithiad Cymraeg Gruffudd Bola o'r 'Quicumque vult' ym meddiant Efa ferch Maredudd yn niwedd y drydedd ganrif ar ddeg.<sup>13</sup> Mae'r cyfieithydd yn nodi mai'r iaith Ladin, ac nid yr anallu i ddarllen, yw'r rhwystr rhwng Efa a'r testun, ac mae'n ddadlennol ei fod yn nodi hefyd mai er mwyn ei haddysgu mewn moesoldeb y cyfieithwyd y testun. Gellid dadlau bod hyn yn unol â sefyllfa merched mewn gwledydd eraill yn Ewrop, fel y pwysleisia Christine de Pisan:

The princess will also wish that when her daughter has reached a suitable age she will be taught to read, and after that she will learn her Hours and her prayers. She will then be given devotional books describing virtuous behaviour, but by no means will she be allowed to read of vain things, of folly or of loose living. Such books will not be allowed in her presence, for the learning and teaching that a child experiences in her early youth she usually retains all her life. (De Pisan yn Bornstein, 1983, 70)

---

<sup>12</sup> Er enghraifft, Thaderech (Birch, 1893–1905, vol. 1, 24–5), Gwenhwyfar gweddw Hywel ap Gruffudd (Edwards, 1940, 122.123) a gwraig Gruffudd ap Gwenwynwyn (Williams, 1993, 26, 71.D.32).

<sup>13</sup> Gweler hefyd Williams, 1974, 331–2.

Ond rhaid nodi hefyd y ffaith na ellir casglu mai Efa noddodd y cyfieithiad, er iddi, mae'n debyg, ei ddeisyfu:

... the exact wording casts a doubt on whether she actually commissioned the text herself. Gruffudd Bola says that he 'understood that she wished to have' a Welsh version of this text... This sounds less like a commission than a man of the cloth giving a woman a text he thinks is good for her.<sup>14</sup> (1998, 157)

Mae Lloyd-Morgan yn dilyn trywydd addysg ymhellach drwy ystyried tystiolaeth eiconograffig y cyfnod, ond daw i'r casgliad nad yw'n datgelu llawer inni am lythrennedd merched. Er y ceir ffenestri lliw yng Nghymru sydd yn dangos Apollonia, Anna a'r Forwyn Fair yn dal llyfrau,<sup>15</sup> ac sydd felly'n awgrymu bod y ffigyrau hyn yn medru darllen, dywed na allwn fod yn sicr fod hyn yn adlewyrchu sefyllfa merched cyffredin Cymru:

A further problem with the St Apollonia windows... is that the woman with the book is a saint, and a foreign saint at that ... These are conventional treatments of common religious scenes, and it cannot, therefore, be assumed that such visual representations have any genuine link with the realities of contemporary Welsh cultural life, as least as far as womens relationship with books is concerned. (Lloyd-Morgan 1998, 151)

Yr ysgolhaig sydd wedi gwneud y cyfraniad helaethaf i faes astudiaethau merched canoloesol yng Nghymru yw Jane Cartwright, ac un o'i chyfraniadau pwsycaf yw ei astudiaeth ar y santesau,<sup>16</sup> y Forwyn Fair a'r lleianod, gwaith a luniwyd gyda'r bwriad o '[g]ywiro'r darlun unllygeidiog a geir o'r gymdeithas ganoloesol Gymreig, gan roi sylw arbennig i ferched' (1999, 3). Yn ei gwaith, edrychir ar syniadau'r gymdeithas ganoloesol ynghylch gwryfodod yng Nghymru gan ddilyn yr esiamplau a fodolai eisoes o astudiaethau

---

<sup>14</sup> Mae'r fformiwla cyfarch a ddefnyddir ar ddechrau'r gwaith hefyd yn wahanol i'r fformiwla'u cyfieithu cyffredin a ddefnyddir wrth gyfarch gŵr a oedd wedi comisiynu darn o waith (Lloyd-Morgan, 1998, 157; Lloyd ac Owen, 1986, 228–31).

<sup>15</sup> Gweler hefyd Lewis, 1970, 4 a Lewis, 1976, 3.

<sup>16</sup> Gweler hefyd Cartwright, 2003 a 2008 a Bernau *et al*, 2008.



am wryfddod yn Lloegr.<sup>17</sup> Mae ymdriniaeth Cartwright â'r Forwyn Fair, y santesau a'r lleianod yn fan cychwyn pwysig ar gyfer unrhyw astudiaeth o agweddau'r cyfnod tuag at y ferch, ac fel pob man cychwyn, mae hefyd yn wahoddiad i ymchwilio ymhellach.

Olrheinia Cartwright draddodiad Cwlt y Forwyn Fair yng Nghymru gan ddangos iddo ddod i'w lawn dwf erbyn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Yn ogystal ag edrych ar y dystiolaeth weledol sydd wedi goroesi ar ffurf ffenestri lliw, y mae Cartwright hefyd, ond i raddau llai, yn troi at y farddoniaeth Gymraeg i ddangos poblogrwydd y Forwyn Fair a'r Santesau. A daw hynny â ni at adran olaf y bennod hon, wrth inni ystyried yr ymchwil sy'n canolbwyntio ar bortread y ferch yn y testunau ysgrifenedig – y farddoniaeth yn bennaf, ond hefyd, y bucheddau. Noda Cartwright fod y beirdd yn moli Mair am ei mamolaeth a'i morwyndod, yn ogystal â'i phortreadu fel eiriolwraig dros y ddynoliaeth. Mae'n dadlau ymhellach fod y dystiolaeth yn y cerddi yn profi bod gan y Cymry, o tua'r drydedd ganrif ar ddeg ymlaen, ffydd gadarn yn y Forwyn Fair a'u bod yn ei dyrchafu (1999, 70), ond o ran sefyllfa'r ferch yn gyffredinol, dadleua nad yw'r cerddi'n cynnig unrhyw dystiolaeth o 'welliant yn safle'r ferch yn y gymdeithas ganoloesol yn sgil cwlt Mair' (1999, 71).<sup>18</sup> Serch sylw fel hwn, fel y gwelir yn nes ymlaen yng nghorff yr astudiaeth hon, mae'r uchelwraig sy'n amlygu'r nodweddion rhinweddol a briodolir i'r Forwyn Fair yn cael ei dyrchafu gan y beirdd, er enghraifft, yr uchelwraig sy'n fam ac yn eiriolwraig dros y bardd ei hunan, neu dros ei theulu. Ac yn wir, gellir dadlau mai o ganlyniad i Gwlt y Forwyn Fair y gwelwyd y newidiadau hyn yn agwedd y beirdd tuag at y ferch, oherwydd, fel y gwelir maes o law, prin iawn yw'r cyfeiriadau at bwysigrwydd y ferch fel mam neu at ei dyletswydd fel eiriolwraig *cyn* i ddylanwad y Cwlt

---

<sup>17</sup> Ar yr astudiaeth o wryfddod y ferch yn Lloegr, gweler Brown, 1986 a 1989; Lastique a Lemay, 1991; Salisbury 1991a a 1991b.

<sup>18</sup> O ran yr ymdriniaeth â'r Forwyn Fair, gweler hefyd: James, 1995, Gray 1996 a Breeze, 1983, 1988, 1990, 1991.

gyrraedd Cymru. Bydd cyfle i archwilio rôl y ferch fel eiriolwraig yn y bennod o'r traethawd hyn sy'n trafod perthynas y bardd a'r uchelwraig.<sup>19</sup>

Diddorol nodi cymaint o'r astudiaethau yn y maes hwn wedi canolbwyntio ar agweddau ar addysg y ferch, ac nid yw ymdrinaeth Cartwright o'r santesau yn eithriad. Wrth gwrs, rhaid cofio gydag ymdriniaeth â phortreadau'r santesau nad oes modd cymryd yn ganiataol eu bod yn darlunio unigolion o gig a gwaed, a rhaid cofio ymhellach nad oes modd gwybod i sicrwydd i ba raddau yr oedd bucheddau'r santesau'n adlewyrchu realiti cyfnod eu cyfansoddi (sef rhai canrifoedd wedi bywyd honedig y santesau). Ond, wedi dweud hyn, a chan gadw'r amodau uchod mewn cof, mae'n bosibl y gall astudiaeth ofalus o'r bucheddau fwrw peth goleuni ar y drafodaeth. Dangoswyd, er enghraifft, nad oedd bucheddau'r santesau yn portreadu'r merched fel rhai a dderbynai addysg, yn sicr, nid addysg mor drylwyr a ffurfiol â'r addysg sy'n cael ei disgrifio ym mucheddau'r seintiau gwrywaidd (Cartwright, 1999, 97). Er enghraifft, dysgwn fod Gwenfrewi yn derbyn addysg drwy *wrando* ar Beuno yn pregethu ond nid oes sôn amdani'n darllen ac ysgrifennu.<sup>20</sup>

A phan oed y gur da sant yn pregethu geiriau Duü yr bobyl y doe y voruyn i uarandau ar uas Düu ac ef a dysgai idi ystyriau yn gal ac yn graph nny chalonn bob peth ar a dyuettai. (Baring-Gould, 1907–134, IV, 399)

Addysg lafar y mae'r santesau hyn yn ei throsglwyddo i'w lleianod hefyd,<sup>21</sup> a gwelwn eto mai hyfforddiant ynghylch pwysigrwydd diweirdeb yw sail yr addysg hon fel arfer:

O dyna kunül ati ferched bonedigion a dysgu vdünt garu diueirdeb a dirmygu edylder y byd a gostung dan ued Crist a thruy reol y crefyd guassanaethü Düu.<sup>22</sup>  
(Baring-Gould, 1907–13, IV, 406)

<sup>19</sup> Gweler tt. 47–51.

<sup>20</sup> Gweler Wade-Evans, 1944, 288–9. O safbwynt sefyllfa merched Lloegr, gweler McSheffrey, 1995, 165.

<sup>21</sup> Er hyn, ceir sôn am Gwenfrewi yn pregethu (Baring-Gould, 1907–13, IV, 412) a Mair Fadlen hefyd (Jones, 1929, 330). Mae'r santes Catrin hefyd yn hynod o ddysgedig ac yn llwyddo i ennill dadleuon ag athronwyr (Bell, 1909, 33–4).

<sup>22</sup> Mae Melangell hefyd yn addysgu'i lleianod i fyw bywyd gwryfol a charu neb ond Duw (Pryce, 1994, 40).

Ar ôl ystyried y santesau â Carwright yn ei blaen i drafod y lleianod gan sylwi bod moli lleian yn rhywbeth sy'n cael ei nodi yn y *Gramadegau*:

Crefydwr a uolir o grefyd, a sancteidrwyd, a gleondyt buched, a medeilyeu dwywolyon, a nerthoed ysprydolyon, a gweithredoed trugared, a haelyoni cardodeu yr Duw, ac o betheu ereill nefolyon ysbrydawl a berthynot ar Duw a'r saint ... Crefyddwreic a uolir o sancteidrwydd, a diweirdeb, a gleindyt buched, a phetheu ereill dwywawl megys crefydwr. (GP, 16)

Ond wrth edrych ar y cerddi, dengys Cartwright mai gwrthrychau masweddus i'r beirdd mewn rhai achosion yw'r lleianod, ac mai 'rhywioldeb yn hytrach na duwioldeb' y lleianod sy'n bwysig iddynt (1999, 154). Mae'r cerddi hyn ynghylch llygru gwryfydod y lleian yn gwrthgyferbynnu â'r darluniau delfrydol a welwn yn y canu mawl i uchelwragedd – darluniau a drafodir yn fanwl ym mhennod 3.<sup>23</sup>

Golygwyd nifer o gerddi masweddus yr Oesoedd Canol gan Johnston (1991a), a dadleuodd ef mai gwrthbwynt llenyddol i'r agweddau addolgar a welwyd tuag at y ferch yn y canu mawl oedd *genre* y canu maswedd.<sup>24</sup> Ysywaeth, ni fu astudiaeth benodol o'r ddeuliaeth rhwng y ddau *genre* hyn, ac er y gorwedd y testun diddorol hwn y tu hwnt i ffiniau'r traethawd yma, heb os mae'n galw am ymchwil pellach. Caiff y ferch ei phortreadu yn y cerddi masweddus fel un a oedd yn llawn twyll a nwyf, a phan honnir bod y gŵr yn cymryd y ferch drwy drais rhywiol, fe gyfiawnheir hyn drwy ddweud bod ei phrotestiadau'n ffug.<sup>25</sup>

---

<sup>23</sup> Gweler hefyd Fulton, 1991, 87–112.

<sup>24</sup> Gweler hefyd LIYU, 338 a Rushton and Hopkins, 2007.

<sup>25</sup> Gweler LIYU, 340.

Trown felly i edrych ymhellach ar yr ysgolheictod sy'n defnyddio llenyddiaeth fel y brif ffynhonnell i ymchwilio i ymdriniaeth y beirdd â merched yr Oesoedd Canol. Cafodd ffigyrau benywaidd y chwedlau Cymraeg sylw yng ngwaith Valente (1988 a 1996), Morgan (1992), Wood (1996) a Winward (1997) ac edrychodd Meirion Pennar hefyd ar rai agweddau ar ferched mewn llenyddiaeth Gymraeg cyn 1500 (1976). Ond y cyntaf i edrych yn fanwl ar y canu i ferched y bedwaredd ganrif ar ddeg oedd T. Gwynn Jones yn ei astudiaeth arloesol *Rhieingerddi'r Gogynfeirdd* (1925). Am mai ef oedd y cyntaf yn ei gyfnod i ysgrifennu am y ferch, yr oedd ei waith yn gyfraniad gwerthfawr i'r maes, yn bennaf am iddo dynnu sylw at bresenoldeb y ferch yn y farddoniaeth ac at y delweddau a'r themâu a ddefnyddiai'r beirdd wrth ymdrin â hi, megis y cyfeiriadau at ewyn y môr, yr eira a goleuni (1925, 27). Dadleuodd hefyd fod tebygrwydd rhwng cerddi serch y Gogynfeirdd a cherddi'r Trwbadwriaid yn Ffrainc, yn arbennig o ran eu hymdriniaeth â'u cwynion yn erbyn y merched. Ond gyda threigl bron i ganrif ers cyhoeddi'r astudiaeth hon, gwelir bod y drafodaeth wedi dyddio—yn amlwg ddigon, fe'i lluniwyd cyn y cynnydd mawr a wnaed yn y maes hwn yn y degawdau diwethaf. Ar adegau mae rhagdybiau ei oes i'w clywed yn sylwadau Jones, megis pan ddywed am y cerddi, yn nawddoglyd braidd, 'os oedd y merched yn eu deall yr oeddynt yn dra galluog a medrus' (1925, 42–3).

Hanner canrif yn ddiweddarach cafwyd astudiaeth fanwl arall, y tro hwn gan Caerwyn Williams a ymchwiliodd ymhellach i'r berthynas rhwng y cerddi Cymraeg i ferched a cherddi cyfatebol o'r cyfandir. Yn ei erthygl gynhwysfawr 'Cerddi'r Gogynfeirdd i Wragedd a Merched, a'u Cefndir yng Nghymru a'r Cyfandir' (1975), daw i'r casgliad na ddylid 'rhuthro i dderbyn gosodiadau fel yr eiddo T. Gwynn Jones ac eraill sy'n maentumio bod dylanwad y trwbadwriaid i'w weld yng nghanu serch y Gogynfeirdd' (1975, 34). O gofio nad oedd y

syniadau am serch cwrtais wedi datblygu yn Ffrainc cyn yr unfed ganrif ar ddeg,<sup>26</sup> ac y gellir dyddio cyfnod cynharaf canu serch y Gogynfeirdd i 1140–70, rhaid cytuno â Williams y byddai'n annhebygol bod dylanwadau Ffrainc wedi cyrraedd Cymru mor gynnar â hyn, a bod syniadau'r Gogynfeirdd wedi datblygu o broses naturiol ac nid o ganlyniad i ddylanwad allanol. Barn Williams oedd:

nad oes rhaid chwilio am ddylanwad o'r tu allan i Gymru i esbonio unrhyw ganu serch a geir gan y Gogynfeirdd – ac o ran egwyddor, diau y cytunir na ddylid chwilio am ddylanwad allanol i esbonio unrhyw ddatblygiad mewn llenyddiaeth cyhyd ag y gellir esbonio'r datblygiad hwnnw fel canlyniad i estyniad neu barhad prosesau a gweithgareddau sydd eisoes ar waith yn y llenyddiaeth honno, h.y., fel canlyniad i gynnydd neu dwf naturiol. (1975, 69–70)

Dadleuodd hefyd fod cerddi i 'wragedd a merched' yn deitl gwell ar y corpws o gerddi na 'rhieingerddi' am fod y term hwnnw yn awgrymu cerddi i ferched ifainc yn unig (1975, 71). Rhaid cytuno â'r gosodiad hwn oherwydd bod y corpws yn cynnwys nifer o fenywod o'r tu allan i ffiniau'r 'rhiain', gydag amryw ohonynt yn briod. Ond er mor eang yw'r erthyglau hyn, nid yw Caerwyn Williams na T. Gwynn Jones yn ymdrin â'r holl agweddau posib a welir yn y canu i ferched. Un maen tramgwydd yw'r tueddiad ganddynt i ganolbwyntio ar y modd y mae'r beirdd yn trafod harddwch y ferch, a thrwy hyn, i gategoreiddio'r holl gerddi i ferched fel rhai sy'n perthyn i *genre* y canu serch, heb ystyried y gallai rhai ohonynt fod yn gerddi mawl. Er efallai eu bod yn ymddangosiadol ar ffurf cerddi serch, mae'n bosib eu bod yn gynnyrch nawdd gan y gwragedd eu hunain (ac felly, efallai, yn syrthio i draddodiad y canu mawl). Wedi'r cyfan, ni fyddai cerddi serch o'r iawn ryw yn deillio o gomisiwn a nawdd, ac os ydynt yn perthyn i *genre* y canu mawl, mae hyn yn agor cwys ymchwil tra gwahanol.

---

<sup>26</sup> Gweler, er enghraifft, sylwadau C. S. Lewis: 'French poets, in the eleventh century, discovered or invented, or were the first to express, that romantic species of passion which English poets were still writing about in the nineteenth' (1958, 2).

Bu bwlch o dri degawd rhwng gwaith Caerwyn Williams a'r astudiaethau sylweddol nesaf yn y maes hwn, sef yr eiddo Elisa Moras. Yn ei herthygl "Mabddysg oedd iddi rhoddi yn rhwydd": Nawdd Barddol gan Wragedd yn yr Oesoedd Canol' (2005) ystyria Moras y syniad o'r ferch fel noddwraig. Diffinia Moras yr 'Oesoedd Canol' yma o tua'r ddeuddegfed ganrif hyd at y bedwaredd ganrif ar ddeg, sydd yn gryn ystod amseryddol, a gellid dadlau bod yma duedd i ddefnyddio enghreifftiau o waith beirdd sydd genhedlaethau oddi wrth ei gilydd fel tystiolaeth i gadarnhau rhai dadleuon, heb nodi'r gwahaniaeth cronolegol rhyngddynt, nac ychwaith ystyried eu cyd-destun yn fanwl. Egyr ei dadl â chyfeiriad at y cyfreithiau, a thrwy gydol y gwaith pwysa'n drwm arnynt. Ond mae'n rhaid cwestiynu dilysrwydd y cyfreithiau fel tystiolaeth gadarn sy'n adlewyrchiad teg o sefyllfa'r cyfnod.<sup>27</sup> At ei gilydd, y gyfraith yw man cychwyn y drafodaeth, a defnyddir y farddoniaeth wedyn i gadarnhau'r dystiolaeth gyfreithiol, er enghraifft:

Sylwer hefyd ar y pwyslais a roddir yn y cyfreithiau ar hawl gwraig uchelwr i roi dillad ... Adlewyrchir hyn yng ngwaith y beirdd...  
(2005, 27)

Gwahaniaethid yn y cyfreithiau hefyd rhwng y modd y telid y bardd teulu gan y brenin a'r frenhines ... Ymddengys aur yn aml yng ngwaith y Gogynfeirdd yn y sôn am haelioni'r gwragedd tuag atynt...  
(2005, 34)

Er mai'r cyfreithiau a'r cerddi yw prif dystiolaeth Moras, dibynna hefyd ar weithiau ysgolheigion a haneswyr cymdeithasol, yn arbennig wrth drafod y sefyllfa yng ngwledydd eraill y cyfandir, megis Ffrainc. O ganlyniad, mae tuedd i gymhwyso sefyllfa gwlad arall at Gymru er nad oedd sefyllfaoedd y gwledydd hyn o reidrwydd yn debyg i'w gilydd, ac mae tueddiad yma hefyd i drafod y canu serch a'r canu mawl fel un *genre*.

---

<sup>27</sup> Mae Robin Chapman Stacey yn tyngu'n sylw at y broblem ynghylch defnyddio'r cyfreithiau fel tystiolaeth: 'It is impossible to know whether what we are reading reflects what actually took place or simply what various redactors thought *ought* to take place' (2000, 339).

Canolbwyntia Moras ar hanner cyntaf teitl ei herthygl sef 'mabddysg' y merched uchelwrol, gan bwysleisio bod un o'r prif rinweddau a folir, sef haelioni, yn ganlyniad i fagwraeth uchelwrol (yn hytrach na bod yn rhinweddau bersonol). Ei dadl hi yw mai cyflawni dyletswydd yn unig oedd y rhoi:

Gallai eu parodrwydd i dywallt gwin a gosod gwledd fod yn ddim mwy na chanlyniad eu magwraeth fonheddig, ac yn estyniad o letygarwch yr arglwyddi a ysbardunai fawl gan brydyddion ers dyddiau'r Cynfeirdd... Edmyga Hywel ab Owain Gwynedd yma haelioni'r ferch ifanc gan ei darlunio fel un hyddysg yn y dull o roi, ac nid fel un a feddai ar natur garedig gynhenid. (2005, 29)

Trafoda'r posibilrwydd o system o nawdd ffurfiol rhwng uchelwraig a bardd, ond ei dadl yw, os oedd hwnnw yn bodoli o gwbl, mai tyfu yn sgil y ddyletswydd hon i ddarparu bwyd a wnaethai:

Mae'n bosibl i'r ddyletswydd lysaidd hon o ddarparu lluniaeth a gofalu am feirdd y llys dyfu'n nes at ryw ffurf o nawdd wrth i'r beirdd gyflwyno ffrwyth eu hawen fwyfwy i'r arglwyddes. (2005, 29)

Dyfynna gyfeiriadau at y modd y byddai'r beirdd yn derbyn tâl o aur, dillad, neu roddion mwy confensiynol megis gwregys gan wragedd, ond er hyn, parhau i fod yn gyndyn o gydnabod bod y gwagedd yn noddï beirdd a wna. Wrth drafod, er enghraifft, y gwregys a dderbyniodd Gruffudd ap Dafydd ap Tudur gan ferch, fe'i gwêl fel 'ryw wedd' ar nawdd, ond nid â mor bell â'i ystyried fel nawdd llawn (2005, 33). Gellid dadlau bod elfen o wrthddweud pan ddywed fod Cynddelw yn mynnu 'nad am dâl y canai' i Efa ac yn hyn o beth ei fod yn 'mynd yn groes i arfer y beirdd' (2005, 35). Onid yw'r sylw hwn yn awgrymu ei bod hi felly'n derbyn bod y beirdd yn arfer ennill tâl gan uchelwragedd? Casgliad Moras, fe ymddengys, yw mai cyflwyno mawl anuniongyrchol i'r gwŷr a wna'r beirdd yn y cerddi sy'n digwydd

cyfeirio at y gwragedd fel noddwragedd, gan ddadlau mai'r dynion a fyddai'n talu'r beirdd yn y pen draw bob tro:

... ni cheir cyfeiriad at rodd o'r fath wrth foli haelioni arglwyddes yng ngwaith y Gogynfeirdd. Dyma adlewyrchiad pellach o'r gwahaniaeth rhwng yr hyn yr oedd yn briodol i arglwyddes ei roi o'i gymharu â'r hyn y gallai ei gŵr ei gyflwyno'n dâl i feirdd. Mae'n anodd credu na fyddai'r cyfyngiadau hyn wedi adlewyrchu ar y modd y dewisai'r beirdd wrthrychau eu cerddi, a gellir deall pam yr ystyrir mai canu mawl i'r arglwyddes er mwyn ennill nawdd ei gŵr a'i lys a wnâi'r beirdd mewn gwirionedd. (2005, 40)

Yn sicr, mae erthygl Moras yn codi cwestiynau pwysig ac yn ysgogiad gwerthfawr i ymchwil pellach yn y maes, ac yn un o'r rhesymau pam y dewiswyd trafod perthynas y bardd â'r uchelwraig yn y traethawd hwn.

Un peth a ddaw yn glir o waith Moras, fel y nodwyd eisoes, yw ei bod hi o'r farn bod magwraeth y merched wedi chwarae rôl bwysig wrth ddatblygu rhinwedd haelioni ynddynt a thrwy hyn sicrhau moliant y beirdd iddynt. Dadleua fod y beirdd yn portreadu haelioni'r gwragedd uchelwrol hyn drwy gyfeirio at ferched chwedlonol a oedd yn enwog am eu haelioni, megis Rhiannon (er mai prin iawn yw'r gymhariaeth hon yn y farddoniaeth),<sup>28</sup> a bod ambell drosiad a delwedd yn fodd o amlygu'r rhinwedd hefyd, megis: 'Llywyawg, law eurawg, liw eiry bronnydd' (GBF, 30.12).<sup>29</sup>

Trafoda un o'r rhinweddau eraill a folir yng ngwaith y beirdd llys mewn erthygl arall sy'n dwyn y teitl: "'Nid di-boen na'm atebud, Nid hawdd ymadrawdd â mud"' : Cwynion Beirdd Llys am Ferched' (2007). Fel yn yr erthygl flaenorol, nid yw Moras yn clustnodi cyfnod penodol ar gyfer yr astudiaeth, ac felly unwaith eto trafodir corpws helaeth o feirdd

<sup>28</sup> 'Dygn gof Rhiannon rhodd' (GGrG, 2.15); 'Atgofion dolurus am [un a'i] rhodd [fel] Rhiannon'.

<sup>29</sup> '[Un] gannaid, euriad [ei] llaw, [o] liw eira[r] llethrau'. (Daw'r aralleiriad hwn o *Gyfras Beirdd y Tywysogion*, VII).



o gyfnodau gwahanol heb ystyried arwyddocâd hynny yn fanwl. Er bod y teitl yn datgan bwriad i drafod 'cwynion beirdd llys', gwelwn mai un 'gŵyn' sydd o dan sylw, sef tawelwch y ferch, ac effeithiau hynny ar y bardd. Cytunaf â phrif ddadl Moras nad cwyno a wna'r beirdd mewn gwirionedd am y diffyg ymateb gan y merched ond yn hytrach eu moli am fod gwrthod y bardd drwy fudandod yn arwydd o'u ffyddlondeb tuag at eu gwŷr:

Wrth bwysleisio'r modd yr oedd yr arglwyddes yn eu gwrthod yr oedd y beirdd yn ategu'r darlun ohoni fel gwraig ddiwair, ac felly hefyd yn dyrchafu llinach yr arglwydd gan na fyddai hwn mewn perygl oherwydd carwriaethau ei wraig. Yr oedd haeriadau ymddangosiadol haerllug felly'n cynnal ac nid yn bygwth y drefn. (2007, 21)

Mae cryn gymhlethdod yn codi o hyn wrth i 'dawelwch' gael ei bortreadu fel achos cwyn ac achos mawl ar yr un pryd, ac mae angen edrych ar y ddeuoliaeth hon yn fanylach, gan ei bod yn taflu goleuni ar ba mor anodd oedd y dasg a wynebai uchelwraig wrth ymdrechu i dyfu i gyflawni un o ddelfrydau'r oes, sef cydbwysedd bregus rhwng ymddiddan difyr a thawelwch moesgar.

Â Moras yn ei blaen i drafod rhagor ar syniadau'r gymdeithas ganoloesol ynghylch lleferydd merched, a dengys fod y Bidiau a'r Canu Gwirebol Cynnar yn portreadu'r ferch a oedd yn rhy siaradus fel twyllwraig. Noda hefyd fod y merched uchelwrol yng ngherddi'r bedwaredd ganrif ar ddeg yn cael eu hystyried fel twyllwragedd, ond y tro hwn, nid ar sail eu lleferydd ond yn hytrach ar sail eu tawelwch (2007, 22–23). Edrycha hefyd ar y gwahanol ffyrdd yr oedd y beirdd yn ymdrin â lleferydd merch. Yn ogystal â moli (neu ddirmygu) eu tawelwch, neu eu mudandod, roedd y beirdd hefyd yn canmol gallu'r gwragedd i ymddiddan yn y llys, a moli ceinder lleferydd yr uchelwragedd yn ogystal â'u defnydd o'r Gymraeg (2007, 27). Ond y mae dyfynnu gwaith Hywel ab Owain Gwynedd o'r ddeuddegfed ganrif ar y cyd â gwaith Lewys Glyn Cothi o'r bymthegfed, heb nodi'r gwahaniaeth amseryddol a

chymdeithasol, yn peri peth anhawster. Ni wyddom, er enghraifft, a yw cyfeiriadau o'r fath yn fwy amlwg yn y ddeuddegfed ganrif neu a yw moli'r ferch am ei defnydd o'r Gymraeg yn beth cyffredin yn y bymthegfed ganrif. Credaf nad oes modd ymdrin â gweithiau sydd ganrifoedd oddi wrth ei gilydd a'u trafod fel petaent yn perthyn i'r un cyfnod oherwydd, fel y gwelir yn y traethawd hwn, ceir gwahaniaethau yn y modd yr ymdrinia'r beirdd â'r ferch wedi bwlch o ganrif, heb sôn am y gwahaniaethau wedi bwlch o dair canrif.

Trafoda Dafydd Johnston agweddau ar ddyletswydd y ferch yn y bymthegfed ganrif drwy edrych ar farddoniaeth Lewys Glyn Cothi mewn erthygl sy'n galw'r bardd yn 'Fardd y Gwragedd' (BYG). Dadleua yma fod y bardd hwn yn rhoi mwy o sylw i wragedd nag unrhyw un o feirdd eraill y cyfnod oherwydd y modd y mae'n ymdrin â'r ferch mewn cerddi sy'n moli paru priod ar y cyd. Cofier ei bod hi'n anodd diffinio beth yn union yw cerdd o'r fath, oherwydd y mae'n dibynnu ar ddiffiniad y golygydd.<sup>30</sup> At hyn, nid oes gan Lewys Glyn Cothi ('Bardd y Gwragedd') un gerdd sy'n fawl unigol i wraig. Fodd bynnag, y mae hon yn erthygl werthfawr sydd yn tynnu sylw at y ferch ym marddoniaeth y bymthegfed ganrif, yn arbennig o ran dangos ei phwysigrwydd mewn perthynas â gweithgareddau'r llys, a'r modd y mae Lewys yn cysylltu'r ferch â'r gegin a'r wledd, ac yn defnyddio delweddaeth gerddorol, er enghraifft, i adlewyrchu cytgorod yr uned briodasol.

Dengys Bleddyn Owen Huws agwedd arall ar y berthynas hon rhwng y wraig a'r llys yn ei astudiaeth gyffredinol o'r cerddi gofyn a diolch, gan nodi mai gwrthrychau a oedd yn perthyn i'r sffêr domestig a erchid fwyaf gan wragedd (1998b, 231–8). Cawn drafodaeth werthfawr o'r cyfnod llenyddol hwn gan Dafydd Johnston yn ei gyfrol arloesol *Llên yr*

---

<sup>30</sup>Er enghraifft, cymharer y sylw cyfartal a roddir i'r gŵr a'r wraig yn GLGC, 79 neu 162 â cherdd 151 lle gwelir mai'r gŵr yw prif wrthrych y gerdd. Trafodir effaith golygu ymhellach ar ddiwedd y bennod, gweler tt. 21–2.

*Uchelwyr*. Oherwydd bwriad y gyfrol, sef cynnig gorolwg o holl agweddau canu'r cyfnod, rhoddir cryn sylw i'r ferch, ac mae'r cyfeiriadau a geir yn y gwaith hwn ati yn hynod werthfawr. Fel y gellid ei ddisgwyl, mae'r penodau ar y canu serch o raid yn ymwneud â'r ferch, a thrafodir cwynion y beirdd, eu syniadau ynghylch harddwch merch, y delweddau a ddefnyddir a'r modd y datblygodd y *genre* o ganu'r cywyddwyr cynnar hyd at ganu beirdd y bymthegfed ganrif – meysydd a drafodwyd hefyd gan Gilbert Ruddock (1971 a 1975). Wedi dweud hyn, mae'r sylwadau pwysig a wneir gan Johnston am y cerddi i ferched yn y penodau sy'n ymdrin â'r canu mawl yn benodol, yn tueddu i gael eu colli yn y môr o sylw a roddir i'r gwŷr. Edrycha ar y canu marwnad i ferched, ond yn bennaf trafod portread y ferch o fewn thema Perchentyaeth (sef yr holl bethau sy'n ymwneud â bywyd diwylliannol y llys) a wna Johnston, gan ddangos ei rôl hi o ran goruchwylio'r gegin a'r gwleddoedd.

Trafodir agweddau eraill ar y canu i'r gwragedd drwy ganolbwyntio ar y cyfeiriadau atynt yn gwnio a gwehyddu yn y cerddi mewn erthygl gan Marged Haycock (2001). Dengys mai prin yw'r cyfeiriadau hyn a'i bod hi'n well gan y beirdd ddefnyddio'r crefftau fel arf i ddelweddu eu disgrifiadau megis gwallt merch,<sup>31</sup> neu i gymharu'r broses o gyfansoddi cerdd â'r broses o weu a gwehyddu (2001, 52).<sup>32</sup> At hynny, cawn ddwy adran yn nhraethawd doethuriaeth Alaw Mai Jones (a luniwyd gan gyfarwyddyd Haycock) sy'n ehangu ar y syniadau hyn drwy drafod dillad ac ategolion yn llenyddiaeth y cyfnod c.700 – c.1600. Yn y bennod sy'n edrych ar wisgoedd yr arglwyddesau a'r uchelwragedd (2007, 154–191) a'r atodiad sy'n ymdrin yn benodol â'r benwisg (2007, 236–250), dangosodd Jones sut yr oedd y beirdd yn ymdrin â dillad y ferch a sut yr oedd hyn yn dangos datblygiadau ffasiwn yr oes.

---

<sup>31</sup>Er enghraifft: 'On'd un lliw y fantell hon / Â chawgiau y marchogion?'ac 'Ai dellt aur yw dy wallt di?' (OBWV, tt 154).

<sup>32</sup>Er enghraifft: 'thaeliwr serch i ferch fu', 'gweadur cerdd' (GIG, XXI.3 a t.90).

Ystyria i raddau hefyd agwedd y gymdeithas tuag at y ferch, gan ddangos ar y naill law sut y disgwylid iddi edrych yn drwsiadus, tra y'i beirnedir ar y llaw arall am ymfalchïo'n ormodol yn ei hymddangosiad, syniad sydd i'w weld mewn gwledydd eraill hefyd, fel y dengys

Richardson:

Dress had a clear role in regulation of the female body which linked it quite explicitly to appropriate feminine behaviour, and the concerns which lay behind such a connection were considerably more fundamental than the corresponding unease about status-defining clothing conduct.

(2005, 16–17)

Fel y gwelir, felly, er y ceir astudiaethau yma a thraw o'r uchelwraig yng nghanu'r beirdd, nid yw'r darlun yn gyflawn o bell ffordd. Er bod rhai ysgolheigion wedi canolbwyntio ar y ferch, fe wnaethpwyd hynny gan amlaf yng nghyd-destun *genre* y canu serch gan adael bylchau yn y trafodaethau ar y canu mawl. Oherwydd hyn, astudir y cerddi sy'n perthyn i *genre* y canu mawl yn y traethawd hwn, gan ystyried ei is-*genres* hefyd: y canu marwnad a'r canu gofyn a diolch. Dylid nodi y defnyddir y cerddi sydd eisoes wedi eu golygu fel y prif ffynonellau. Yn sgil hyn, rhaid crybwyll goblygiadau astudio testun golygiedig, oherwydd wrth ddefnyddio testun o'r fath arweinir y darllenydd i dderbyn diffiniad y golygydd o ran teitlau'r cerddi ac felly, yn aml, o ran eu categorieddio hefyd. Buan y daw hi'n amlwg bod modd dadlau yn erbyn rhai o ddiffiniadau'r golygyddion, ac y galleid, er enghraifft, ystyried cerdd sydd wedi cael ei chategorieddio gan olygydd dan label cerdd foliant i *uchelwraig*, fel cerdd foliant i *uchelwr* neu yn wir fel cerdd serch. Fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau'r traethawd hwn, nid oedd lle i ailasesu diffiniadau'r golygyddion cydnabyddedig a chynnig diffiniadau newydd mewn modd systematig. Dewiswyd, felly, y cerddi yr ystyrir gan eu golygyddion bod yn gerddi mawl i uchelwraig. Mae'r sylweddoliad hwn yn dangos sut y gellid ehangu ar yr astudiaeth hon yn y dyfodol, i weld beth a ellid ei gasglu o edrych ar y

cyfeiriadau at y ferch yn holl ganu'r cyfnod a chwilio amdani mewn cerddi sy'n dwyn teitlau a awgryma ei habsenoldeb.

O ran dewis y cerddi ar gyfer yr astudiaeth hon, penderfynwyd canolbwyntio ar gywyddwyr y bymthegfed ganrif yn ogystal â'u rhagflaenwyr yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Mae diwedd y bymthegfed ganrif yn dynodi diwedd gyrfa nifer o'r Cywyddwyr mawr, megis Lewys Glyn Cothi a Guto'r Glyn, ac felly mae'n fan pwrpasol i ddod â'r astudiaeth i'w therfyn. Y mae'r cyfnod dan sylw hefyd yn un diddorol a chyffrous yn hanes Cymru, yn arbennig o gofio rôl y beirdd yn Rhyfeloedd y Rhosynnau wrth hyrwyddo gwahanol ddaliadau'r teuluoedd uchelwrol. Gallwn felly ystyried cyd-destun hanesyddol rhai o ferched y teuluoedd pwysig hyn gan weld i ba raddau mae darluniau'r beirdd ohonynt yn ymwneud â'r ffeithiau y gwyddom amdanynt. Gan mai nifer fechan o gerddi'r bedwaredd ganrif ar ddeg i'r ferch sydd wedi goroesi, mae modd astudio'r holl gorpws, ond ni ellir dweud yr un peth am gerddi'r bymthegfed ganrif – bu'n rhaid dewis a dethol cerddi'r ganrif honno, a chan mai Lewys Glyn Cothi a Guto'r Glyn yw beirdd mawl mwyaf cynhyrchiol y bymthegfed ganrif, penderfynwyd defnyddio eu cerddi hwy'n benodol. Yn aml mewn astudiaeth o'r cyfnod hwn, y mae gwaith Dafydd ap Gwilym yn cael sylw blaenllaw, a theimlaf fod y sylw cyson hwn weithiau mewn peryg o daflu gweithiau beirdd eraill y cyfnod i'r cysgod. Am y rheswm hwnnw felly, yn ogystal â'r ffaith ei fod yn ymdrin â'r ferch fel gwrthrych serch yn bennaf, ni fydd yr astudiaeth hon yn rhoi sylw manwl i'r cerddi i Forfudd a Dyddgu, er bod lle i gredu mai merched o gig a gwaed oeddynt a bod elfen o ganu mawl yn rhai o'r cerddi i Ddyddgu yn arbennig.<sup>33</sup>

---

<sup>33</sup>Ar Ddafydd ap Gwilym, gweler, er enghraifft: Johnston *et al*, 2010; Fulton, 1989 a Rowlands, 1975.

Er mwyn mynd i'r afael â'r gwaith, rhennir y drafodaeth fel a ganlyn. Yn gyntaf, edrychir ar berthynas yr uchelwraig â'r bardd, gan drafod hyn yng nghyd-destun y ferch fel noddwraig, fel eiriolwraig ac fel un a oedd yn cynnig ymgeledd. Yn ail, ceisir sefydlu beth oedd syniadau'r beirdd ynghylch y ferch ddelfrydol. Gwneir hyn drwy holi beth oedd y rhinweddau a folir, a sut yr oedd y beirdd yn eu portreadu drwy edrych ar bedair astudiaeth achos. Y gobaith yw y bydd yr ymchwil hwn yn ehangu ein hymwybyddiaeth o'r meddylfryd a'r gymdeithas ganoloesol, yn ogystal ag ysgogi ymchwil pellach yn y maes pwysig hwn.

Wedi'r cyfan, fel y mae Lerner yn nodi:

Only a history based on the recognition that women have always been essential to the making of history, and that men and women are the measure of significance, will be a truly universal history. (1979, 180)

## Pennod 2:

### Perthynas y Bardd a'r Uchelwraig

Yn aml, wrth drafod perthynas beirdd â gwrthrychau eu cerddi, cyfeirir at y berthynas 'bersonol' a fodolai rhyngddynt, ac nid yw'r cerddi i ferched yn eithriad. Droeon gwelwn ysgolheigion yn sôn am golled 'bersonol' y bardd, yn arbennig yn is-*genres* y marwnadau, sy'n cynnwys y marwnadau i ferched (ynghyd â marwnadau i feirdd a phlant). Noda Johnston er enghraifft, fod 'elfen bersonol gref' ynddynt oherwydd 'y berthynas agos sydd gan y bardd â'r gwrthrych' (LIYU, 291), ac yn yr un modd, dywed Bleddyn Owen Huws wrth drafod y cerddi gofyn a diolch:

Yr argraff a geir yw bod agosrwydd perthynas rhwng y beirdd a'r uchelwragedd yn allweddol, ac mae hynny i raddau helaeth i'w briodoli i natur personoliaeth bardd unigol a'i amgylchiadau personol.  
(1998b, 127)

Y broblem wrth wneud datganiadau fel hyn yw'r ffaith nad oes gennym yn aml ddim heblaw'r cerddi eu hunain sy'n medru cefnogi'r syniad o 'berthynas bersonol' bardd â gwrthrych ei gerdd, ac nid oes modd felly inni gadarnhau geirwiredd portread y gerdd o'r berthynas hon. Wedi'r cyfan, byddai bardd profiadol yn gallu llunio ymdeimlad o agosatrwydd yn ei waith a fyddai, yn ei dro, yn awgrymu perthynas 'bersonol' p'un ai oedd honno'n bodoli ai peidio. Fodd bynnag, mewn cyfnod pan oedd y beirdd yn canu er mwyn ennill bywoliaeth yn bennaf, yn hytrach na chanu o fympwy emosiynol, a phan oedd gwenieithu'r gwrthrych yn holl bwysig er mwyn ennill tâl, rhaid gofyn a ellir gwahaniaethu o gwbl rhwng canu gwirioneddol 'bersonol' a'r hyn y gellid ei ddisgrifio fel canu confensiynol, neu ganu i ryw fath o fformwla a allai greu'r argraff o berthynas 'bersonol'?

I ryw raddau, yr un yw'r broblem sy'n wynebu unrhyw un a gais ddehongli unrhyw agwedd ar natur perthynas bardd â gwrthrych ei gerdd oherwydd, heb dystiolaeth eilaidd, rhaid dibynnu yn llwyr ar y darlun a geir yn y geiriau. Yn y bennod hon, canolbwyntir ar ddau fath ar berthynas rhwng y beirdd a'r merched: yn gyntaf, perthynas lle gwelir y ferch fel noddwraig i'r bardd ac, yn ail, berthynas lle portreadir y ferch fel ei ymgeleddwraig a'i eiriolwraig. Er na fydd hi'n bosibl datgan yn bendant nad topos llenyddol yw'r portreadau hyn, credaf fod ymdriniaeth â'r topos ynddi'i hunan yn werthfawr am ei bod yn hybu ein dealltwriaeth, os nad o realiti bywyd beunyddiol y ferch yn y cyfnod, yna o leiaf o realiti ei phortread yn nychymyg y beirdd.

Gan fod y gymdeithas dan sylw yn un a oedd wedi'i seilio ar statws, a chan mai teuluoedd uchelwrol wedi'u diffinio'n rhannol yn ôl maint eu cyfoeth a oedd ar frig y goeden hon, edrychwn yn gyntaf ar berthynas y bardd a'r uchelwraig yng nghyd-destun nawdd. Rhaid cofio wrth ystyried y syniad o 'nawdd' nad yn nhermau ariannol yn unig y gellid ei ddiffinio. Yn wir, mae modd cymhwyso geiriau Linda Paterson i sefyllfa Cymru pan ddywed: 'How important were Occitan women as patrons of literature? The answer depends on one's own definition of patronage' (1993, 32). Yn y bennod hon, ni chyfyngir ein diffiniad, fel y mae rhai wedi awgrymu, i'r syniad bod y ferch yn noddi'r bardd drwy ei ysbrydoli yn unig. Yn hytrach, ystyrir diffiniad sy'n gweld y ferch yn cyfnewid rhodd, boed yn arian neu'n wrthrych materol, am gerdd.



## Perthynas y Bardd a'i Noddwraig

Fel y crybwyllwyd yn y bennod gyntaf, mae'r syniad o 'noddwraig' wedi derbyn cryn dipyn o sylw gan ysgolheigion, yn arbennig wrth iddynt ddadlau a oedd y fath beth â noddwraig yn bodoli o gwbl. Mae'r ymchwil hwn wedi canoli ar yr awgrym nad oedd y syniad o noddwraig yn ddim mwy na thopos llenyddol:

However compelling it may be, the image of medieval women as purveyors and indirect creators of medieval literature remains largely hypothetical ... If the image of the inspiring and supportive female patron is not easily corroborated by historical fact, could it be a literary topos? (Burns and Kreuger, yn Moras, 2005, 32)

Ond gwelwn fod y trwbawriaid, er enghraifft, yn canu am dderbyn nawdd barddol gan arglwyddesau Ffrainc, ac yn nodi bod diben materol i'r canu hwn. Eto i gyd, mae'n debyg bod rheswm pellach dros ganu i'r uchelwagedd sef er mwyn dyrchafu eu gwŷr yn y gymdeithas, fel y sylwodd Fulton:

The fact that aristocratic women in Provence and France could own land in their own right made them worthy of pursuit ... The praise of patrons' wives also indicated the need of the knights for influential support for their emergence as a powerful new class. (1989, 229)

Roedd gan y beirdd hyn fwriad pellach fyth yn ymwneud â'u dyrchafiad personol wrth iddynt geisio nawdd gan uchelwagedd, ac roeddent yn cyfaddef eu bod yn ceisio cryfhau eu enw da eu hunain wrth ganu iddynt:

Elias Careil declares frankly, 'I'm not singing to gain sexual pleasure / but for honor and profit' (e s'ieu ên dizia lauszor / ên mon chantar, no'l dis per drudaria, / mas per honor e pro qu'ieu n' atendia). (Burns, yn Moras, 2005, 35)

Fel y dangosodd Moras, mae hyn mewn gwrthgyferbyniad â geiriau un bardd o Gymru, Cynddelw Brydydd Mawr (2005, 35), sy'n datgan ei fod yn canu er anrhydedd i wrthrych ei gerdd ac nid er mwyn ffafrau materol iddo'i hunan. Ond yr hyn sy'n ddiddorol yma yw bod y

sylw nad yw'r bardd yn dymuno derbyn nawdd gan y ferch yn awgrymu'n gryf fod derbyn  
nawdd ganddi yn arferiad, neu o leiaf yn bosibilrwydd real o dan y drefn a fodolai:

Nid yr chwetyl amgen yt amgyrwyf,  
Namyn am garu ny gerytwyf;  
Ny'm da6r, uerch pennaeth, pryd na'th welwyf,  
Nyd er keissya6 tal tros a ganvyf.<sup>34</sup>  
(GCBMi, 5.35–8)

Beth oedd y berthynas rhwng y bardd a'r uchelwraig yng Nghymru felly? Mae Fulton  
yn dadlau nad oedd diben i feirdd ganu i'r ferch er mwyn sicrhau dyrchafiad cymdeithasol,  
am nad oedd gan wragedd Cymru gymaint o bŵer ag arglwyddesau Ffrainc a Phrofens,<sup>35</sup> ac  
mai mawl anuniongyrchol i'r gwŷr yn unig yw'r canu i'r gwragedd yng Nghymru :

In medieval Wales, however, women did not generally hold land or money in their  
own right. Praise of Welsh noblewomen was merely a displacement of the eulogies  
directed at the lord in whose court they lived. By honouring a patron's wife or  
daughter, a poet was honouring the patron himself, and therefore fulfilling part of  
his obligation as court-poet. (1989, 77)

Ond tybed a ellir bod mor sicr; faint o dystiolaeth sydd mewn gwirionedd i awgrymu nad  
oedd diben materol uniongyrchol i ganu i uchelwragedd Cymru? Gwyddom erbyn y  
bymthegfed ganrif fod merched yn dirfeddianwyr,<sup>36</sup> ac fel y gwelwn yn y man, y mae'n  
debygol y byddai gan uchelwragedd y bedwaredd ganrif ar ddeg rai hawliau hefyd, a  
chyfeirir yn aml at y nawdd a dderbyniai'r beirdd ganddynt. Yn wir, os derbyniwn y  
cyfreithiau fel dystiolaeth sy'n rhoi rhyw fath o awgrym i ni o feddylfryd yr Oesoedd Canol  
ynghylch merched, gwelwn fod gan y wraig rai hawliau o safbwynt rhannu eiddo:

---

<sup>34</sup>Nid er mwyn [cael] sôn gwell [amdanaf] y chwenychaf, / Ond er mwyn caru'r hon ni feiaf; / Ni waeth gennyf,  
ferch pennaeth, na fwyf yn dy weld, / Nid er mwyn ceisio tâl [mo hyn] yn gyfnewid am y cwbl a ganaf'. (Daw'r  
aralleiriad hwn o *Gyfras Beirdd y Tywysogion*, III).

<sup>35</sup>'Praise of Provençal noblewomen was directed at the women themselves as possessors of property and  
wealth...' (Fulton, 1989, 77).

<sup>36</sup>Gweler Lloyd-Morgan, 1998, 150.

Gureyc e brenhyn a eyll rod *hep y ganhyat* traean deuot a del e gan e brenhyn. Gureyc ucheluur a eyll rody e mantell a'e chrys a'e hesgydyeu a'e phenllyeyn a'e buet a'e dyaut a chraun e chell, a benfygyau e holl deodreuen. Gureyc taeauc ny eyll rody namen e penguuch na benfygyau namen e gogyr, a henne mal e klewer e llef e ar y tom o'e duen adref. (Wiliam, 1960, 29; myfi piau'r italeididio)

Ond fel y crybwyllwyd yn y bennod flaenorol, rhaid gochel rhag pwysu'n ormodol ar y cyfreithiau fel tystiolaeth, oherwydd ni wyddom i ba raddau yr oeddynt yn cael eu gweithredu; yn wir, efallai bod y cerddi'n rhoi syniad gwell inni o realiti bywyd beunyddiol yr Oesoedd na'r cyfreithiau, a'u bod yn dystiolaeth ddigon cadarn i ddangos, fel y noda Johnston, fod gwagedd yn 'estyn nawdd i'r beirdd yn annibynnol ar eu gwŷr' (BYG, 74). Mae ystyried y berthynas hon rhwng y bardd a'r uchelwraig fel noddwraig yn arbennig o ddadlennol yn y marwnadau, fel y gwelwn yn yr adran nesaf.

### **'Llym dengyn ofid prid pob prydydd': Y Canu Marwnad**

Yn y tair marwnad i ferched o'r bedwaredd ganrif ar ddeg sydd wedi goroesi, mae'r sôn am gollu nawdd yn ei amlygu ei hunan mewn sawl ffordd.<sup>37</sup> Fan hyn, rhaid cofio bod yna beryglon wrth gyffredinoli'n ormodol ar sail y tair cerdd hyn, dwy uchelwraig yn unig sydd dan sylw, sef dwy Wenhwyfar, y naill o Bentraeth ym Môn a'r llall o Goedan yn sir y Fflint. Mae angen gofyn felly ai eithriadau oedd y ddwy uchelwraig hyn ynteu, yn hytrach, ai eithriad yw'r ffaith fod y cerddi iddynt wedi goroesi—hynny yw, bod nifer o gerddi tebyg i ferched eraill wedi cael eu llunio, ond eu bod wedi mynd ar goll? Gellid dadlau ei bod hi'n annhebygol mai dim ond y ddwy uchelwraig hon a fyddai wedi bod yn wrthyrchau cerddi, a mentrwn drin y cerddi iddynt fel esiamplau o draddodiad ehangach.

---

<sup>37</sup> Gan eithrio cerddi Dafydd ap Gwilym. Dyma'r tair: Marwnad Gwenhwyfar wraig Hywel ap Tudur ap Gruffudd o Goedan gan Gronw Gyriog (GGrG, 2); Marwnad Gwenhwyfar wraig Hywel ap Tudur ap Gruffudd o Goedan gan Mab Clochyddyn (GGrG, 6); Marwnad Gwenhwyfar o Bentraeth gan Gruffudd ap Maredudd (GGM, 5).

Yn gyntaf, o ystyried cyn lleied a orosodd o'r marwnadau i ferched, mae'n arwyddocaol fod dau fardd, Gronw Gyriog a Mab Clochyddyn, wedi canu marwnadau i'r un Gwenhwyfar. Gall hyn awgrymu nad perthynas bersonol yn unig rhyngddi hi ag un bardd oedd sail ei nawdd, ond yn hytrach fod noddï beirdd wedi bod yn arferiad ganddi. Awgrymir felly fod ganddi statws fel noddwraig beirdd. Nid yw hyn yn syndod, efallai, o gofio fod gan deulu Gwenhwyfar hen hanes o noddï barddoniaeth a'i bod hi'n wraig uchel iawn ei thras.<sup>38</sup> Ymhellach, mae'n ddiddorol nodi mai'r hyn a bwysleisir yn y ddwy farwnad yw'r union dras uchel hon, ac nid y ffaith ei bod yn noddï beirdd. Mae hynny, yn ei dro, yn creu'r argraff nad hyhi fel unigolyn parod ei nawdd sy'n arbennig ond yn hytrach uchder ei thras; pe bai hi, fel merch o noddwraig, yn beth cwbl anghyffredin, gellid disgwyl y byddai'r bardd wedi tynnu sylw arbennig at hyn. Dadl arall sy'n codi o ddilyn yr un trywydd yw bod y pwyslais hwn ar ucheldras y teulu ac ar draddodiad y teulu o noddï beirdd yn awgrymu mai cam naturiol fyddai i'r ferch gydio yn yr un traddodiad. Parhad y traddodiad o haelioni bonheddig yw'r peth pwysig, nid rhyw y sawl sy'n noddï:

Merch Fadog rieddog radd,<sup>39</sup>  
(GGrG, 2.30)

Ryhoyw falchloyw o feilchlwyth,<sup>40</sup>  
(GGrG, 6.10)

Nid yw Gronw Gyriog yn ei farwnad yn nodi bod y traddodiad o nawdd yn bodoli'n benodol ymysg y merched, ond wrth inni edrych ar farwnad Mab Clochyddyn,<sup>41</sup> gwelwn y bardd yn cyfeirio, o leiaf yn anuniongyrchol, at yr uchelwraig fel noddwraig gan sôn am bryder, nid yn

---

<sup>38</sup>Roedd ei thad, Madog, yn farwn pwysig ac roedd ei mam hefyd yn hanfod o deulu brenhinol Powys (GGrG, t.26).

<sup>39</sup>'Merch Madog frenhinol ei hurddas'.

<sup>40</sup>'Un hardd a disglair siriol iawn o lwyth rhai gwych'.

<sup>41</sup>Gweler Moras, 2005, 48: 'Mae'n bosibl mai ym marwnad Mab Clochyddyn iddi hi y cawn y mynegiant cliriaf o ddyled bardd i'w arglwyddes'.

unig ar ei ran ef, ond ar ran beirdd eraill hefyd, oherwydd marwolaeth merch. Ai pryder am golli'r nawdd ariannol yw hwn?

Llaw roddfrys, o'i llys, lluosydd – edlid,  
Llym dengyn ofid prid pob prydydd.<sup>42</sup>  
(GGrG, 6.55–6)

Awgryma'r cwpled uchod ei bod hi'n arfer gan yr uchelwraig hon o leiaf i noddi nifer o feirdd eraill hefyd. Tystiolaeth bellach o hyn yw'r llinellau sy'n datgan:

A'm rhoes ganwaith, gwiwne glwysfaith, gwin a glasfedd,  
A'm rhoes edmyg a phob rhyfyg a phob rheufedd,  
A roes i fyrdd ac aur a gwyrdd, ac eiry ei gwedd  
A wnaeth boddiant aelaw ariant i laweredd.<sup>43</sup>  
(GGrG, 6.85–88)

Crybwyllwyd eisoes pan edrychwyd ar y fawrnad i'r un ferch gan Gronw Gyriog, nad oes fawr o sôn ganddo ef amdani'n noddi beirdd yn benodol, ond eto y mae yma hefyd ambell awgrym o hyn wrth i'r atgofion sydd ganddo ohoni yn y llys bwysleisio ei haelioni. Gweler er enghraifft linellau megis 'Hir yw ynof cof cyffro'<sup>44</sup> (GGrG, 2.9) a hefyd y cyfeiriad anarferol at Rhiannon: 'Dygn gofion Rhiannon rhodd'<sup>45</sup> (GGrG, 2.15).

Diddorol nodi y cyfeirir yn y gerdd hon at y teulu sydd ar ôl, wrth i'r bardd gydymdeimlo â'u galar: 'Garchweddl i'w cheneddl ei chwyn' (GGrG, 2.28).<sup>46</sup> Fodd bynnag ym marwnad Mab Clochyddyn, dywed y bardd yn benodol mai er mwyn y ferch y canodd y farwnad, ac nid er mwyn y galarwyr sydd ar ôl:

... er llonydd – riain

---

<sup>42</sup>[Gwenhwyfar a chanddi] law barod at roi, o'i llys, [y mae'n achos] hiraeth minteioedd, / Llym yw gofid cyndyn costfawr pob prydydd'.

<sup>43</sup>'A roddodd imi ganwaith, [yr un] hardd [a] bythol dirion, win a medd gloyw, / A roddodd imi anrhydedd a phob rhwysg a phob cyfoeth, / A rododd i liaws nid yn unig aur ond hefyd ddillad gwyrdd, a[yr un a]'i gwedd fel eira / A roddodd foddhad [drwy] amllder arian i laweroedd'.

<sup>44</sup>'Maith ynof yw cof [y] cyffro'.

<sup>45</sup>'Atgofion dolurus am [un a'i] rhodd [fel] Rhiannon'.

<sup>46</sup>'Hanes creulon i'w thylwyth yw'r galar amdani'.

Lluniais arwyrain, coelfain celfydd.<sup>47</sup>  
(GGrG, 6.71–2)

Mae absenoldeb y sôn am aelodau o'i theulu yn drawiadol o gofio'r pwyslais a roddid yng nghymdeithas y cyfnod ar gysylltiadau teuluol, ac er na ellir profi i sicrwydd mai Gwenhwyfar ei hunan a gomisiynodd y gerdd, mae'n bwysig nodi bod y bardd yn ei delweddu fel un a allai fod wedi trefnu gydag ef drwy gomisiwn y byddai'n ei marwnadu pan ddeuai'r amser. O dderbyn y syniad hwn, gellid casglu bod Gwenhwyfar yn noddwraig annibynnol ar aelodau eraill o'i theulu.

Mae'n drawiadol hefyd nad oes sôn am deulu uchelwraig arall (hefyd o'r enw Gwenhwyfar) mewn marwnad sy'n cael ei hystyried yn 'un o esiamplau gorau o gelfyddyd yr awdl ganoloesol' (LIYU, 71).<sup>48</sup> Ym Marwnad Gwenhwyfar o Bentraeth, yr unig gyfeiriadaeth bosibl at ei gŵr, er enghraifft, yw: 'Gwn feinwas a las o loes hiraeth'<sup>49</sup> (GGM, 5.25); ond hyd yn oed yma, o gofio ei bod hi'n anarferol iawn i sôn am alar gwŷr yr uchelwregedd yn y marwnadau iddynt, mae'n debyg mai cyfeirio at hiraeth y bardd ei hunan a geir yma (GGM, t. 168). Oherwydd y diffyg cyfeiriadaeth a allai awgrymu ei bod yn fam neu yn briod, daeth Caerwyn Williams i'r casgliad mai 'marwnadu merch ifanc ddibriod' oedd y gerdd hon (1975, 85). Ond tynna Owen ein sylw at y broblem o ddiffinio statws priodasol y ferch ar sail diffyg cyfeiriadau o'r fath:

... heb fod gennym ar y naill law gorff o gerddi marwnad i ferched ifanc dibriod ac ar y llaw arall i wragedd priod, a bod modd adnabod tueddiadau a gwahaniaethau clir rhyngddynt, ni ellir gwneud mwy nag awgrymu yn betrusgar mai gwraig briod ifanc oedd Gwenhwyfar pan fu farw. (2007, 169)

---

<sup>47</sup>... er mwyn y ferch dawel / Lluniais gân fawl, anrheg gŵr wrth gerdd'.

<sup>48</sup>Trafodir achau Gwenhwyfar ym mhennod 3.

<sup>49</sup>Gwn, Fair, am lanc tenau a lethwyd gan boen hiraeth'.

Boed y gwrthrych yn briod neu'n ddibriod, mae'r gerdd hon eto yn cynnig y posibilrwydd fod merched yn noddi barddoniaeth yn y bedwaredd ganrif ar ddeg wrth i'r llinell 'Henw gorhoffter a dderyw'<sup>50</sup> (GGM, 5.3) awgrymu bod nifer o feirdd wedi canu iddi, a'r cyfeiriad 'pefr eurgost' (GGM, 5.83),<sup>51</sup> yn peri inni ei gweld fel noddwraig ddelfrydol i'r bardd gyda'r awgrym cyrf ei fod wedi derbyn rhoddion drud yn ei chartref yn aml. Er ei bod hi'n werth nodi bod cywair y drydedd farwnad hon yn wahanol i farwnadau Gronw Gyriog a Mab Clochyddyn a'i bod hi'n rhoi'r argraff o berthynas agosach rhwng y gwrthrych a'r bardd, eto i gyd waeth beth oedd union natur bersonol y berthynas, ymddengys y cawn dystiolaeth yma fod yr uchelwraig yn ymddwyn fel noddwraig i'r bardd.

Os yw absenoldeb y sôn am y gwŷr a'r meibion ym marwnadau'r bedwaredd ganrif ar ddeg yn dangos ei bod hi'n dra phosib bod merched yn noddwagedd beirdd, a hynny'n annibynnol ar eu gwŷr, ni ellir defnyddio'r un ddadl wrth ystyried cerddi'r bymthegfed ganrif. Erbyn y cyfnod hwn, fel y gwelir nes ymlaen, rhoddir pwyslais mawr yn y marwnadau i wragedd ar y teulu sydd ar ôl, yn arbennig y meibion (ond nid y merched), a gellir dadlau bod y pwyslais hwn ar barhad bonedd y teulu yn bwysicach i'r bardd a'r gymdeithas na'r galar am y wraig.<sup>52</sup> Gellir dadlau ymhellach fod hyn yn tanlinellu pwysigrwydd y meibion fel noddwyr gan ddangos mai hwy a fyddai'n talu am y farwnad fel arfer (LIYU, 290),<sup>53</sup> ac yn gwrthgyferbynnu â'r awgrym a gafwyd uchod gan Mab Clochyddyn mai Gwenhwyfar ei hunan a noddodd y gerdd.

---

<sup>50</sup>'Un fawr ei chlod [mewn] cerdd foliant a fu farw'.

<sup>51</sup>'darparwraig wych a disglair'.

<sup>52</sup>'Y mae'i meibion hirion hi / i roi gwleddau'n arglwyddi' (GLGC, 110.13–4).

<sup>53</sup>'Gwelir hyn mewn englyn dychan i ŵr gan Deio ab Ieuan Du: 'Dy blant, ni thalant, noeth eilun, – drosod, / Rhoist dy drysor rhyngthyn': / Ifan, deffro, tro trymun, / Tâl am dy farwnad dy hun' (GDID, 21).

Ond nid yw hyn yn gyfystyr â dweud nad oedd merched y bymthegfed ganrif wedi noddi beirdd. Yn wir, ceir tystiolaeth i awgrymu ei bod wedi noddi ym marwnadau'r ganrif honno hefyd, er enghraifft, yn unig farwnad Guto'r Glyn i ferch, sef Marwnad Gwerful ferch Fadog o Fro Danad, wrth i'r bardd ddweud bod ei marwolaeth wedi 'dwyn fy mhorthiant i' (gutorglyn.net, 88.10). Cyfeiria Lewys Glyn Cothi hefyd at haelioni Gwenllian ferch Rys wrth noddi'r beirdd:

Rhoddi, fal y rhyddhâi fôr,  
gwin a gwyrdd, gwyn i gerddor.  
(GLGC, 44.43–4)

Dylid pwysleisio serch yr esiamplau hyn, nad oes, ar y cyfan, gyfeiriadau niferus at golli nawdd barddol yn y marwnadau i ferched yn y bymthegfed ganrif, ac felly, at y ferch fel noddwraig.

Os yw'r enghreifftiau uchod o'r ddwy ganrif yn awgrymu bod merched yn noddi beirdd, nid oes prawf mai nawdd ariannol oedd hwn. Fel y nodwyd ar ddechrau'r bennod, ac fel mae'r dyfyniad uchod o waith Lewys Glyn Cothi yn dangos, nid ar ffurf tâl ariannol yn unig y gellid ystyried 'nawdd' yn yr Oesoedd Canol. Wedi sefydlu hyn felly, trown ein golygon i ystyried beth oedd natur y 'nawdd' y byddai'r merched uchelwrol hyn yn ei gynnig i'w beirdd.

Yng ngwaith beirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg, gwelir cyfeiriadau aml at dâl o 'aur'. Er ei bod hi'n anhebygol iawn mai aur pur a fyddai'n cyfnewid dwylo, ac er bod rhaid derbyn elfen o or-ddweud ar ran y beirdd am haelioni'r noddwyr, eto i gyd mae'r cyfeiriad at yr aur, ynddo'i hunan, yn brawf fod y berthynas rhwng uchelwraig a bardd yn berthynas rhwng un a roddai ac un a dderbyniai nawdd:



Medraist, aurdelaist er adeilad – gwawd,  
Im nychdawd ddifrawd, ddyfrys golliad.  
(GGLI 1.81–2)

Meddai Casnodyn am Wenlliant yn ei gerdd fawl iddi hefyd:

Aur mâl a’ m bu dâl, dolur atreg – fraw,  
Yn llaw, wyl andaw, gan ail Indeg.<sup>54</sup>  
(GC, 5.15–6)

Ond gwelwn nad aur (neu rywbeth yn debyg i aur) yn unig a dderbyniwyd fel tâl gan y noddwagedd uchelwrol. Ceir nifer o enghreifftiau o roddion eraill yn cael eu cyfnewid gan ferched am gerdd, er enghraifft diolchodd Gruffudd ap Dafydd ap Tudur am wregys a dderbyniodd yn gyfnewid am gerdd:

Rhodd hael, rheg afael, rhy gafas – am wawd  
Ei dafawd, y difas;  
Unllythyr llathrwaith cyweithias,  
Unlliw ag aur gwiw gae’r gwas.

Nid mau rheg adnau: rhag adnair – dilys  
Rhoi gwregys gwraig ddiwair;  
Doe y’ m doeth cyfoeth cywair,  
Da o fywn gra a fu’n grair.<sup>55</sup>  
(GGDT, 3.5–8, 21–4)

Sonnir yn aml hefyd am gyfnewid gwisg am gerdd, er enghraifft noda Mab Clochyddyn iddo dderbyn gwisgoedd gwyrdd gan Gwenhwyfar yn dâl.<sup>56</sup> Noder ei bod hi’n arfer gan ddynion hefyd i roi rhoddion o’r math hwn i’r beirdd. Un esiampl ddiddorol o uchelwr yn darparu dillad fel ffurf o dâl yw’r un a geir yn y gerdd gan Sefnyn sy’n moli Goronwy Fychan ap Tudur a’i wraig Myfanwy: ‘Gwâr ddihengis gwyrdd o’i angad’ (GS, 3.96).<sup>57</sup> O ran ein hastudiaeth ni yma, fodd bynnag, gwir ddiddordeb y gerdd hon yw’r ffaith fod Sefnyn wrth nodi ynddi,

<sup>54</sup>Bu aur gloyw [yn] dâl imi, [achlysur] braw gofid[us a] phoen[us], / Yn [fy] llaw, [un sy’n] gwrando’n dirion [ydyw], gan un debyg i Indeg’.

<sup>55</sup>Rhodd hael, caffaeliad anrheg, a gafodd am gerdd / Ei dafod, yr un meddylgar; / Un llythyren wedi’i haddurno’n ddisglair [a] chywrain, / Unlliw ag aur hardd yw gwregys y gwas...  
Nid anrheg i’w thalu’n ôl yw fy un i: diogel rhag edliw / Yw rhoi gwregys gwraig bur; / Doe y daeth [y] trysor cywrain imi, / Peth da a fu’n drysor o fewn ffwr’.

<sup>56</sup>‘Gwasgarai wyrdd’ (GGrG, 6.6): ‘Gwasgarai ddillad gwyrdd’.

<sup>57</sup>‘Yn hynaws y llithrodd [dillad] gwyrdd o’i law’.

bron wrth fynd heibio, fod beirdd ym mhob cwr o'r wlad yn moli'r uchelwraig Myfanwy,<sup>58</sup> ar yr un pryd yn osgoi cyfeirio ati o gwbl fel noddwraig. Gwna Sefnyn hi'n amlwg mai Goronwy, gŵr Myfanwy, yw'r noddwr, ac ef yn yr achos hwn yw'r un sy'n darparu'r gwisgoedd:

Llwyd a glewgain, bod ail Owain,  
Berwddawn gywain beirddion gawad,  
Wrth ddyneillion, berth gyfeillion,  
(Bydd i ddeillion budd o'i ddillad).<sup>59</sup>  
(GS, 3.89–92)

Sylwer yn wir, nad oes fawr ddim sôn am Myfanwy yn y gerdd hon drwyddi draw; ac fe wna Erwain Haf Rheinallt bwynt dilys wrth ddadlau nad yw'r cyfeiriadau prin sydd at Myfanwy mewn gwirionedd yn ddim ond mawl i'w gŵr:

... mawl anuniongyrchol a gynigir i Oronwy ... Dyma hanfodion y darlun traddodiadol a gyflwynir gan y beirdd o'r noddwr fel gŵr sy'n cyflawni ei ddyletswyddau cymdeithasol i'r eithaf. (GS, 31)

Fodd bynnag, rhaid cofio mai Erwain Haf Rheinallt fel golygydd y testun a ddewisodd y teitl 'Moliant Goronwy Fychan ap Tudur a Myfanwy' ar y gerdd yn y lle cyntaf ('llyma gerdd sefnyn' yw'r teitl yn y llawysgrif).<sup>60</sup> Teg gofyn felly tybed a yw gosod y gŵr a'r wraig ochr yn ochr â'i gilydd yn y teitl yn gamarweiniol? Oni allai golygydd arall fod wedi dehongli'r gerdd hon fel cerdd i Oronwy yn unig?<sup>61</sup> Rhaid ystyried, felly, y posibilrwydd nad bwriad y bardd oedd moli'r ddau ar y cyd, fel yr awgryma'r teitl diweddar. Y rheswm y mae hyn o bwys i'r astudiaeth hon yw fod y diffyg sylw yng ngherdd Sefnyn i Myfanwy fel noddwraig, o bosibl yn tanseilio'r darlun ohoni fel noddwraig annibynnol. Ond os nad cerdd fawl i Myfanwy

---

<sup>58</sup>Aeth cant drwy feddiant draw o Fawddwy' (GS, 3.25): 'Aeth cant o feirdd drwy awdurdod draw o Fawddwy'.

<sup>59</sup>Bendigaid a harddwych yw bod [yr un] tebyg i Owain, / [Yr un sy'n] casglu [ynghyd] haid o feirdd gydag egni brwd, / Wrth [ei] ddeiliaid, gyfeillion hardd, / (Bydd i'w ddeillion fudd o'i ddillad)'. Gweler hefyd: 'Yn fynychaf (o dyarchaf, / Ef yw'r gwychaf, wyf argochiad)' ac 'Dewrwiw telediwr taladwy – roddion, / Da glydwr beirddion digeladwy' (GS, 3.77–8, 3.39–40).

<sup>60</sup>Gwelir GS, t.21.

<sup>61</sup>Gweler uchod y ddadl am ddiffiniadau'r golygyddion, tt. 17-8.

mohoni, yna nid yw'r diffyg cyfeirio ati fel noddwraig na hwnt nac yma. Yng ngherdd Rhisierdyn, daw'r syniad ei bod yn noddwraig yn amlwg wrth iddo bwysleisio ei gwaith da fel noddwraig ddelfrydol a rhoi canmoliaeth arbennig iddi am ei haelioni tuag ato ef a beirdd eraill. Pwysleisir y berthynas ffurfiol rhyngddynt wrth i Rhisierdyn fynnu: 'Cerir ei mawrdwf nid er cared' (GS, 5.17),<sup>62</sup> ac awgryma'r gerdd yn gryf ei bod hi'n noddî'n annibynnol ar ei gŵr:

Mygr hoywlamp Bowys, magwyr hywledd.  
Gofynnai fawlgerdd yn gyfannedd,  
Gwenlwys eurswllt bobl, gwinllys orsedd,  
Gwasgawd inseilwawd ansalwedd – arfer.<sup>63</sup>  
(GS, 5.8–11)

Cludodd ewybr ddawn clod o ddiwedd,  
Coeth y gwnaeth eu maeth â medd – bueilsathr  
(Claer aur freisg–gorff llathr) clêr ar frwysgedd.  
Bid ar hyffawd hoedl, byd orhoffedd  
(Bu flaen noddod beirdd) byw flynyddoedd!<sup>64</sup>  
(GS, 5.22–6)

Nodwedd arall ar gerdd Rhisierdyn sy'n awgrymu ei bod hi'n noddwraig annibynnol yw'r ffaith ei bod hi'n gofyn am gerddi yn aml gan feirdd.<sup>65</sup> Y mae'n gymwys inni ystyried y posibilrwydd mai merched a fyddai'n talu am y cerddi, yn yr achosion hynny pan fyddai'r merched eu hunain yn gofyn amdanynt.<sup>66</sup> Mae'n arbennig o drawiadol fod y bardd hyd yn oed yn defnyddio'r gair 'noddod' wrth foli Myfanwy, ac wrth droi ein sylw yn ôl at natur y nawdd yng nghyfnod cerddi'r astudiaeth, noder hefyd fod yma sôn am yr uchelwraig yn

---

<sup>62</sup>'Cerir ei chorff lluniaidd ond nid er mwyn cyflawni pechod'.

<sup>63</sup>'Llusern hardd [a] gwych Powys, noddwraig sy'n darparu gwleddoedd moethus. / Gofynnai am gerdd foliant yn barhaus, / [Un] hardd a theg [y] bobl [sy'n debyn] rhodd wych, penaethes y llys lle llifa'r gwin, / Noddwraig barddoniaeth ddilys [ac iddi] arfer [llawn] gweddeiddrwydd'.

<sup>64</sup>'Cludodd [yr un] parod [ei] ddawn glod [iddi] yn y diwedd; / Yn wych y cynhaliodd hwy â medd [a oedd] yn fwy na llond cyn yfed / ([Yr un a chanddi] gorff cryf, disglair, coeth [a] hyglood), [sef y] beirdd mewn medd-dod, / Boed, er mwyn bywyd dedwydd, [i'r un sy'n destun] edmygedd [i'r] byd [i gyd] , / (Bu'n noddod blaenllaw [i] feirdd) fyw [am] flynyddoedd!'.

<sup>65</sup>'Gofynnai fawlgerdd yn gyfannedd' (GS, 5.9). 'Gofynnai am gerdd fawl yn barhaus'.

<sup>66</sup>'Er enghraifft, meddai Casnodyn am Wenlliant: 'Mynnawd molawd gnawd, gne ton waedgreg' (GC, 5.25): 'Bydd[yr un o] liw ton groch yn dymuno mawl mynych', a Llywelyn Brydydd Hoddnant: 'Llun hy a'i dily iaith a dalaf' (GLIBH, 3.20): '[Un] hyderus [ei] gwedd sy'n teilyngu[r] farddoniaeth a dalaf [iddi]'.

estyn bwyd a diod iddo, a hynny eto fel nawdd. Gwelwyd y math yma ar noddï eisoes yn y dyfyniadau blaenorol,<sup>67</sup> ac mae sylw Haycock yn cadarnhau amlygrwydd cyson bwyd a diod fel nawdd wrth ddweud: ‘Hyd yn oed yn anterth materoliaeth y bymthegfed ganrif, nid yw cyfeiriadau’r beirdd at ferched yn rhoi dillad agos mor niferus â’r rhai sy’n eu dangos yn estyn bwyd a diod’ (2001, 58). (Noder y cawn gyfle i drafod estyn bwyd a diod fel symbol o garedigrwydd yn hytrach na nawdd yn yr adran sy’n edrych ar y cerddi ymgeledd, hynny yw, lle mae rhoi bwyd a diod yn cael ei bortreadu fel gweithred o drugaredd yn fwy nag yn dâl am gerdd).

Hyd yn hyn felly, gellir gweld bod modd ystyried y ferch yn un a noddai’r bardd, a bod y nawdd hwnnw’n cwmpasu ystod eang o wrthrychau. O dderbyn hyn, y cwestiwn sy’n codi nesaf yw beth yn union oedd ei hamcan wrth noddï? Nid parhau traddodiad bonheddig y teulu ac nid cynnal y bardd er ei fwyn ef na’i awen, mae’n debyg, oedd unig amcan yr uchelwragedd. Oherwydd er bod y bardd yn dibynnu ar yr uchelwraig am nawdd, roedd hithau hefyd yn dibynnu arno yntau i hyrwyddo a sicrhau parhad ei henw da, ac yn amlwg, wrth ofyn am gerddi, roedd y noddwragedd yn deall rôl y beirdd fel hyrwyddwyr eu propaganda personol (Moras, 2005, 38).<sup>68</sup> Roedd y merched o wledydd Ewropeaidd eraill y cyfnod yn ymwybodol iawn o’r elfen hon o rôl y bardd hefyd, fel y gwelwn wrth edrych ar dystiolaeth y llyfrau cwrteisi:

Garin advises the lady to welcome troubadours and minstrels (a bit of self-interest here). She would listen to their poems, memorize her favourite passages, and give them gifts so that they will praise her and spread her good fame. By honoring guests as well as she can, she will earn a good reputation. (Bornstein, 1983, 34).

---

<sup>67</sup>Er enghraifft GLGC, 44.43–4; GGrG, 6.85–88.

<sup>68</sup>Gweler Huws, 1998b, 32 a 59. Ac am enghreifftiau o’r cyfandir, gweler Finnegan, 1977, 191.

Ar y naill law, gwelir bod perthynas y bardd a'r noddwraig yn fanteisiol i'r naill fel y llall – derbyniai'r bardd gysuron materol, a'r uchelwraig enw da – fodd bynnag, ar y llaw arall, gwelir bod peryglon weithiau i'r uchelwraig o gael ei chysylltu â bardd fel noddwraig iddo. Roedd côd moesol y cyfnod yn gyffredinol yn dilorni gorhaelioni gan ferch, gan ei ddehongli fel gwendid afradlon:

Women faced the inevitable double standard and were sometimes castigated for excessive generosity as patrons. Although generosity was considered a great medieval virtue in men, it could quickly be interpreted as prodigality in women, even in a dynasty with strong traditions of patronage.  
(McCash, 1996, 20)

Ymddengys fod Hywel ab Einion Lygliw wedi digio Myfanwy oherwydd iddo ei 'chyhuddo' o fod yn noddwraig iddo, sydd, fel y dywed Moras, yn awgrymu 'nad ydoedd mewn gwirionedd yn dderbyniol gorliwio'r elfen hon o rinweddau arglwyddes' (2005, 48). Y ffaith i Hywel ddweud bod Myfanwy wedi rhoi gwisg o liw porffor iddo a ddigiodd yr uchelwraig, efallai gan mai arglwydd y llys a fyddai'n rhoi gwisg o'r lliw hwn fel arfer, fel yr awgryma rhai o gerddi'r ddeuddegfed ganrif.<sup>69</sup> Os oedd Myfanwy wedi rhoi rhodd y dylid cael ei rhoi gan ei gŵr, gallai hynny ddangos ei bod nid yn unig yn rhy falch ond hefyd yn ddirmygus o'i gŵr. Roedd ystyried gweithred o'r fath fel trosedd yn hen syniad ac yn hannu, o bosibl o Gyfraith Hywel:

Wrongfully giving away property was also a beatable offence, since the kind of property a wife is allowed to part with is specified and determined by the actual status of the husband. (Owen, 1980, 52)

Mae'n amlwg felly y gellid cyflwyno'r ffin rhwng haelioni ac eofndra yn un denau yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, ond gwelwn fod hyn yn newid yn sylweddol yn y ganrif nesaf, wrth i fath arall ar ganu ddod i'w lawn dwf. Yn wir, erbyn y bymthegfed ganrif, gwelwn y

---

<sup>69</sup>Er enghraifft, yng nghanu Prydydd y Moch ceir sawl enghraifft o arglwydd yn rhoi defnydd porffor yn gyfnewid am gerdd: Gwaith Llywarch ap Llywelyn, 1.39–44, 23.185–196, 28.21–4. Am bwysigrwydd y lliw porffor yng Nghymru ac ar y Cyfandir, gweler Foss *et al*, 1980, 220. Cofier hefyd ddisgrifiad Culhwch yn gadael am lys Arthur: 'Llen borfor pedeir ael ymdanaw' (Bromwich ac Evans, 1997, ll.76).

beirdd nid yn unig yn derbyn, ond hefyd yn gofyn gan eu noddwyr ac – yn ddiddorol o safbwynt y traethawd hwn – eu noddwagedd, gan arwain at *genre* y canu gofyn a diolch. Mae hyn yn ein tywys felly i ystyried perthynas y bardd a'r ferch yng ngoleuni'r *genre* hwn.

### **'O chaf yn y Llannerch Wen / Ffaling, cerdd a gaiff Elen': Y Canu Gofyn a Diolch**

Yn yr adran hon byddaf yn pwysu yn y lle cyntaf ar astudiaeth werthfawr Bleddyn Owen Huws sy'n disgrifio'r *genre* arbennig hwn fel: 'Cynnyrch cymdeithas lle'r oedd y bardd yn ddibynnol ar nawdd' (1998b, 39). Er bod enghreifftiau o ganu o'r fath wedi goroesi o Iwerddon, yr Alban, Gwlad yr Iâ yn ogystal ag enghreifftiau ym marddoniaeth Ladin yr Oesoedd Canol (Huws, 1998b, 39), yng Nghymru – heb os – y gwelir y datblygiad llawnaf o'r *genre*. Ceir tystiolaeth fod traddodiad hir o erchi ymysg y beirdd yng Nghymru (Huws, 1998b, 7) ac er y daw'r gerdd ofyn gynharaf o'r ddeuddegfed ganrif, bu rhaid aros tan y bymthegfed ganrif i weld y *genre* yn ymsefydlu. Un rheswm y cyniga Huws am brinder cerddi gofyn i uchelwyr y bedwaredd ganrif ar ddeg, heb sôn am gerddi gofyn i uchelwagedd, yw:

nad oedd yn rhaid i fardd llys ganu i erchi rhodd, dim ond ei chydabod gyda cherdd ddiolch, ac mai dyna a gyfrif am brinder y cerddi gofyn gan aelodau hanner uchaf cyfundrefn y beirdd cyn c. 1350. (1998b, 117)

Wrth ganolbwyntio felly ar gerddi'r bymthegfed ganrif, gwelwn mai cywyddau lle mae'r bardd yn gofyn drosto ei hunan yw'r rhai cynharaf sydd ar glawr yn y math hwn ar ganu (Huws, 1998b, 50). Wrth edrych ar y gwrthrychau a erchid, ni ellir dadlau nad oes elfen gref o fateroliaeth yn perthyn i'r beirdd.<sup>70</sup> Arfau ac anifeiliaid oedd y gwrthrychau a

---

<sup>70</sup>Mae cynnwys barddoniaeth y bymthegfed ganrif, yn enwedig, yn brawf o ddiddordeb y beirdd mewn gwrthrychau a thrugareddau materol' (Huws, 1998b, 64). Gweler hefyd Williams, 1987, 55–86.

erchid amlaf ganddynt.<sup>71</sup> Yng nghyd-destun y cerddi i uchelwragedd, fodd bynnag, gwelwn fod y gwrthrychau'n perthyn yn bennaf i'r sffêr ddomestig (LIYU, 306),<sup>72</sup> ac yn bendant nid oedd y Cywyddwyr hyderus yn ofni gofyn ganddynt.<sup>73</sup> Dyma *genre* a roddodd, yn ôl Johnston, 'tipyn mwy o sylw i wragedd ym marddoniaeth y cyfnod' (LIYU, 306).<sup>74</sup>

Yn sicr, mae'r *genre* hwn yn hynod bwysig a defnyddiol o ran astudio'r berthynas a fodolai rhwng y bardd a'r uchelwraig fel noddwraig. Fel y gwelwyd eisoes, teg yw dweud mai perthynas fuddiol i'r ddwy ochr ydoedd. Hynny yw, byddai'r bardd yn elwa wrth dderbyn rhodd a ddeisyfai, a'r noddwraig hefyd yn elwa drwy dderbyn cerdd fawl a fyddai'n sicrhau i'w henw da 'gerdded ymhell' (Huws, 1998b, 31). O gofio i Gruffudd Llwyd ddisgrifio'r berthynas o dderbyn rhodd yn gyfnewid am gerdd fel: 'Da dros da' (GGLI, 14.80), nid yw'n syndod i Bleddyn Owen Huws ddweud mai 'ar y colyn hwn y trôï perthynas y bardd a noddwr' (1998b, 31).<sup>75</sup> Ond mae tuedd i beidio ag ystyried y berthynas rhwng bardd ac uchelwraig fel un a oedd mor 'ffurfiol' â'r un rhwng uchelwr a bardd. Hynny yw, fel y soniwyd eisoes, yn aml ystyrid mai am resymau 'personol' y byddai'r ferch yn rhoi rhodd i fardd, ac nid ar sail perthynas 'ffurfiol'.<sup>76</sup> Efallai fod y tuedd hwn wedi datblygu oherwydd bod elfen o anwylddeb neu chwarae ar dannau trugarog y ferch yn y cerddi hyn.

---

<sup>71</sup>Roedd erchi march yn hynod o boblogaidd, ac yn cyfrif am dros hanner yr holl gywyddau sy'n ymwneud ag anifeiliaid (Huws, 1998b, 66). Nid rhywbeth unigryw i Gymru oedd hyn, gweler hefyd Watson, 1937, 140–3 a Einarsson, 1957, 83 a 190.

<sup>72</sup>Am restr lawn o'r rhoddion gweler Huws, 1998b, 231–8.

<sup>73</sup>'Daw'n eglur fel y dydd bellach nad oedd rhaid i Feirdd yr Uchelwyr deimlo'n israddol wrth ganu cywydd i ofyn am rodd drostynt eu hunain, ac nad oes arlliw o deimlad o euogrwydd ar yr archiadau hynny...' (Huws, 1998b, 123).

<sup>74</sup>Diddorol yw nodi'r cysylltiad rhwng y beirdd yn erchi rhoddion a'r ffaith eu bod yn aml yn ymddwyn fel eirichiaid o flaen y merched yn y canu serch. Gweler Haycock, 2001, 61. Am sylwadau ar y tebygrwydd rhwng y cywydd gofyn a'r cywydd llatai gweler Huws, 1998b, 87–93.

<sup>75</sup>Yr un math o berthynas a fodolai yn Iwerddon hefyd, gweler Curtius, 1953, t.476–7.

<sup>76</sup>Gweler y dyfyniad gan Huws ar dudalen gyntaf y bennod hon.

Lewys Glyn Cothi yw'r bardd sy'n erchi fwyaf gan wragedd, ac fe'i gwelwn yn aml yn rhoi'r argraff ei fod yn chwarae ar deimladau'r gwagedd wrth ofyn am wrthrychau penodol. Fe'i gwelwn yn aml, er enghraifft, yn mabwysiadu persona'r *hen dlawd*; mewn un esiampl mae'n rhoi gwedd fenywaidd i'r gerdd wrth gyfeirio at sut y byddai ei wraig yn manteisio ar y fantell y mae'n ei gofyn gan Elis Hol (GLGC, 163).<sup>77</sup> Yn y gerdd sy'n gofyn huling gwely gan Elin ferch Lywelyn (GLGC, 227), sonia am ei helyntion â gwŷr Caer, gan geisio ennyn ei thosturi drwy nodi ei fod wedi'i amddifadu o'i holl eiddo:

ac yn noethach y'm gwnaethant  
no'r gleisiad yn nofiad nant.  
Yr wyf yn noeth heb fawr wrid,  
mae naw carl i'm un cwrlid.  
(GLGC, 227.31–4)

Yr un yw ei dacteg yn ei awdl sy'n erchi'r llen hynod gan Annes (GLGC, 119), ac fe'i gwelwn eto yn cwyno ei fod wedi'i amddifadu o'i holl eiddo:

Fy nghwyn wrth Annes a'i charesau,  
i Gaer Lleon Gawr yn gorllwyn gau  
fy yspeiliaw draw dri lau – o'm mawredd  
ac o'm holl annedd ac o'm llennau.  
(GLGC, 119.25–8)

Gan gofio i Francis Payne alw Lewys 'a dilligent collector of textiles' (1939, 17) ar sail ei gerddi gofyn, ceir yr argraff fod Lewys wedi addurno ei gartref yn gyfan gwbl drwy lunio cerddi. Ond nid dyna ein diddordeb ni yma, y pwynt yw mai holl fwriad ei gerdd i Ann yw gofyn am len (gan esbonio pam y mae arno ei hangen), ac felly, i bob pwrpas, ofyn am nawdd. Tacteg ar ei ran o bosib yw gofyn am len mor hynod, sy'n rhoi cyfle iddo glodfori Annes yn anuniongyrchol drwy ei chysylltu â'r fath len gyfoethog. Wedi'r cyfan, digon teg

---

<sup>77</sup>'Un lliw fydd am Wenllian / â gŵn Duw neu'r gynnuau dân' (GLGC, 163.31–2).



yw gofyn gyda Johnston: ‘A oedd Lewys o ddifrif yn disgwyl cael y llen yn rhodd iddo’i hun?’ (LIYU, 306).

Gwelir enghreifftiau o’r dechneg hon o dynnu sylw’r noddwyr at deulu’r bardd mewn llenyddiaethau eraill, er enghraifft, mae’r *jongleur* Colin Muset yn troi i ‘grefu ar y noddwr i roi rhodd iddo gan y byddai ei wraig a’i blant yn disgwyl yn awchus am ei enillion pan gyrhaeddai adref’ (Huws, 1998b, 43),<sup>78</sup> ac mae Dronke yn mynd mor bell ag ystyried cerddi o’r fath sy’n pledio tlodi fel *genre* annibynnol (1978, 217). Fodd bynnag, mae Huws yn dadlau mai ‘cwbl ddieithr yw unrhyw ymgreinio uniongyrchol am rodd yn ysbryd y canu gofyn Cymraeg’ gan fynd ymlaen i ddweud mai ‘defod lenyddol a oedd wrth wraidd y cywyddau gofyn, nid tlodi’ (1998b, 43).<sup>79</sup> Ond hyd yn oed os ‘defod lenyddol’ a amlygir yma, mae Lewys yn ddyfeisgar iawn wrth erchi gan y gwragedd ac fe’i cawn yn targedu mwy nag un wraig ar yr un pryd. Enghraifft o hyn yw ei gywydd sy’n gofyn gwely gan bedair gwraig (GLGC, 186), ac yma mae’r sôn am ei blentyn bach yn ddull effeithiol o gymell y rhoi:

Y nos y câr, fy nisyn,  
fwrw ei led ar gylched gwyn,  
cysgu awr, o cwsg erof,  
estynnu uwch sidan of.  
(GLGC, 186.39–42)

Dim ond un gerdd ofyn sydd gan Guto’r Glyn lle y’i gwelir yn gofyn drosto’i hunan, ac mae honno, yn arwyddocaol efallai, yn gofyn gan ferch. Cerdd sydd eto’n ymwneud â dillad

---

<sup>78</sup>Gweler hefyd Goldin, 1973, 426–8.

<sup>79</sup>Meddai Roberta Frank hefyd: ‘the picture of a vagabond poet forced to beg from his royal patron may owe more to literary convention, a desire to entertain the international courtier set, than to naked need’ (1978, 127).

ydyw wrth i Guto ofyn ffaling goch gan Elen (gutorglyn.net, 53).<sup>80</sup> Ceir cyfeiriad at y ffaith ei bod hi'n noddwraig gyson i'r beirdd wrth i Guto ddisgrifio ei rôl mamol tuag atynt:

Beirddion yw ei meibion maeth.  
(gutorglyn.net, 53.30)

Ond nid yw'r bardd hwn yn mabwysiadu persona'r *hen dlawd* i sicrhau'r rhoi. Yn wir, yn hytrach na phwysleisio ei rôl ef fel yr un sy'n gofyn, â ati i atgoffa Elen o'r hyn y buasai hithau'n ei dderbyn petai hi'n cytuno i roi'r ffaling iddo. Awgryma'r farddoniaeth, felly, mai perthynas gydweithredol a fodolai rhwng y bardd a'r uchelwraig:

O chaf yn y Llannerch Wen  
Ffaling, cerdd a gaiff Elen  
(gutorglyn.net, 53.39–40)

Wrth osod yr Elen hon yn olyniaeth tair Elen 'wych' arall (gutorglyn.net, 53.18), mae'r bardd yn mynd ati i danlinellu ei haelioni, gan orliwio'r rhinwedd er mwyn ei phlesio, mae'n debyg, a sicrhau'r rhoi; wedi'r cyfan cofier i Guto gyfaddef mewn cerdd arall:

Ni cheisiaf, o chanaf chwaith  
Wedy gwin, wadu gweniaith.

O thraethir y gwir a'r gau,  
Y gair tecaf yw'r gorau.  
(gutorglyn.net, 18.11–12 ; 17–18)

Yn ogystal â phwysleisio'r syniad o gyfnewid rhodd am gerdd a fyddai'n sicrhau parhad enwau da'r uchelwragedd, a'r chwarae ar eu teimladau drwy geisio ennyn eu tosturi, gwelwn y beirdd yn defnyddio tacteg arall i geisio cymell y rhoi, sef pwysleisio dyletswydd yr uchelwragedd i barhau traddodiad. Heb os, byddai'r cyfeiriadau at y traddodiad o wragedd

---

<sup>80</sup>Fel y noda Alaw Mai Jones: 'mantell enfawr o ffris a gwlanen Wyddelig a oedd yn boblogaidd yn Iwerddon yn y cyfnod canoloesol' oedd y ffaling (2007, 223). Gweler hefyd Breeze, 2000. Canodd nifer o feirdd i erchi ffaling, er enghraifft, cerdd ddyfeisgar Ieuan Du'r Bilwng (OBWV, t. 83).

eraill yn ei theulu'n rhoi yn atgoffa'r ferch o'r ddyletswydd hon, ac yn ei hannog i barhau â'r weithred uchelwrol. Gwelwn hyn yng ngherdd Lewys Glyn Cothi i Elin:

Mahallt ferch Hywel Selau  
am air i hon a'i mawrhau,  
a roes huling, ers helynt,  
gwely am gerdd Gwilym gynt.  
(GLGC, 227.55–8).<sup>81</sup>

Rhaid nodi, serch hyn, ei bod hi'n anodd gwybod yn sicr i ba raddau yr oedd traddodiad cryf o'r fath wedi bodoli mewn gwirionedd rhwng bardd ac uchelwraig, neu ai dychymyg y bardd a fu'n ymestyn y traddodiad hwn er mwyn pigo cydwybod y ddarpar-roddwraig.

Ond er y ceir enghreifftiau uchod o'r ferch yn rhoi yn y cerddi gofyn a diolch, hyd yn oed yng ngwaith 'Bardd y Gwragedd' mae ysgolheigion wedi dod i'r casgliad mai: 'moli gwyrda heb grybwyll ei gwragedd a wnâi gan mwyaf' (Huws, 1998b, 106),<sup>82</sup> ac mae hyn yn ategu sylw Dafydd Johnston mai 'anacronistaidd fyddai tybio fod Lewys yn gweld gŵr a gwraig yn gyfartal' (BYG, 74).<sup>83</sup> Er bod cerdd Lewys Glyn Cothi sy'n gofyn arfwisg gan ŵr a gwraig ar y cyd yn awgrymu perthynas gydweithredol rhyngddynt: 'Ynt-hwy a rydd yn gytûn / O rodd a archer uddun' (GLGC 207.25–6),<sup>84</sup> lle gwelwn y gŵr a'r wraig am y gorau yn annog ei gilydd i fod yn hael:

medd Elys, "Rhys, rho i hwn",  
medd Rhys, "Elys, na tholiwn".  
(GLGC 162.53–4)

---

<sup>81</sup>Gweler hefyd Huws, 1998b, 119.

<sup>82</sup>Fodd bynnag, meddai Huws: 'Erbyn y ganrif ddilynol mae'r cyfeiriadau at uchelwragedd mewn cywyddau gofyn yn fwy rheolaidd a chyson' (1998b, 107). Roedd sefyllfa'r Alban yn debyg yn yr un cyfnod, gweler Thomson, 1989, 46.

<sup>83</sup>Er enghraifft, wrth foli ar y cyd, gwelwn mai'r gŵr sy'n cael y flaenoriaeth bob tro: 'A archo hwn a eirch hi' (GLGC, 25.20).

<sup>84</sup>Gweler Huws 1998b, 106–7.

gwelwn, fod beirdd fel Lewys yn ofalus i gyfeirio at wŷr yr uchelwragedd hefyd, a hynny wrth awgrymu mai gan y gwŷr yr oedd y gwir bŵer, er enghraifft, dywed mai Annes ‘yw’r benna’ ‘Nghaerllion’, ond mai:

ei gŵr yn bennach nog un  
i roi o’i gost aur a gwin  
i ŵr o gerdd er ei gân.  
(GLGC, 119.6–8)

Eto i gyd, er bod presenoldeb y gwŷr i’w gweld yn y cerddi hyn, rhaid pwysleisio nad yw’n gyfystyr â dweud nad oedd yr uchelwragedd, o bryd i’w gilydd, yn noddi drwy eu rhoddion.

Dadleuwyd eisoes fod cywyddau gofyn y bymthegfed ganrif yn rhoi’r argraff fod y merched uchelwrol yn cymryd yr awenau wrth estyn nawdd i’r beirdd yn gyson. Ond gwelwn fod ganddi rôl is-wasanaethgar hefyd yn rhai o’r cywyddau hyn, oherwydd fel y nododd Haycock wrth drafod y *genre* arbennig hwn:

Pennaf swyddogaeth y canu hwn yn gyffredinol oedd cadarnhau a dathlu’r rhwydweithiau rhwng y boneddigion a’i gilydd, er mai merched yn aml oedd y ddolen gyswllt rhyngddynt – y *servers* i’r *We*, megis. (2001, 60)

Daw hyn â ni at y syniad o’r wraig fel cyfrwng i’r rhoi, sef motiff y wraig yn eiriol, hynny yw, yn gofyn neu yn gwneud rhywbeth dros y bardd er mwyn iddo dderbyn nawdd gan ei gŵr (Huws 1998b, 106). Oherwydd yn aml gwelwn y beirdd yn awgrymu mai argymell y rhoi a wna’r gwragedd, yn hytrach na rhoi eu hunain, fel yn y cyfeiriad hwn at Annes:

Pibau organ a ganant  
yn gytûn fal y gwna tant;  
mor gytûn yw’r fun feinael  
i roi rhodd â’i heryr hael.  
Hwn a rydd tra fo hinion  
erchi rhoi arch a wŷr hon.  
Gantho fo y caf wahodd,  
genthi er hyn ganwaith rodd.  
Gruffudd yn rhoi’i fudd yw fo,

y hi Annes yw honno.  
(GLGC 230.43–52)

Gwelwn rôl debyg gan Gwenllïan hithau, lle cysylltir y weithred o roi'r dillad â'r ffigwr gwrywaidd (Haycock, 2001, 59), ond gyda'r wraig yn hwyluso pethau:

yntau'n rhoi gynau, 'm Gwynnen – a gwleddau,  
hithau y gwyliau yn deg ei gwên.  
(GLGC 97.71–2)

Nid yng ngwaith Lewys yn unig y gwelir hyn; er enghraifft, wrth gloi'r cywydd sy'n diolch am farch gan Dafydd ap Meurig Fychan o Nannau, mae Guto'r Glyn yn dweud mai Elen, ei wraig, a wnaeth eiriol am y rhodd drosto:

Gorwydd y mab a garwn,  
Gras hir i'r gŵr a roes hwn,  
A chynnydd, bryd hafddydd tes,  
Ar Elen a'i heirioles.  
(gutorglyn.net, 51.65–8)

Mae dadl Bleddyn Owen Huws yn gwbl deg wrth iddo nodi mai manteisio ar y berthynas driphlyg rhwng y bardd a'r uchelwraig, a'r uchelwraig a'i gŵr a wna'r bardd:

Ni raid inni dybio mai cyfeiriad defodol diarwyddocâd yn unig oedd motiff y wraig yn eiriol, oherwydd hyhi wedi'r cyfan oedd agosaf at glust ei gŵr, a naturiol oedd i fardd gredu y gallai hi ddwyn perswâd arno. (1998b, 109)

Yn wir, mater o farn yw hi i ba raddau roedd rôl yr uchelwraig yn hyn o beth yn iswasanaethgar. Wedi'r cyfan, gellid dadlau bod portreadu'r uchelwraig fel un â dylanwad mor arwyddocaol dros yr uchelwr yn rhoi statws sylweddol iddi.

Gwelir, felly, fod *genre* y canu gofyn a diolch yn dangos sawl agwedd wahanol ar berthynas y bardd a'r uchelwraig ac yn cadarnhau ei rôl fel noddwraig uniongyrchol ac anuniongyrchol. Fodd bynnag, mae'r syniad o'r ferch fel eiriolwraig dros y bardd a drafodwyd ar ddiwedd y paragraffau uchod, yn ei amlygu ei hunan yn bennaf yn y cerddi

sy'n diolch am ymgeledd lle gwelir y ferch yn estyn bwyd a diod i'r bardd, nid fel modd i'w anrhegu ond fel modd i'w iacháu. Gwelir yn fuan nad oes prinder cyfeiriadau yng ngwaith y beirdd at yr uchelwraig fel darparwraig yn y maes hwn. Trown ein sylw felly at y cerddi hyn.

### **'Yn hawdd y cawn gan hon / maeth a hen ameuthunion': Y Cerddi Diolch am Ymgeledd**

'Y mae'n syndod cyn lleied o drafod a fu ar iechyd y Cymry yn yr Oesoedd Canol diweddar o ystyried fod y farddoniaeth yn ffynhonnell ddigon gwerthfawr o wybodaeth' meddai Bleddyn Huws wrth drafod y cywyddau iacháu.<sup>85</sup> Yn wir, mewn cyfnod o ryfeloedd, tloedi ac afiechydon, fe fyddai gofal meddygol 'ni waeth pa mor elfennol bynnag ydoedd, yn cael ei werthfawrogi' (anghyhoeddedig). Mae'n debyg mai'r tai crefydd oedd y prif ganolfannau ar gyfer trin cleifion, ac, yn ôl meddylfryd yr oes, fe fyddai'r neuaddau eang a fyddai'n caniatáu digon o aer a goleuni yng nghlafdai'r Sistersiaid yn fangre delfrydol ar gyfer iacháu (anghyhoeddedig).<sup>86</sup> Ond fel y gwelwn yn y man, roedd tai'r uchelwraidd hefyd yn fannau poblogaidd ymysg y beirdd pan oedd arnynt eisiau gwella.

Er bod gennym dystiolaeth yn dangos bod y beirdd yn ymddiddori yn y byd meddygol,<sup>87</sup> roedd meddygon yn aml yn destun gwawd ganddynt oherwydd eu chwant am arian (Huws, anghyhoeddedig), fel y gwelir yn y dyfyniad isod o waith Siôn Tudur:<sup>88</sup>

Dyma flwyddyn i ffisgywr  
I ybseilio pob gwanwr  
Ac i addo yn iach ei wneuthyd  
O'r saith anaele glefyd.

---

<sup>85</sup>Nid yw'r erthygl hon wedi ei chyhoeddi eto, a hoffwn ddiolch yn fawr i'r Dr Bleddyn Owen Huws am gael gweld copi ohoni. Fe'i cyhoeddir maes o law mewn cyfrol o ysgrifau ar Guto'r Glyn o dan y teitl: "'Llawer dyn ... / Â chywydd a iachawyd": Guto'r Glyn yr iachawr'.

<sup>86</sup>Gweler hefyd Kerr, 2007, 25 a 151–3; Numbers, 1986, 65–107; Robinson, 1995, 34–5 a 2006, 210–12.

<sup>87</sup>Owens, 1990, 51–3; Ruddock, 1992, 112.

<sup>88</sup>Gweler hefyd Walton, 2007, 26.

A chael dwybunt i ddechre  
Am werth grôt o gyffurie,  
A rhoi iddo arian lawer  
A'r claf yn waeth o'r hanner.  
(yn Davies, 1997, 93)

Gwelwn yr agwedd hon hefyd yng ngwaith Lewys Glyn Cothi mewn awdl sy'n marwnadu un o'i noddwyr a ymddiriedodd yn ofer mewn meddyg. Er bod rhaid holi ai'r ffaith fod y meddyg yn Sais yn fwy na'r ffaith ei fod yn feddyg sydd wedi gwylltio Lewys fan hyn, mae'r gerdd yn dangos bod arian sylweddol wedi cael ei dalu i'r meddyg hwn, a bod hyn wedi bod yn wastraff llwyr. Yn ogystal â galw'r meddyg yn 'gi Sais chwannog i sew'(GLGC, 30.36), meddai:

Gŵyl leuan, mi a glywais,  
do, i Siôn gredu i Sais.  
Doeth meddig â ffusig ffa  
o Loegr aml i gaer yma.

Â'i bowdr lladdai bob oedran  
a'i ffleimiau dur fal fflam dân.  
(GLGC 30.31–34; 37–8)

Ymddengys mai gwell gan feirdd yr oes droi at abadau neu ferched uchelwrol am ymgeledd nac at feddygon. Er mai bychain yw nifer y cerddi sy'n delweddu'r wraig fel un sy'n gofalu am y bardd, maent yn bwysig o ran cynnig gogwydd arall inni ar y berthynas a fodolai rhyngddi hi a'r bardd. Mae'r cerddi hyn eisoes wedi eu dosbarthu gan Dafydd Johnston (LIYU, 309), ac yn perthyn iddynt mae dwy gan Lewys Glyn Cothi (GLGC, 41 a 88), un gan Tudur Penllyn (GTP, 13), a dau gywydd gan Guto'r Glyn (gutorglyn.net, 81).

O gofio i Marged Haycock gyhuddo Guto o fod yn 'a hypochondriac who nevertheless lived to a great age' (1999, 20), ac i Dafydd Johnston ddweud ei fod wedi 'manteisio ar ei anhwylderau ei hun droeon yn ei gerddi mawl' (LIYU, 309), nid yw'n syndod fod Guto'r Glyn

yn canu i ferched gan ddiolch iddynt am ymgeledd. Gwelir hyn, er enghraifft, yn ei gerdd i Siân, Arglwyddes Mawddwy, gwraig Syr Siôn Bwrch (gutorglyn.net, 81) sy'n agor â chyfeiriad at y boen yn ei lin:

Mae i'm cefn er ys pythefnos  
Henwayw ni ad hun y nos;  
Mae gwayw arall i'm gwiro  
Yn fy nghlun, anaf yng nghlo.  
(gutorglyn.net, 81.1–4).

Ond gwelwn ei fod wedi gwella'n syfrdanol o achos y bwyd a'r ddiod a dderbyniodd gan yr uchelwraig:

A'i gwledd hi a giliodd haint,  
A'i gwin oedd well nog ennaint.  
A'i llyn a'm gwnâi'n llawenach,  
A'i tân onn a'm gwnaeth yn iach.  
(gutorglyn.net, 81.67–70)

Gwelwn hefyd ei fod yn cyfeirio at yr amrywiaeth o fwydydd a geid yn y llys, a'u bod oll wedi bod o gymorth iddo wrth iddo wella o'i glwyf:

Ni bu oraens, neu beren,  
Na ffrwyth, llysieuyn na phren,  
Ni bu irlwyth ar berllan  
Na chnau ar wŷdd na chawn ran.  
(gutorglyn.net, 81.61–4)

Roedd y cyfeirio at y gwahanol fwydydd a dderbyniai'r bardd yn fodd o bwysleisio'r ddarpariaeth gywir a fyddai'n sicrhau gwellhad yn ogystal â dangos haelioni a chyfoeth y gwragedd, ac mewn cyfnod pan ddrwgdybid meddygon, gellir deall pam y pwysleisid gallu'r wraig fel un a fyddai'n iacháu'r bardd drwy'r cyfuniad gorau o fwyd yn hytrach na meddyginiaethau.<sup>89</sup> Ceir enghraifft amlwg o wybodaeth y bardd ynghylch rheoli iechyd drwy'r hyn y mae'n ei fwyta yn y gerdd sy'n moli Sieffrai Cyffin (gutorglyn.net, 97) oherwydd fe folir gallu gwraig Sieffrai ('Llaw Siân ar y llyisiau oedd' (gutorglyn.net, 97.58) i

---

<sup>89</sup>Gweler Jones, 1980.



ddarparu bwydydd megis sinamwn, siwgr, pupur a sinsir a fyddai'n llwyddo i 'wresogi'r min' (gutorglyn.net, 97.54).<sup>90</sup> Y mae Guto felly'n gwerthfawrogi ei fod yn gallu dibynnu ar y gwragedd uchelwrol i'w nyrsio pan fo'n glaf. Gwelwn bwysigrwydd y bwydydd hefyd yng ngwaith Lewys lle cawn y disgrifiadau manylaf o'r holl gynhwysion a dderbyniodd fel claf ac a sicrhodd ei fod yn gwella:

ac yn hawdd y cawn gan hon  
maeth a hen ameuthunion.  
Canel o Ffrainc a unwyd,  
pupur o fewn pob rhyw fwyd,  
saffrwm, mas hoff o'r meysydd,  
a graens gardd, ac orains gwŷdd,  
sugr candi i mi 'mhob modd,  
sinser ar ddewis ansodd,  
sinamwn, almwns, cwmin,  
balsamŵm yw blas 'y min.  
Cawn ofwy i'm cynefin,  
costard, bwngernard a gwin,  
cyflaith rhag cainc o afles,  
cywion teg, graens rhag haint gwres.  
(GLGC 88.39–52)

Fel y nodâ Johnstôn wrth drafod y dyfyniad uchod: 'fe welir bod yma rai pethau o leiaf a oedd yn addas i glaf, fel y "costard" hawdd ei dreulio a'r sbeisys i adfer ei archwaeth' (LIYU, 310).<sup>91</sup> Fe fyddai cynnwys cyfeiriadau at y bwydydd hyn yn eu gwaith barddol hefyd yn gyfle gwych i'r beirdd wrth gwrs ddangos eu dyfeisgarwch wrth ddyfalu yn ogystal â dangos haelioni'r uchelwraig.

Er y cydnabyddir i'r bwyd a'r ddiod a dderbyniodd y beirdd yn y llysoedd helpu eu hiacháu, rhoddir pwyslais mawr yn y cerddi ymgeledd ar dduwioldeb y ferch hefyd fel cyfrwng gwellhad. Awgryma'r beirdd fod gweddiâu'r merched, yn ogystal â'r ddarpariaeth yn y llys, yn rheswm dros adferiad eu hiechyd. Mae'r agwedd grefyddol hon yn cynnig

---

<sup>90</sup>Yma eto mae'r ddyled i erthygl Bleddyn Owen Huws: "'Llawer dyn ... / Â chywydd a iachawyd": Guto'r Glyn yr iachawr'.

<sup>91</sup>Gweler hefyd Getz, 2010, 159.

dimensiwn arall ar berthynas y bardd a'r wraig wrth inni ddychwelyd at y syniad ohoni fel eiriolwraig drosto, ond y tro hwn nid fel un a chanddi glust ei gŵr ond yn hytrach, glust Duw. Gwelwn y bardd yn aml yn cymharu'r gwagedd â'r Forwyn Fair 'yn eiriol dros y ddynoliaeth' (LIYU, 310); er enghraifft, mae Tudur Penllyn yn awgrymu mai Lowri o Blasiolyn yw cynrychiolydd Mair ar y ddaear:

Mair a all, hyd y mae'r iaith  
lechyd ym, a'i chydymaith:  
Os gall dyn is gallt annwyl,  
Lowri a'i gall, lawer gŵyl.  
(GTP, 13.47–50)

A dyma sut y darlunnir Tanglwyst yn gweddïo dros Lewys:

a gweddïo'n deg ddiwarth  
ar Dduw'dd oedd gwawr ddydd o'r Garth.  
(GLGC, 88.25–6)

Gyda'r syniad o'r ferch fel un yn gweddïo dros y bardd, gwelir yma ddylanwad Cwlt y Forwyn Fair, a'r hyn sy'n nodedig yw nad lleian nac abades yw testun y diolch ond yn hytrach uchelwraig. Tra bo cerddi sy'n diolch i abadau am wella beirdd drwy rym Duw wedi goroesi, nid oes yr un gerdd o'r fath i abades, y ffigwr benywaidd gyfatebol i'r abad.<sup>92</sup> Fel y crybwyllwyd yn y bennod gyntaf, y tebygolrwydd yw bod hyn oherwydd prinder lleianod yng Nghymru yn gyffredinoll; wedi'r cyfan, tri lleiandy yn unig a geid yng Nghymru (Cartwright, 1999, 134), a bu i'r uchelwagedd o'r herwydd gymryd eu lle. Boed hynny fel y bo, darlunnir yn y cerddi sydd wedi goroesi, berthynas rhwng bardd ac uchelwraig sy'n cyfateb i berthynas claf a gwellhawraig.

Beth tybed yw hanes y gwŷr yn y cerddi ymgeledd hyn? Yma eto, fel yn y cerddi gofyn a diolch, gwelwn nad yw'r gŵr yn cael ei eithrio'n llwyr o'r canu, hyd yn oed pan fo'n

---

<sup>92</sup>Gw. cerddi Guto'r Glyn yn arbennig, er enghraifft, GGGI, CXIV. Gw. hefyd Williams, 1977, 26–7.

amlwg mai'r uchelwraig yw testun y diolch. Gall fod yng ngwaith Guto'r Glyn esiampI o fardd yn cydnabod rôl y wraig yn y broses o iacháu ond yn diweddu'r mawl i'r gwagedd hyn drwy sôn am eu gwŷr:

Nid rhaid ym waith antred mwy  
Meddig ond Arglwydd Mawddwy.  
(GGGI, XLVI.65–6)

Ond mae'n ddi-ddorol fod darlleniad arall ar gael, ac ymddengys mai ymyrraeth ddiweddarach a roes yr ymadrodd 'Arglwydd Mawddwy' yma. Y darlleniad arall a fabwysiadwyd yn y golygiad diweddaraf: 'Nid rhaid ym waith antred mwy / Meddig ond Ladi Mawddwy' (gutorglyn.net, 81.71–2). Mae'n debyg fod yr amrywio hwn yn y pen draw yn deillio'n rhannol o'r gred mai cerdd fawl anuniongyrchol i'w gŵr yw cerdd sy'n ymddangosiadol yn moli'r wraig. P'un ai yw honno'n ddadl ddilys ai peidio, mae'r cerddi hyn cyflwyno delwedd benodol o natur perthynas y bardd a'r uchelwraig, ac adlewyrchant y ffaith fod gan yr uchelwraig rôl fel un a fyddai'n gyfrifol am gleifion yn ei llys. Trwy'r cerddi dysgw'n fod cymdeithas yn disgwyl i'r ferch ddarparu cleifion nid yn unig â bwyd a diod, ond hefyd fod disgwyl iddi weddio drostynt. Noder bod rôl y wraig, fel un sy'n gofalu, i'w gweld nid yn unig yn y cerddi sy'n sôn yn uniongyrchol am anhwylderau'r bardd, ond hefyd yn y cerddi sy'n portreadu'r uchelwyr fel cleifion. Gellir tybio mai o ganlyniad i wythnosau o ofalu am ei gŵr y mae Elen yn ymateb fel hyn yng ngherdd Tudur Penllyn wrth iddo ef ac Elen sylweddoli 'bod rhywun annwyl a fu'n ddifrifol wael ar wella' (Huws, anghyoeddedig):

Ni cherddwn ddau rwn yn ddrud,  
Ni chwarddwn oni cherddud;  
Chwerddais pan welais dy wên,  
Chwarddodd ac wylodd Elen.  
(GTP, 14.43–46)

Cyn cloi'r astudiaeth hon o wahanol agweddau ar y darlun a gawn o berthynas y bardd â'r uchelwraig, rhaid taflu cipolwg ar yr hyn y gall un categori arall o gerddi eu dysgu inni, sef y cerddi cymod a dadolwch. Er nad y ferch yw gwrthrych yr un o'r cerddi hyn, fe'i gwelwn yn chwarae rhan cyfryngwraig rhwng bardd a bardd neu fardd a'i noddwr (LIYU, 314–7). Eisoes cafwyd amlinelliad o'r darlun hwn yn y gerdd i Rhys ac Annes gan Lewys Glyn Cothi lle gwelwyd y beirdd yn manteisio ar sefyllfa'r ferch fel yr un a fyddai agosaf at glust ei gŵr (GLGC, 230.43–52), ond yn y canu sy'n benodol yn ymwneud â dadolwch, gwelwn y beirdd yn paentio darlun clir o berthynas rhyngddynt a'r uchelwraig, lle mae'r uchelwraig yn gyfrwng cymod:

Arched merch Ednyfed naf  
Ym heddwch, mi a'i haeddaf!  
(gutorglyn.net, 106.65–6)

Mae Dafydd Nanmor hefyd yn ymbil ar i Margred gyfryngu cymod ar ei ran:

Eirioled Margred fal Mair  
Yn y Deav vn devair  
Geirie gwraig [a gâr] y grog,  
A dry gŵr yn drugarog.  
(PWDN, IV.59–62)

Cawn yr argraff fod y beirdd yn parchu dawn sylweddol yr uchelwragedd yn y rôl hon ac yn aml cyfeirir at allu'r merched i gyflafareddu; er enghraifft yng ngerddi Tudur Penllyn a Tudur Aled.<sup>93</sup> Dysgwn drwy'r cerddi hyn fod y gwragedd wedi hen arfer gweithredu fel cyfryngau cymod rhwng noddwyr neu rhwng aelodau o'r teulu. (Cawn gyfle i drafod gweithredoedd llafar y ferch ymhellach yn y bennod ddilynol, wrth inni drin a thrafod rhinweddau'r ferch ddelfrydol oherwydd ystyrid y gallu i gyfathrebu'n effeithiol fel un o'i phrif rinweddau.<sup>94</sup>)

---

<sup>93</sup>GTP 22.19–24; OBWV, t.192. Gweler LIYU, 314.

<sup>94</sup>Gweler tt. 57-91.

Wrth gloi'r sylwadau byr hyn am natur y berthynas rhwng y bardd a'r uchelwraig yn y cerddi cymod a dadolwch, rhaid cofio nad cymeriad cwbl gymodlon yw'r uchelwraig bob tro. Ymddengys fod modd i'w digio, a thrwy hyn, beri i'r berthynas rhyngddi a'r bardd ddirywio; wrth reswm, ni fyddai hyn yn fanteisiol i'r beirdd. Soniwyd eisoes am wraig yn rhoi'r argraff ei bod yn digio wrth fardd o achos iddo ddweud ei bod hi'n noddwraig iddo heb i hynny fod yn wir. Gwelwn enghraifft bellach o ddirywiad ymddangosiadol ym mherthynas bardd a'r uchelwraig mewn cywydd mawl i Ddafydd ap Gwilym o Llwydiarth. Meddai Tudur Penllyn:

Gwae fyfi, Gwenfrewi'r garth,  
Ai gwir llidio gwawr Llwydiarth?  
(GTP, 23.47–8)

Fodd bynnag, yn unol â'r bwriad a nodwyd ar ddechrau'r astudiaeth, nid wyf wedi ystyried agweddau ar y berthynas fwy agos a phersonol a allai fod wedi bodoli rhwng y bardd a'r ferch yn y bennod hon. Dewiswyd canolbwyntio yn hytrach ar yr agweddau mwy ffurfiol ar fywyd llys yr uchelwraig fel y'u portreadir yn y cerddi. Drwy wneud hynny, gwelwyd bod nifer o agweddau gwahanol ar berthynas y bardd â'r uchelwraig yn dod i'r amlwg. Er na wyddom i ba raddau'n union y bodolai traddodiad cryf o ferched yn noddi beirdd yng Nghymru yn y canrifoedd dan sylw, dangoswyd sut y gellid ystyried bod rhai merched o leiaf yn noddi beirdd a bod y nawdd hwnnw'n cwmpasu ystod eang o wrthrychau. Gwelsom hefyd, drwy gyfrwng y *genre* canu gofyn a diolch, fod ganddynt berthynas o safbwynt rhoi a derbyn, wrth i'r bardd bardd, yn aml, fabwysiadu persona'r *hen dlawd*. Yn y cerddi hyn, cafwyd bod perthynas fuddiol i'r ddwy ochr, gyda'r bardd yn fodlon i hyrwyddo enw da'r ferch o dderbyn y rhodd a ddeisyfa. Casglwyd ymhellach, drwy edrych ar y cerddi gofyn a diolch, ac yna yn yr un modd, y cerddi ymgeledd, fod gan y bardd berthynas gyda'r ferch yn rhinwedd ei rôl hi fel eiriolwraig drosto, yn ogystal ag fel un a

ddarparai fwyd a diod er mwyn ei iachau. Dangoswyd yn y cerddi dadolwch hefyd, i ryw raddau, agwedd arall ar y berthynas rhwng y bardd a'r ferch, gyda'r ferch yn gyfryngwraig rhwng y bardd ac eraill.

Wrth gloi'r bennod hon, er bod rhaid nodi bod y beirdd yn cydnabod lle amlwg yr uchelwr fel eu noddwr, er enghraifft:

Bardd wyf bob awr i Ddafydd,  
od wyf, gwyn fy myd o'r dydd  
da o waelod Tre'rdelyn  
sy'n 'y mhws innau am hyn....  
(GLGC, 157.51-4 )

ac yn wir, eu bod yn cyfaddef nad yw'r berthynas rhyngddynt a'r uchelwraig yn gyfartal â'u perthynas a'r uchelwr:

Moli merched mal Meirchiawn,  
Moli gwŷr mwy elw a gawn.  
(gutorglyn.net 20.49-50)

gellir crisialu ein sylwadau drwy ddweud bod tystiolaeth helaeth yn y cerddi sy'n portreadu natur amlweddog rôl yr uchelwraig mewn perthynas a'r bardd.

## Pennod 3:

### Merched 'delfrydol' y Beirdd

Yn y bennod flaenorol canolbwyntiwyd ar yr hyn a ddywed y cerddi am berthynas y bardd a'r uchelwraig, a thrwy hyn cafwyd cip ar rôl yr uchelwraig yng nghymdeithas y llys yn yr Oesoedd Canol. Yn dibynnu ar natur y berthynas, gwelwyd bod y cerddi'n datgelu rhai o'r rhinweddau a ystyrid yn ganmoladwy yn y cyfnod. Yn y cerddi sy'n canolbwyntio ar yr uchelwraig fel noddwraig, er enghraifft, pwysleisir ei haelioni. Yn y cerddi sy'n portreadu'r uchelwraig fel ymgeleddwraig ac eiriolwraig, canmolir ei charedigrwydd ac, ar adegau, ei duwioldeb. Yn y bennod hon, rhoddir yr ystyriaeth o'r berthynas benodol rhwng y bardd a'r ferch i'r naill ochr a symud i edrych yn fanylach ar rinweddau'r ferch fel y'u portreadir yn y canu er mwyn dyfnhau ein dealltwriaeth o sut un oedd merch ddelfrydol y beirdd yn y cyfnod hwn.

Yn gyffredinol mae *genre* y canu mawl, wrth iddo ganmol merched, yn pwysleisio mai merched hardd, cyfoethog, diwair ond ffrwythlon, yn hanu o dras uchel a chanddynt foesau da oedd y merched delfrydol. Wrth gwrs, rhaid cofio bod y beirdd yn derbyn tâl gan y gwragedd uchelwrol a'u gwŷr am y cerddi hyn a rhaid derbyn felly fod yma elfen gref o organol. Boed hynny fel y bo, yr hyn sydd o ddiddordeb i ni yn y bennod hon yw nid i ba raddau yr oedd y canmol yn eirwir ond, yn hytrach, beth a ddywed y canmol wrthym am y ddelfryd. Wrth hyrwyddo merched y teuluoedd uchelwrol roedd y beirdd yn adlewyrchu ac weithiau yn llunio syniadau'r gymdeithas ynglŷn â'r hyn a oedd yn ddisgwyliedig gan 'ferch berffaith'.

Soniwyd eisoes am y perygl o bwysu'n rhy drwm ar y cyfreithiau fel tystiolaeth o realiti'r cyfnod. Yn yr un modd, rhaid gochel rhag pwysu'n rhy drwm ar *Gramadegau'r Penceirddiaid* oherwydd ni wyddom ba bryd yn union y'u cyfansoddwyd, er mai rywdro yn gynnar yn y bedwaredd ganrif ar ddeg yw'r cyfnod mwyaf tebygol, ac nid yw eu perthynas â'r beirdd eu hunain yn glir; ymddengys mai testunau eglwysig ydynt i raddau helaeth (GP, xiii–cxi). Fodd bynnag, yn y cyd-destun presennol, yr hyn sydd o ddiddordeb yw bod y *Gramadegau* yn cynnig rhestr gynhwysfawr o rinweddau'r ferch ddelfrydol, ac felly maent yn cyfleu syniadau un garfan o'r gymdeithas o leiaf ynghylch yr hyn y dylai'r beirdd ei foli. Dyma'r cyfarwyddyd a geir yn y *Gramadegau* :

Gwreigdda a uolir o doethineb, a chymendawt, a diweirdeb, a haelyoni, a thegwch pryt a gwed a ffuryf, a dysymylder ymadrodyon a gweithredoed. (GP, 16)

Riein a uolir o bryt, a thegwch, a chymhendawt, a disymylder, ac eglurder mod a deuodeu, a haelyoni, a diweirdeb, a molyanrwyd, a boned, a lletneisrwyd, a charedicrwyd, ac idi y perthyn serch a charyat. (GP, 16)

Yn nes ymlaen, bydd y bennod hon yn holi i ba raddau y mae'r rhinweddau hyn yn cael eu hamlygu mewn pedair astudiaeth achos yn benodol, sef dwy gerdd o'r bedwaredd ganrif ar ddeg a dwy o'r bymthegfed ganrif. Ond cyn troi at ddarllen y pedair cerdd hyn yn fanwl, dyma gynnig gorolwg bras ar briodoleddau'r ferch ddelfrydol fel y'u disgrifir mewn corpw ehangach o gerddi. Noder nad yw'r paragraffau canlynol yn dilyn trefn y rhinweddau fel y'u rhestrir yn y dyfyniad uchod o'r *Gramadegau* oherwydd bod nifer ohonynt yn disgrifio yr un rhinwedd, a'u bod hefyd yn plethu i'w gilydd. Noder hefyd yr ychwanegir at y rhinweddau a nodir yn y *Gramadegau*. Dechreuwn drwy edrych ar y syniad o ddiweirdeb.



O ystyried meddylfryd cymdeithas y cyfnod am bwysigrwydd diweirdeb merch,<sup>95</sup> gellir deall pam y byddai hon yn rhinwedd ddisgwyliedig mewn uchelwraig. Mae'r merched a folir fel arfer yn briod, ac fel y mae Cartwright yn ei nodi, diweirdeb o fewn ffiniau priodasol a olygir gan amlaf: 'Diau fod y rhan fwyaf o ferched Cymru wedi cael eu hannog i fod yn dduwiol ac yn ddiwair o fewn ffiniau priodasol' (1999, 173). Byddai cyfeirio at y santesau yn fodd o ddelfrydu'n gynnil ddiweirdeb y ferch er, ar yr un gwynt yn aml ceir cyfeiriad at ei phlant:

Yn un Mair a Non a'i mab  
a dyfant hoedl i'w deufab,<sup>96</sup>  
(GLGC, 168.39–40)

Fel yn achos diweirdeb, mae elfen grefyddol-foesol yn esbonio pam fod 'haelioni' yn nodwedd anhepgor o'r ddelfryd o'r uchelwraig, o gofio syniad y cyfnod bod haelioni ar y ddaear yn cael ei ad-dalu yn y nefoedd. Byddai'r beirdd yn aml yn cyfeirio at swyddogaeth Mihangel o bwysio eneidiau er mwyn penderfynu pwy fyddai'n cael mynediad i'r nefoedd, ac yn esbonio bod cael dogn o haelioni yn y dafol yn beth manteisiol iawn, fel y gwelir ym marwnad Gwerful ferch Fadog gan Guto'r Glyn:<sup>97</sup>

Mihangel â'r gwayw melyn  
A bwysa drwg a da dyn.  
Pan bwyser ei haelder hi  
Pawb a rydd pybyr weddi.  
(gutorglyn.net, 88.45–8)

---

<sup>95</sup>Cofier am y profion diweirdeb:

'O|r mynny wybot g6ahan r6ng g6reic a mor6yn. nad uaeu muchud y my+ 6n d6fyr. a|dyro idi o|e yuet. ac os g 6reic vyd yn diannot hi a y|bissa6. Os mor6yn. nyt a m6y no chynt' (Prifysgol Caerdydd, 2007, Jesus III: 233v), a chofier canlyniadau erchyll methu profion o'r fath: 'Ond os yw'r cyhuddiad yn wir, ac os na chafwyd prawf o wryfddod yr eneth, yna dônt â hi i ddrws tÿ ei thad; ac y mae gwÿr ei thref i'w llabyddio'n gelain â cherrig, am iddi weithredu'n ysgeler yn Israel, trwy buteinio yn nhÿ ei thad' (Deuteronomium 22: 13–21).

<sup>96</sup>Roedd y santes Non yn 'ddiwair feichiog' yn ôl Dafydd Llwyd o Fathafarn (GDLI, 13.5).

<sup>97</sup>Gweler GGGI, t.346.

Trafodwyd agwedd ar haelioni'r uchelwraig yn y bennod flaenorol wrth ystyried rôl yr uchelwraig fel noddwraig i'r bardd ac fel un a fyddai'n sicrhau gwleddoedd da a chyson, ond haelioni o fewn ffiniau'r llys oedd hwn. Mae'r beirdd hefyd yn rhoi sylw i haelioni'r uchelwraig y tu hwnt i fywyd y llys ac yn pwysleisio bod rhoi i'r tlawd a'r anghenus yn rhinwedd a fyddai'n sicr yn hwyluso ei ffordd i'r nefoedd:

O'i llaw y gwna Gwenllian  
rannu ei gost i'r hen gwan.  
(GLGC, 34.51–2)

Dyma enghreifftiau eraill:

I ŵr gwan y rhôl ginio  
ac ar ei fraich ei faich fo.  
I wraig wan y rhôl geiniog  
a deunaw llwyth eidion llog.  
(GLGC, 39.39–42)

Yn ei dydd ni adai wan  
acw'n llaw-wag Gwenllian;  
ni adai ag osai gwyn  
ar un ieuanc awr newyn,  
ac ni adai'r gwan oediog  
o bai'n glaf, heb ŵn neu glog.<sup>98</sup>  
(GLGC, 44.25–30)

Mewn cerddi marwnad i wragedd a oedd yn marw'n ddietyfedd, fe fyddai'r sôn am y gwaith elusennol hwn yn arbennig o amlwg, fel petai'r uchelwraig wedi mabwysiadu'r gymdeithas fel ei phlant;<sup>99</sup> nid yw hi'n syndod bod bardd fel Lewys Glyn Cothi, sy'n cael ei ystyried yn fardd 'duwiol',<sup>100</sup> yn clymu haelioni'r merched wrth eu duwioldeb, er enghraifft:

I hen llawn o haint  
rhyoch win, rhyoch ennaint,  
a da i'r holsaint, rai a welsoch.  
(GLGC, 59.27–9)

---

<sup>98</sup>Gweler hefyd: 'Gwae'r gwan dwyn gwraig o Wynedd' (GGGI VIII.26); ac am enghraifft gynnar o'r ddelfryd hon, gweler gwaith Gwalchmai: 'A dillad i noeth, nawdd rhag annwyd, / A gwely a thŷ a thes aelwyd' (GMBD, 12.21–6).

<sup>99</sup>Gweler y nodyn ar gerdd 59 yn GLGC, t.552.

<sup>100</sup>Meddai Johnston: 'O holl feirdd y canu mawl, Lewys yw'r mwyaf duwiol ei fyd' (LIYU, 244).

Ar wan cyfrannu,  
ar henwyr rhannu  
a gair y Iesu a garasoch.  
(GLGC, 59.33–5)

Mae'n werth nodi bod y beirdd, drwy dynnu sylw at haelioni cyhoeddus y ferch yn awgrymu ei bod yn gyfoethog hefyd, a bod dod o dras cyfoethog ynddo'i hunan yn rhinwedd.<sup>101</sup> Yn wir, mae'r elfen o dras bonheddig yn rhinwedd dra phwysig, yn cynnwys nid yn unig etifeddiaeth faterol ond hefyd etifeddiaeth foesol ac addysgol. Yn aml, ceir cyfeiriad at y merched uchelwrol a delfrydol hyn fel rhai a oedd wedi bod yn ymarfer eu rhinweddau 'er yn ferch' (gutorglyn.net, 53.2), ac fel rhai a oedd wedi eu magu yn y defodau uchelwrol, fel y gwelwn er enghraifft mewn cerdd yn diolch am bwrs gan Catrin, wrth i Guto'r Glyn gyfeirio at yr hanes o ferched hael a fu yn ei llys cyn ei dyddiau hi:

Ni bu yno neb anael,  
Ni bu'r cwrt na bai wraig hael.<sup>102</sup>  
(gutorglyn.net, 87.33–4)

Noder nad rhywbeth newydd oedd clodfori merch ar sail ei thras – cofiwn i Moras ymdrin â'r cyswllt rhwng 'mabddysg' y merched a'u tras mewn cerddi mor gynnar â'r ddeuddegfed ganrif (2005, 26–52).<sup>103</sup>

Rhinwedd arall a nodir yn y *Gramadegau* yw gallu'r ferch i ymddiddan, a cheir yr argraff yn y cerddi mai canlyniad unwaith eto i fagwraeth dda oedd meddu ar y rhinwedd hon. Cofiw'n fod Moras wedi tynnu ein sylw mewn erthygl arall (2007, 17–43) at y cyfyngiadau a osodwyd ar yr hyn a oedd yn briodol i'r ferch ei wneud o ran ei hymddiddan, a

---

<sup>101</sup>Mae'n ddiddorol nodi bod yr holl roi cyhoeddus hwn mewn gwrthgyferbyniad llwyr â rhybudd Mathew yn y Beibl: 'Felly, pan fyddai'n rhoi elusen, paid â chanu utgorn o'th flaen... Felly bydd dy elusen di yn y dirgel, a bydd dy Dad, sydd yn gweld yn y dirgel, yn dy wobrwyo' (Matthew, 6.1–4).

<sup>102</sup>Gweler hefyd: 'Siwan am arian a medd / a wŷr hynny o'i rhinwedd' (GLGC 25.39–40).

<sup>103</sup>Daw'r term o ddyfyniad un o gerddi Hywel ab Owain Gwynedd: 'Mabddysg oedd iddi rhoddi yn rhwydd' (GLIF, 7.14). Gweler y drafodaeth ym mhennod 1, tt. 11–3.

chofiwn am y cymhlethdod sydd yn codi wrth i'r ferch geisio ymateb i'r sawl graddfa wahanol a fesurai lwyddiant llafar merch, gan gynnwys ei thawelwch, ei mudandod, ond hefyd ei gallu i fod yn huawdl a safonol ei Chymraeg. Gellid dadlau mai dyma un agwedd ar yr hyn a olygir gan y *Gramadegau* wrth gyfeirio at 'ddoethineb' merch, sef ei gallu i ymdawelu pan fo hynny'n briodol a gwybod beth yw ymddiddan yn gymhedrol. Ymddengys nad oedd y gymdeithas wedi anghofio cyngor Paul wrth iddo atgoffa'r ferch mai ei lle yw bod yn ddistaw am mai arni hi oedd y bai am gwymp dyn,<sup>104</sup> ac felly, ochr yn ochr â'r pwyslais ar ddi-ddanu beirdd a gwesteion a'u croesawu, ynghyd â dangos haelioni tuag atynt, roedd rhaid i'r ferch rinweddol wybod pryd i ymatal.

Yr elfen olaf a grybwyllir yn y gorolwg hwn yw canllaw arall a nodir yn y *Gramadegau* sef yr angen i foli prydferthwch merch.<sup>105</sup> Yng nghanu mawl y bedwaredd ganrif ar ddeg, molid yn gyson aeliau duon y ferch, ei hwyneb gwelw a'i dannedd gwynion yn bennaf, gan ddefnyddio cymariaethau o fyd natur i ddisgrifio ei thegwch.<sup>106</sup> Fel y gwelir, yr oedd yn boblogaidd iawn ymysg y beirdd i gyffelybu lliw croen merch ag eira neu ewyn dŵr, cymariaethau a welir hefyd yn y rhyddiaith ganoloesol: 'Oed gwynnach y chnawd no distrych y don' (CO, t.18 ll.491). Erbyn y bymthegfed ganrif molir y rhinweddau hyn yng nghorff y cerddi a adnabyddir fel 'y canu serch', ond fel y gwelir yn nes ymlaen, prin yw cyfeiriadau o'r fath yn y cerddi mawl.

---

<sup>104</sup>Ac nid wyf yn caniatáu i wragedd hyfforddi, nac awdurdodi ar y gwŷr; eu lle hwy yw bod yn ddistaw. Oherwydd Adda oedd y cyntaf i gael ei greu, ac wedyn Efa. Ac nid Adda a dwyllwyd; y wraig oedd yr un a dwyllwyd, a chwympo drwy hynny i drosedd' (Timotheus 2: 11–14).

<sup>105</sup>Gweler Ruddock, 1971 a 1975.

<sup>106</sup>Mae'n anodd iawn peidio â sôn am Dafydd ap Gwilym yma, yn arbennig o gofio ei ddylanwad ar y modd y disgrifiwyd prydferthwch merched yn y canu serch. Fel y noda Johnston: 'Mae modd olrhain bron bob thema yn y canu serch i'r Cywyddwyr Cynnar, yn enwedig Dafydd ap Gwilym' (LIYU, 321). Er hyn, trafodwyd ym mhennod un pam y penderfynwyd peidio â chynnwys Dafydd yn yr astudiaeth hon, gweler tt.18-9.

Wedi ystyried yn fras y rhinweddau a restrir yn y *Gramadegau*, canolbwyntir bellach ar y portread o'r ferch ddelfrydol a'i hymgorfforiad o'r rhinweddau hyn drwy astudio dwy gerdd farwnad a dwy gerdd fawl o'r ddau gyfnod (cyfeirir at gerddi eraill yn unig lle bo hynny'n atgyfnerthu'r gwaith o egluro'r pedair astudiaeth achos dan sylw). Dewiswyd Marwnad Gwenhwyfar o Bentraeth gan Gruffudd ap Maredudd am fod y gerdd hon wedi cael ei disgrifio fwy nag unwaith fel un o gampweithiau'r bedwaredd ganrif ar ddeg.<sup>107</sup> O ran y gerdd fawl, dewiswyd y gerdd i Myfanwy Gwraig Goronwy Fychan gan Rhisierdyn am ei bod yn cynnig ystod amrywiol o gyferiadau nodweddiadol at rinweddau merch.<sup>108</sup> Y gerdd gyntaf a fydd yn cael sylw o'r bymthegfed ganrif yw Marwnad Gwladys ferch Dafydd Gam gan Lewys Glyn Cothi. Roedd Gwladys yn fam i'r Herbertiaid, ac oherwydd y dystiolaeth hanesyddol sydd wedi goroesi am y wraig hon, tybiwyd y byddai'r gerdd yn cynnig testun trafodaeth ddiddorol, ac y byddai modd cymharu disgrifiad y bardd, i ryw raddau, â'r ffeithiau bywgraffiadol. Yr ail gerdd i'w hystyried o'r cyfnod diweddaraf yw'r gerdd fawl i'r Iarlles Ann Devereux. Penderfynwyd cynnwys astudiaeth o'r gerdd hon gan Guto'r Glyn yn rhannol ar sail y cysylltiad sydd rhyngddi a cherdd Lewis Glyn Cothi i Gwladys, gan mai Ann oedd gweddw William Herbert, mab Gwladys. Trafodir y cerddi yn eu trefn gronolegol gan edrych yn gyntaf ar farwnad Gruffudd ap Maredudd i Wenhwyfar.

---

<sup>107</sup>Er enghraifft, gweler sylw D. Myrddin Lloyd: 'All these poems to ladies, however, pale into insignificance when set against the elegy to Gwenhwyfar, a maiden cut down at the height of her youth and beauty' (1979, 52).

<sup>108</sup>Tra bod y gerdd ei hunan yn eithriadol o safbwynt amllder y cyfeiriadau, mae'r cyfeiriadau eu hunain yn nodweddiadol ac yn hyn o beth mae'r gerdd yn ffynhonnell gyfoethog.

## **‘Marwnad Gwenhwyfar o Bentraeth’ gan Gruffudd ap Maredudd: ‘Diwair oedd a doeth, deddf goeth gywir’<sup>109</sup>**

Ychydig iawn a wyddom am yr uchelwraig Gwenhwyfawr o Bentraeth. Er i’w thras gael ei chanmol droeon yn y gerdd nid yw’r gerdd yn rhoi llawer o fanylion hanesyddol i ni am ei llinach (a thrafodir arwyddocâd hyn yn y man). Ni chyfeirir at ei rhieni, a’r unig gyfeiriad achyddol a gawn yw ei bod hi’n ‘orwyr deg traws Eiraint’ (GGM, 5.19).<sup>110</sup> Wrth edrych ar nodiadau P. C. Bartrum, gwelwn mai un Geraint yn unig a restrir yn y cyfnod rhwng 985 a 1215, sef Geraint ap Tegwared ap Cynfor sydd hefyd yn cael ei gysylltu ag ardal Pentraeth (GGM, t.167). Fel y nododd golygydd gwaith Gruffudd ap Maredudd, mae hyn ‘yn awgrymu’n gryf iawn mai ef yw’r gŵr y cyfeirir ato fel cyndaidd i Wenhwyfar yn y gerdd hon’ (GGM, t.167). Os derbyniwn hyn, mae’n debyg i Gwenhwyfar gael ei geni tua 1335 (GGM, t.168), ac iddi briodi Hywel ap Gruffudd a chael un mab. Mae hyn yn mynd yn erbyn maentumiad J. E. Caerwyn Williams sydd, drwy ganoblwyntio ar y geiriau ‘bun’, ‘rhiain’ a ‘meini’ fel disgrifiadau ohoni, yn casglu mai’r ‘awgrym yw mai merch ifanc ddibriod ydoedd, a mwy fyth felly o achos galaru ar ei hôl gan ei rhieni’ (1984, 85). Fel y dangosodd Ann Parry Owen, defnyddir y termau hyn mewn marwnadau eraill i ferched priod, a rhwng hynny a’r dystiolaeth achyddol, nid oes modd derbyn yn ddi-gwestiwn mai merch ddi-briod yw Gwenhwyfar Gruffudd ap Maredudd.<sup>111</sup> Er na ellir bod yn sicr, derbynias awgrym Parry Owen mai merch ifanc briod yw gwrthrych y gerdd:

... heb fod gennym ar y naill law gorff o gerddi marwnad i ferched ifanc dibriod ac ar y llaw arall i wragedd priod, a bod modd adnabod tueddiadau a gwahaniaethau clir rhyngddynt, ni ellir gwneud mwy nag awgrymu yn betrusgar mai gwraig briod ifanc oedd Gwenhwyfar pan fu farw. (GGM, t.169)

---

<sup>109</sup>GGM, 5.109. ‘Pur ydoedd a doeth, gwych [a] chywir [ei] dull’.

<sup>110</sup>‘Gorwyres hardd Geraint nerthol’.

<sup>111</sup>Er enghraifft: GGrG 2.1, 2, 16, 22; GGrG 6.8, 9, 42, 71, 80, 97, 105.

Efallai y gellir casglu un ffaith fywgraffiadol amdani wrth graffu ar y cyfeiriad sydd gan y bardd at y nef fel lle 'ddiafiechyd' (GGM, 5.96) – ceir yma awgrym efallai mai o ganlyniad i'r pla y bu farw Gwenhwyfar, fel y nododd Johnston:

Yn sicr, mae'r farwnad ysblennydd hon, fel nifer tebyg eu naws yn ail hanner y ganrif, yn dystiolaeth i'r modd y dyfnhawyd ac y miniogwyd yr ymateb i angau gan ddifrod y pla.<sup>112</sup> (LIYU, 71)

Gellir mentro dyddio'r gerdd felly i oddeutu 1350, er na ellir bod yn sicr oherwydd fe ddaeth y pla fwy nag unwaith yn y cyfnod yn ogystal â sawl afiechyd heintus arall. Wedi sefydlu'r ychydig sylwadau cefndirol hyn, ein prif ddiddordeb yw holi am ba rinweddau yr hiraetha'r bardd amdanynt wrth iddo farwnadu'r uchelwraig.

Fel y crybwyllwyd uchod, rhydd Gruffudd ap Maredudd gyfeiriadau lu at dras fonheddig Gwenhwyfar, ac fe ddaw'n amlwg yn fuan fod hanu o dras uchel yn rhinwedd bwysig yn ei dyb ef. Yn wir, mae'r rhan fwyaf o rinweddau Gwenhwyfar, yn ôl y bardd hwn, yn deillio o'i thras. Er bod ei thras yn cael ei chanmol, mae'r diffyg cyfeirio at aelodau penodol y teulu yn drawiadol, ac yn awgrymu bod gan y ferch hon statws lled annibynnol gan fod pwysigrwydd y teulu presennol ar un lefel yn cael ei danseilio.

Un yw hon sy'n uchel ei moesau, yn ddiwair, yn ddoeth ac un sy'n gwybod beth yw ymddygiad cywir: 'Diwair oedd a doeth, deddf goeth gywir' (GGM, 5.109).<sup>113</sup> Agwedd bwysig ar ei 'deddf goeth gywir' oedd ei gallu i gynnal gwleddoedd, ac unwaith eto pwysleisir ei magwraeth yn hyn o beth gan nodi mai 'gwin a medd a'i maeth' (GGM, 5.28).<sup>114</sup>

---

<sup>112</sup>Ar y broses o alaru yn y cyfnod gweler Huizinga, 1924 a Ariès, 1991.

<sup>113</sup>Pur ydoedd a doeth, gwych [a] chywir [ei] dull'.

<sup>114</sup>'ar win a medd y'i magwyd hi'.

Canmolir ei ‘helifedd hael’<sup>115</sup> (GGM, 5.8) droeon drwy sôn am ei darpariaeth gyson, a’i henwogrwydd wrth rannu bwyd a diod, er enghraifft ‘Trefnawdd hon arnawdd, cawdd ni’w cuddir’ (GGM, 5.111) ac:<sup>116</sup>

... henw mawrweini,  
Mygr windefeirn, milioedd a feirn, mal ydd wyf i.<sup>117</sup>  
(GGM, 5.140–1)

Yr un yw’r delfrydau a welwn ym marwnad Gronw Gyriog i Wenhwyfar arall. Yn y gerdd honno, mae’r bardd yn atgoffa’r gwrandäwr fod haelioni yn gysylltiedig â merched Cymru yn y traddodiad llenyddol ehangach wrth iddo dynnu ar dystiolaeth y chwedlau a llunio cymhariaeth anarferol â Rhiannon wrth ddisgrifio Gwenhwyfar yn rhannu rhoddion:<sup>118</sup> ‘Dygn gofion Rhiannon rhodd’ (GGrG, 2.15).<sup>119</sup> Gwenhwyfar Gronw Gyriog yw gwrthrych cerdd Mab Clochyddyn hefyd, ac y mae yntau’n amlygu ei chyfoeth a’i haelioni drwy sôn amdani’n rhoddi yn gyson ond gan ddelfrydu ei chymedroldeb ar yr un pryd: ‘Oedd gwingar wen, oedd gwen gall’ (GGrG, 6.36).<sup>120</sup> Felly dyma dri bardd gwahanol, Gruffudd ap Maredudd, Gronw Gyriog a Mab Clochyddyn yn canolbwyntio ar yr un delfrydau wrth ganu marwnadau i ferched, gan gynnwys delfryd cymedroldeb. Gellir cymhwysu geiriau Enid Benkov i sefyllfa merched Cymru pan ddywed mai ‘moderation is the key’ (1989, 248).<sup>121</sup>

Dychwelwn at y brif gerdd dan sylw, ac at elfen arall yn y dyfyniad: ‘diwair oedd a doeth, deddf goeth gywir’ gan weld fod Gruffudd ap Maredudd yn canolbwyntio ar agwedd

---

<sup>115</sup>Yn darparu medd yn hael’.

<sup>116</sup>Bu i hon drefnu cynhaliaeth, [dyma] dramgwydd nas cuddir’.

<sup>117</sup>[un y mae] bri [ar ei] gwasanaethu helaeth, / [Ei] thafarnau gwin ysblennydd, y mae miloedd yn canmol [y rhain], fel yr wyf i’.

<sup>118</sup>‘Na gwr na gwreic o hynny nyt edewis Riannon, heb rodi rod enwauc idaw, ae o gae, ae o uodrwy, ae o uaeu guertuawr’ (PKM, 19).

<sup>119</sup>‘Atgofion dolurus am [un a’i] rhodd [fel] Rhiannon’ Noder prinder cymhariaethau o’r fath wrth drafod haelioni mewn gwrthgyferbyniad â chymhariaethau lluosog â merched chwedlonol wrth drafod harddwch.

<sup>120</sup>Yr oedd yn un deg hoff o [rannu] gwin, yr oedd yn un deg gall’.

<sup>121</sup>Gweler hefyd Bloch, 1991 a Blamires *et al*, 1992.



arall ar y doethineb hwn sef ymddygiad Gwenhwyfar wrth iddi ymgomio. Fel y gwelwyd, yn ôl Gruffudd ac eraill hefyd, delfrydir yr uchelwraig a oedd yn barod i groesawu gwesteion i'w llys, eu diddanu a chynnig bwyd a diod iddynt. Gellir disgwyl bod parodrwydd a gallu'r ferch i sgwrsio yn rhan annatod o'r diddanu hwn; yn sicr, gwelwn fod gallu'r ferch i ymddiddan yn rhinwedd delfrydol ymysg merched y traddodiad rhyddieithol. Er enghraifft, yn y *Pedeir Keinc* gwelir sut mae cyfathrebu effeithiol yn arwain at lawenydd, a sut mae amharch a diffyg cyfathrebu yn arwain at drasiedi.<sup>122</sup> Yma gwelwn pa mor bwysig yw hi i'r merched gymryd rhan yn y cyfathrebu hwn:

'Mi a debygaf na werendeweist eiryoet ar ymddidanwreic well no hi' (PKM, 50)

Ac yna dechreu kydeisted ac ymddidan o Uanawydan a Riannon; ac o'r ymddidan tirioni a wnaeth y uryt a'y uedwl wrthi. (PKM, 50)

A dechreu ymddidan a wnaeth ef a'r urenhines. Ac o'r a welsei eiryoet wrth ymddidan a hi, disymlaf gwreic a bonedigeidaf i hannwyt a'y hymddidan oed. (PKM, 4)

Fodd bynnag, gwelwn fod Gruffudd ap Maredudd wrth dalu cryn sylw i natur ymddiddan Gwenhwyfar yn canmol ei thawelwch. Yn ôl y bardd, roedd lleferydd Gwenhwyfar yn un 'cain a thawel' (GGM, 5.142), ac fe'i disgrifir fel un 'gwan gwâr' (GGM, 5.24). Drwy geinder, tawelwch ac addfwynder ei siarad, pwysleisir ei doethineb yn ogystal â'i bonedd a'i thras uchel ymhellach – dyma'r 'fun dawl uchelwaed' (GGM, 5.43).<sup>123</sup>

Yn ogystal â bod yn ddarparwraig wych, mae prydfferthwch allanol Gwenhwyfar, ei dillad a'i hosgo, yn hollol ganolog i'r darlun ohoni. Yn wir, cawn yr ymdeimlad mai dyma ei rhinwedd bwysicaf yn ôl y bardd, oherwydd colli'r prydfferthwch drwy ei marwolaeth sy'n

---

<sup>122</sup>Gellir dadlau mai llawlyfr ynghylch ymddygiad cymdeithasol yw'r *Pedeir Keinc*, fel y dywed Bollard: 'The constant concern of the author of the *Four Branches* is the modes of personal conduct which are necessary for society to survive and progress' (Bollard, 1975, 252). Am ymdriniaeth â merched y Mabinogi, gweler Valente, 1988.

<sup>123</sup>Gweler hefyd farwnad Mab Clochyddyn: 'Llariaidd a lluniaidd: er llonydd – riain' (GGrG, 6.71).

arwain y bardd i ddatgan mai 'tristyd a'm cyfyd' (GGM, 5.33). Yn yr adran hon sy'n pwysleisio colli rhywun mor brydferth â Gwenhwyfar y mae'r gerdd yn cyrraedd ei dwyster mwyaf ingol gan beri i ysgolheigion fel D. Myrddin Lloyd ddatgan: 'All these poems to ladies, however, pale into insignificance when set against the elegy to Gwenhwyfar, a maiden cut down at the height of her youth and beauty' (1979, 52). Beth yw'r nodweddion a folir o safbwynt prydfferthwch Gwenhwyfar felly, a sut y mae'r bardd yn eu delweddu?

Ar adegau, cyfeiria'r bardd at rannau o'i chorff, er enghraifft ei haeliau:

'mwyalchliw ddwyael' (GGM, 5.6),<sup>124</sup> ei thalcen: 'Y tâl dan aur mâl am ael feinir' (GGM, 5.106),<sup>125</sup> ei bochau cochion: 'Oedd grudd gwrel' (GGM, 5.142),<sup>126</sup> a'i hwyneb gwelw: 'fy nyn llwyd' GGM, 5.81).<sup>127</sup> Ond fel arfer, darlun o'i harddwch cyffredinol a gawn yn hytrach na chyfeiriadau at rannau penodol ei chorff. Gwna hyn drwy ddefnyddio nifer o ddelweddau gwahanol, er enghraifft, cymhara'r bardd ei gwynder ag eira'r mynydd ac eira'r llwyn: 'deg ei llun lliw nyf gorthir' (GGM, 5.102),<sup>128</sup> ac 'bryd eiry celli' (GGM, 5.155).<sup>129</sup> Cyffelyba'r bardd ei harddwch i ewyn ar ddŵr hefyd: 'hoen geirw creignaint – glwys' (GGM, 5.17);<sup>130</sup> 'lliw berw basryd' (GGM, 5.84);<sup>131</sup> 'Hithau, hoen gwendon lon don am dir' (GGM, 5.131).<sup>132</sup> Yr un math o ddisgrifiadau ynghylch harddwch merch a gawn gan Mab Clochyddyn yn y gerdd i Gwenhwyfar wraig Hywel ap Tudur ap Gruffudd o Goedan: 'Lliw

<sup>124</sup>[Un a chanddi] ddwy ael o liw mwyalchen'.

<sup>125</sup>Y talcen dan aur gloyw o amgylch ael y feinir'.

<sup>126</sup>[Un â] grudd o liw cwrel ydoedd [hi]'. Dyma ddelwedd a ddefnyddir yn aml i ddisgrifio coch y bochau, er enghraifft: 'Gwrel rudd ger ael rydu' (GMB, 6.20). Gweler hefyd GMB, 6.20n.

<sup>127</sup>Roedd hyn yn amlwg yn ddelfryd o brydferthwch ymysg y beirdd, er enghraifft, gwelir Sypyn Cyfeiliog yn eu gwrthgyferbynnu fel hyn: 'A'r ael uchel... / Asgell mwyalch ar galch gwyn' (GDB, 4.5–6).

<sup>128</sup>'Hardd ei gwedd o ddisgleirdeb eira'r mynydd-dir'.

<sup>129</sup>'yr un o] wedd eira [ar] llwyn'.

<sup>130</sup>[merch o] ddisgleirdeb dŵr crych nentydd hardd sy'n llifo dros welyau creigiog'.

<sup>131</sup>[un o] liw ewyn [ar] ryd fas'.

<sup>132</sup>'Hithau, disgleirdeb ton wen nwyfus wedi torri ar dir'.

gwiw gwypm gyfnod manod mynydd' (GGrG, 6.48),<sup>133</sup> ac fel y noda Ann Parry Owen: 'Dull o gyfleu gwynder eithafol merch sydd yma, drwy ei chymharu ag eira dilychwin ac anghyraeddadwy' (GGM, t.181). O achos gwelwder yr uchelwraig hon, yr oedd hi'n wrthrych i'w ddeisyfu: 'Lliw llun anon, eiddun oedd' (GGrG, 6.32).<sup>134</sup> Fel yn achos rhinweddau eraill, yma eto, gwelir prydfferthwch y merched yn cael ei gymharu â harddwch y merched chwedlonol. Er enghraifft, cymherir Gwenhwyfar â Luned ('ail Luned, em oleuni' GGM, 5.149),<sup>135</sup> Nyf ('arail bryd Nyf' GGM, 5.159) a Derdri ('gwiwliw Derdri' GGM, 5.148),<sup>136</sup> ac ym marwnadau Mab Clochyddyn a Gronw Gyriog, cyfeirir at Enid ('Enid unrhyw Wenhwyfar' GGrG, 6.2),<sup>137</sup> a chyfeirir at Elen yn ogystal: 'Llywied ail Elen i lawenydd' (GGrG, 6.74).<sup>138</sup> (Roedd y merched chwedlonol hyn oll yn adnabyddus yn y cyfnod fel delfrydau o brydfferthwch, a gwelir y beirdd yn troi'n aml iawn atynt, yn arbennig yng nghyswllt merched pryd golau).<sup>139</sup> Yn ogystal â bod yn gonfensiynau i ddisgrifio harddwch merch, gellir dehongli'r cyfeiriadau uchod at foli'r un golau ei phryd a'r sylw cyson a roddir i'r lliw gwyn yn y cerddi fel adlewyrchiad o burdeb mewnol a diweirdeb y merched. Drwy foli ei harddwch fel hyn felly, llwydda'r bardd i ddyrchafu mwy nag un o ddelfrydau'r oes ar yr un pryd.

<sup>133</sup>[Un o] liw gwych tymor rhagorol eira mân y mynydd'.

<sup>134</sup>'O liw [gwelw] llun di-gwsg, deisyfadwy ydoedd'.

<sup>135</sup>'un debyg i Luned, disgleirdeb gem'.

<sup>136</sup>[yr un o] brydfferthwch Nyf'; 'gwedd hardd Derdri'.

<sup>137</sup>'Gwenhwyfar o harddwch Enid'. Enwir Enid ferch Yniwl gyda Dyfr Eurwallt a Thegau Eurfron yn y Trioedd fel un o 'Dair Rhiain Ardderchog Llys Arthur' (TYP, 230 a 336). Ar Enid gweler Thomson, 1997 ac ar Luned, gweler Thomson, 1968, lxii–lxiv.

<sup>138</sup>'Boed Iddo gyfeirio[yr un] megis Elen i lawenydd [nefol]'. Mae'n debyg mai cyfeiriad at Elen o Droea (Elen Fannawg) a geir yma, cyfeirir ati yn y Trioedd fel un o 'Deir G6raged a gauas pryt Eua yn tri thraean' (TYP, 136 a 342–345), meddai'r *Burt* amdani: 'Elen uanavc chwaer (Castor a Phloux) oed gyffelyb udunt hvy; tec oed hi ac ufyd y medvl ac eskeirvrec da oed, a man oed y rvg y dvy ael. ac am hynny y gelvit hi elen uanavc' (Rhÿs, 1890, 12.11–15); Gweler hefyd Williams, 1927 a Lloyd-Jones, 1931–63.

<sup>139</sup>Er enghraifft: 'Oleune Dyfr neu Luned' (GGM, 4.7); 'eilwed lunet' (GGrG, 4.22); 'Dyfr wledig, eilig ei wyled – am ged' (GC, 2.143). Roedd cyfeirio at 'liw nyf' hefyd yn golygu 'merch o liw eira' (GGM, t.181), er enghraifft.: 'Ni chawn lun iawn gan liw nyf' (GGLI, 3.16) a 'Ti a gwynaist... / Wrthf am liw nyf' (GIG, XXXIV.9–10).

Yr hyn sydd fwyaf trawiadol wrth sôn am brydferthwch y merched yw'r cyfeiriadau at eu disgleirdeb drwy eu cymharu â'r haul, y lloer, a chanhwyllau. Droeon pwysleisia Gruffudd ap Maredudd y syniad o'r ferch fel 'haul Wynedd' (GGM, 5.135), neu 'hoen lloer' (GGM, 5.4), ac fe'i gelwir hi hefyd yn 'eurgannwyll Bentraeth' (GGM, 5.26). Yn wir, y mae hi ddwywaith yn ddisgleiriach na'r haul: 'Deune haul wedd' (GGM, 5.8).<sup>140</sup> Fel y mae Ann Parry Owen wedi nodi, dyma 'ffynonellau goleuni' ac 'y mae bywyd bellach yn llwm ac yn oer gan eu bod wedi eu diffodd' (GGM, t.171).<sup>141</sup> Mae'r ffaith fod Gruffudd ap Maredudd yn cymharu colli prydferthwch Gwenhwyfar â cholled ffynonellau sylfaenol bywyd unwaith eto'n ategu'r ddadl mai prydferthwch yw un o brif rinweddau'r ferch ddelfrydol yn ei lygaid ef.

Yn ogystal â moli harddwch y ferch, delfryd arall i'w foli a hiraethu amdano oedd ei chorff main a thal:

Myned mywn argel wely  
Meinir dwf is mynor dŷ.<sup>142</sup>  
(GGM, 5.55–6)

Oedd hoen blaen gwelwgaen, gweilging saffir.<sup>143</sup>  
(GGM, 5.108)

Mae'r cyfeiriad uchod at ei gemwaith glas ('saffir'), yn tynnu ein sylw at y modd y mae'r bardd yn defnyddio dillad a gemwaith y ferch fel modd o'i chanmol. Mae ei gallu i ymddangos yn drwsiadus yn ei dillad drud yn ffordd iddi amlygu ar unwaith ei phrydferthwch, ei bonedd a'i chyfoeth:

---

<sup>140</sup>[Ei] gwedd yn ddwywaith disgleiriach na'[r] haul'.

<sup>141</sup>Eto, gwelwn yr un fath o ddelweddu ym marwnadau Mab Clochyddyn a Gronw Gyriog, er enghraifft: 'Lliw lloer pan ddwyre bre a bröydd' (GGrG, 6.70); 'Gwellwell fu bwyll, gannwyll gain, / Gwenhwyfar haul daear hoen' (GGrG, 2.25–6): '[Un o] liw lleuad pan gyfyd [ar] fryn a broydd'; 'Gwell a gwell fu synnwyr, kannwyll wych [goleuni], / Gwenhwyfar [a oedd yn] hael llawenydd deaer'.

<sup>142</sup>[Oherwydd] i ffurf fain a thal / Fyned i fewn i wely cudd is tŷ o fynor'.

<sup>143</sup>Oedd [yr un o] ddisgelirdeb amlwg wyneb gwelw [ton], merch dal wedi ei haddurno â saffir'.

Lle bu cyn pallu (pwyll a hoffir)  
Sirig a syndal, mal y molir,  
Lle bu fflwch degwch (deigrw a wylir)  
A Phorffor a rhudd, neud grudd grodir.<sup>144</sup>  
(GGM, 5.117–120)

Unwaith eto, yng nghyd-destun y wisg gwelwn fod cyd-daro rhwng y delfrydau a folir gan y beirdd a’r rhai a nodir yn y rhyddiaith ganoloesol. Er mai deillio o gyfnod gwahanol a chymdeithas wahanol a wna’r chwedlau, maent yn dangos pwysigrwydd dillad merched yn y traddodiad yn gyffredinol. Wrth edrych ar y rhamantau, gwelir sawl cyfeiriad yno hefyd at ddefnydd gwisgoedd y merched yn amlygiad o’u safon a’u bonedd, er enghraifft: ‘A diheu oed gan Owein na weslei eiryoet niuer kyhardet a hwnnw o bali a seric a syndal’ (Thomson, 1968, ll.351–3).<sup>145</sup> Gwelwn fod y chwedlau’n pwysleisio arwyddocâd y lliw porffor fel un brenhinol – cofier, er enghraifft, y disgrifiad o Culhwch yn mynd i lys Arthur: ‘Llenn borfor pedeir ael ymdanaw, ac aul rudeur vrth pob ael iti’ (CO, t.3, ll.76).<sup>146</sup> O ystyried pwysigrwydd y lliw porffor ar hyd yr Oesoedd Canol, gellir tybio felly na fyddai angen gwneud mwy na chyfeirio ato, fel a wna Gruffudd ap Maredudd, i ddynodi statws yr uchelwraig: ‘A phorffor a rhudd’ (GGM, 5.120). Yn ychwanegol at y coch a’r porffor hwn, cyfeirir hefyd at ffwr, ac at y lliw gwyrdd a glas: ‘Lle bu ra a gwyrdd, lle bu rudd – a glas’ (GGM, 5.45).<sup>147</sup> Dyma ddefnydd a lliwiau a oedd oll yn symbolau o statws yr uchelwraig fel y nododd Ann Parry Owen wrth sôn am Wenhwyfar arall:<sup>148</sup>

Byddai lliw a chyfoeth y defnyddiau yn gosod Gwenhwyfar ar wahân i’r bobl gyffredin a nyddai eu gwlan a’u lliain eu hunain mewn lliwiau llwm. Yr oedd lliw ei hun yn farciwr cymdeithasol, ac nid rhyfedd fod y beirdd yn aml yn cyfeirio at wisgoedd eu noddwyr wrth eu lliwiau yn unig. (GGM, t.149)

<sup>144</sup>‘Lle y bu cyn [iddi] farw ([ei] doethineb a folir) / Sidan a lliain main, fel y molir, / Lle y bu harddwch disglair (dagrau a wylir) / A dillad porffor a choch, y mae grudd [bellach] mewn graeandir’.

<sup>145</sup>Am y defnydd ‘syndal’ gweler: ‘a coarser version of sarcenet which was a thin, soft silk of taffeta weave with a sheen variously coloured, often shot’ (Nunn, 1984, 28).

<sup>146</sup>Gweler bod Cynddelw yn ymffrostio iddo dderbyn gwisgoedd porffor gan ei noddwyr fel arwydd o barch (GCBMi, 13.46). Gweler hefyd Williams, 1964–6, 27–9.

<sup>147</sup>‘Lle y bu ffwr a dillad gwyrdd, lle y bu dillad coch a glas’.

<sup>148</sup>Gweler GGM, cerdd 3.

Roedd dillad y ferch weithiau yn amlygiad symbolaidd o'i rhinweddau eraill, er enghraifft, gwelwn fod ei lliain main yn peri cysylltiad â'i gallu canmoladwy i 'anrhydeddu'r gwir': 'Hael o fywn urael yn euro gwir' (GGM, 5.110).<sup>149</sup> Yn yr un modd yng ngherdd Mab Clochyddyn, mae mantell Gwenhwyfar yn cael ei chrybwyll wrth sôn am ei doethineb: 'Call o'i phall ei phwyll oedd ddoe' (GGrG, 6.37).<sup>150</sup> Byddai cyfeirio at benwisg y ferch hefyd yn amlygiad o fwy nag un rhinwedd ar yr un pryd, a'r dilledyn hwn yn aml yn symbol o statws uchel a phrydferthwch merch (Jones, 2007, 240). Ym marwnad Gruffudd ap Maredudd i Wenhwyfar, dysgw'n ei bod hi wedi ei chladdu yn gwisgo penwisg a oedd wedi'i wneud o aur ('Y tâl dan aur mâl am ael feinir', GGM, 5.106),<sup>151</sup> ac mewn cerdd fawl ganddo i uchelwraig o'r un enw,<sup>152</sup> gwelwn fanylu ar ddefnyddiau'r benwisg er mwyn dyrchafu ei statws fel uchelwraig.<sup>153</sup>

Teg o'm pwyll ofeg (ym pall afael – hun)  
Oedd wenfun hoywlun hael  
A gerais dan frig urael  
Ac aur mâl uwch ei gwrm ael.<sup>154</sup>  
(GGM, 3.21–4)

Gwelir yr un fath o gyfeiriadaeth yn *Culhwch ac Olwen* hefyd:

A'e dyuot hitheu a chamse sidan flamgoch amdanei, a gordtorch rudeur am y mynwgyl y uorwyn, a mererit gwerthfuawr yndi a rud gemmeu.  
(CO, t.18, ll.487–490)

---

<sup>149</sup>Yn fonheddig mewn [gwisg o] liain main yn anrhydeddu[r] gwir'.

<sup>150</sup>'Doeth ei synnwyr yn ei mantell oedd [hi] ddoe'.

<sup>151</sup>'Y talcen dan aur gloyw o amgylch ael y feinir'. Gweler Egan a Pritchard, 1991, 294–5 am y penwisgoedd sy'n dyddio o'r bedwaredd ganrif ar ddeg a ddarganfuwyd yn Llundain a hefyd Bradfield, 1958, 41 a 45. Am drafodaeth lawn ar y gwahanol fathau o benwisgoedd, gweler hefyd 'Atodiad II' yn Jones, 2007, 236–51.

<sup>152</sup>Noder nad yr un Gwenhwyfar sydd o dan sylw. Gweler GGM, cerdd 3.

<sup>153</sup>Am drafodaeth am y defnydd 'urael' gweler Payne, 1939, 11.

<sup>154</sup>'Hardd oherwydd fy ymadrodd doeth (gwan ei afael yw cwsg i mi) / Oedd merch ddisglair brydweddol [a] hael / A gerais dan benwisg o liain main / Ac aur gloyw uwch eo hael[iau] tywyll'.

Gellir dadlau bod gan y cyfeiriadau at y benwisg symboliaeth bellach hefyd, a hynny fel modd i'r beirdd allu moli diweirdeb y ferch drwy gyfeirio ati yn gorchuddio ei phen, fel yr esbonia Alaw Mai Jones:

Yr oedd gwallt rhydd yn cael ei gysylltu â hudwragedd a darlunnir menywod y Beibl oedd â natur ddrwg yn gwisgo eu gwallt yn rhydd megis Efa, Jesabel a Mair Magdalen. Yn ogystal â hyn, anogwyd menywod yr Oesoedd Canol gan ddiwinyddion i guddio eu clustiau. Credai rhai diwinyddion i Fair feichiogi trwy ei chlust, ac felly trwy guddio'r clustiau gallai merch gadw ei gwryfydod...<sup>155</sup>  
(2007, 236–7)

Er bod hwn yn syniad diddorol, tybiaf mai pwysleisio cyfoeth a harddwch y merched yn bennaf yw diben y cyfeiriadau at y penwisgoedd, a bod y syniadau am eu diweirdeb yn amlygu eu hunain yn fwy amlwg drwy ddisgrifio croen gwyn y merched.

Yn wir, y gwisgoedd hyn yw un o'r pethau yr hiraethir fwyaf amdanynt yn y marwnadau i ferched, ac mae'r cyffelybu cyson rhwng y dillad lliwgar a fu gynt a noethni a düwch presennol y bedd yn ddyfais pellach i foli cyfoeth y merched a alerir ac i atgyfnerthu'r golled ar eu hôl:

Lle bu ra a gwyrdd, lle bu rudd – a glas,  
Neud gloes angau gystudd;  
Lle bu aur am ei deurudd,  
Lle bu borffor, côr a'i cudd.

Gwisgwyd hael gwindraul ger gwyndraeth – Cyrchell  
Mwyn carchar glasfedd caeth...<sup>156</sup>  
(GGM, 5.45–51)

---

<sup>155</sup>Gweler cerdd Bedo Brwynllys sy'n dweud bod y benwisg fel sarff am ben y ferch ('A sarff ffons sy ar ei phen' CSTB, XVI.8), fel y mae Jones yn holi: 'A yw'n bosib fod Bedo Brwynllys yn gyfarwydd â'r pregethau diwinyddol am foesoldeb â phenwisgoedd merched fel't wrth ddefnyddio'r trosiad hwn yn chwareus?' (2007, 245).

<sup>156</sup>'Lle y bu ffwr a dillad gwyrdd, lle y bu dillad coch a glas, / Y mae gorthrymder artaith angau; / Lle y bu aur o amgylch ei deurudd, / Lle y bu proffor, cangell [eglwys bellach] sy'n ei gorchuddio. / Gwisgwyd haul a fu'n rhannu gwin ger traeth gwyn [Afon] Cyrchell / Yng ngharchar bedd cynamserol caeth...'

Roedd y cyferbynnu hwn yn elfen gyffredin yn y canu marwnad i ferched yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, er enghraifft, wrth farwnadu Gwenhwyfar o Goedan mae Mab Clochyddyn yn disgrifio’i bedd fel gwisg amdani: ‘Gwisg ryoer uwch gwaisg riain’ (GGrG, 6.8),<sup>157</sup> ac mae Gronw Gyriog hefyd yn defnyddio’r un fath o gyffelybiaeth drwy ddweud bod Gwenhwyfar yn hytrach na gwisgo’r ffwr a’r defnyddiau drud a fu bellach wedi eu gorchuddio gan ddüwch y bedd:

Gro heddiw, maenwiw, a’i medd,  
A gra a wisgoedd ei grudd.  
Rhoed llen gudd uwch grudd...<sup>158</sup>  
(GGrG, 2.31–33)

I grynhoi, mai Gruffudd ap Maredudd yn portreadu Gwenhwyfar o Bentraeth drwy foli ei gallu i gynnal gwleddoedd, ei diweirdeb, ei lleferydd, ei thawelwch a’i moesau, a hyn oll yn rhan o’i ‘doethineb’ ac yn ganlyniad i’w magwraeth uchelwrol. Gwelir hefyd bod ei rhinweddau allanol yn ganolog i’r mawl, a bod ei gwisgoedd, ei gemwaith, ei chorff a’i wynepryd yn cael eu delfrydu. Roedd meddu ar y rhinweddau hyn i gyd yn gwneud Gwenhwyfar o Bentraeth yn deilwng o fod yn un ‘manon ei phryd’ (GGM, 5.78).<sup>159</sup> Prydferthwch allanol y merched yw’r prif rinwedd a folir yng ngwaith Mab Clochyddyn a Gronw Gyriog hefyd, sy’n cryfhau’r ddadl bod y rhinweddau hyn yn rhan annatod o uchelwraig ddelfrydol yn ôl safonau beirdd y cyfnod.

Ond mae rhai rhinweddau a fyddai ar yr olwg gyntaf yn ddisgwyliedig mewn marwnad ar goll ym mhortread Gruffudd ap Maredudd o Gwenhwyfar o Bentraeth. Mewn marwnad, gellid tybio y byddai’r bardd yn cyfeirio at yr etifedd er mwyn cynnig gobraith i’r

---

<sup>157</sup>‘Gwisg oer iawn [bellach sydd] dros ferch hardd’.

<sup>158</sup>‘Gro heddiw, gwiw [ei] maen, sy’n meddu arni, / A ffwr [unwaith] a wisgodd ei grudd. / Rhoddyd gorchudd dros rudd...’.

<sup>159</sup>‘breninesaidd ei gwedd’.



gynulleidfa. Efallai nad oedd gan Gwenhwyfar etifedd, ac mai dyma'r rheswm dros y diffyg cyfeirio hyn, neu, a ellir dadlau nad oedd bod yn llestr i gynhyrchu eitifedd yn ganolog i'r darlun o uchelwraig ddelfrydol yn y cyfnod? Wrth edrych ar farwnadau'r bedwaredd ganrif ar ddeg, ymddengys nad oedd llawer o bwyslais yn cael ei roi ar rôl yr uchelwraig fel un a ddarparai etifedd. Gwelwyd bod y gerdd yn cyd-fynd yn weddol agos â'r hyn a ddywed y *Gramadegau* ynghylch y modd y dylid moli merch, a sylwer hefyd nad yw bod yn fam yn un o'r rhinweddau sy'n cael eu nodi. Os yw'r gerdd hon yn nodweddiadol o gerddi'r cyfnod, ymddengys nad oedd yn gyffredin i gyfeirio at rôl y ferch fel mam ym marwnadau'r bedwaredd ganrif ar ddeg.

### **'Moliant Myfanwy Wraig Goronwy Fychan' gan Rhisiertyn: 'Cerir ei mawrdwf nid er cared'<sup>160</sup>**

Fel y gwelwn o'r teitl, gwraig Goronwy Fychan ap Tudur oedd Myfanwy, ac roedd Rhisiertyn a Sefnyn ymysg y beirdd i foli'r pâr priod hwn.<sup>161</sup> Myfanwy ei hunan yw gwrthrych y gerdd dan sylw, ac er na wyddom fawr ddim am fanylion tras yr uchelwraig,<sup>162</sup> gwelwn o'r cychwyn cyntaf fod y dras fonheddig hon, waeth beth yn union oedd yr achau, yn hollol ganolog i'r darlun ohoni fel uchelwraig ddelfrydol.<sup>163</sup> Cyfeirir droeon yn uniongyrchol at ei magwraeth fonheddig: 'Enwog falch fynog o feilch fonedd' (GS, 5.2).<sup>164</sup> Ystyrid 'balchder' yn un o rinweddau'r wraig ddelfrydol ac yn arwydd o'i thras uchelwrol. Diddorol nodi fan hyn wrth fynd heibio, bod cerdd Gruffudd ap Dafydd ap Tudur i'r 'Ferch Fud' yn pwysleisio balchder fel rhinwedd hefyd unwaith eto yng nghyd-destun tras

<sup>160</sup>GS, 5.17. 'Cerir ei chorff lluniaidd ond nid er mwyn cyflawni pechod'.

<sup>161</sup>Er enghraifft, gweler GS, cerddi 3 a 4.

<sup>162</sup>Gweler Dodd and Williams, 1969, 200 am awgrym yr Athro Glyn Roberts mai merch Iorwerth Ddu ab Ednyfed Gam o'r Pengwern gel Llangollen oedd Myfanwy.

<sup>163</sup>Awgrymir bod cerdd Rhisiertyn i Myfanwy yn dyddio rywbryd cyn marw ei gŵr yn 1382 (GS, t.95).

<sup>164</sup>[Yr] un bendeigaid, urddasol [ac] enwog o dras gwŷr urddasol'.

uchelwrol gan briodoli tawelwch gwrthrych y gerdd i'r balchder hwn hefyd: 'Mud a balch, hil gwalch gweilch nwyf' (GGDT, 4.5).<sup>165</sup> Dadleua Moras mai beirniadaeth sydd gan Gruffudd ap Dafydd ap Tudur yma, gan ei beio am fod yn 'falch';<sup>166</sup> fodd bynnag, gellid dadlau nad cyhuddiad a gawn, ond mawl. Wedi'r cyfan, fel y dengys y dyfyniad uchod o'r gerdd i Myfanwy, mae'n amlwg bod balchder a boneddigrwydd yn cyd-fynd â'i gilydd a'u bod ill dau yn arwyddion o dras uchelwrol. Mae'r fagwraeth fonheddig hon yn arwain y bardd at alw Myfanwy hefyd yn un 'ddi-fai': 'Lluniad diornair llin teyrnedd' (GS, 5.14),<sup>167</sup> sy'n ymdebygu i'r disgrifiad a gawn ohoni gan Sefnyn yn ei gerdd fawl iddi hi a'i gŵr: 'Difai fonedd yw da Fyfanwy' (GS, 3.44),<sup>168</sup> ac sy'n dangos eto bwysigrwydd tras a bonedd fel rhinweddau i'w delfrydu yn nhyb y beirdd.

Mae gallu Myfanwy i ymddiddan yn arwydd pellach o'i chefnidir a'i magwraeth uchelwrol, yn wir, yn ôl y bardd, mae huodledd Myfanwy o ganlyniad i weddeidd-dra ei disgynyddion: 'Cymhendod dafod, etifedd – lwyddiant' (GS, 5.19).<sup>169</sup> Serch hynny, gwelwn fod gan Myfanwy, fel Gwenhwyfar cerdd Gruffudd ap Maredudd, y gallu i benderfynu pryd i ymddiddan a phryd i ymdawelu, oherwydd yma eto delfrydir gallu'r ferch i fod yn gymedrol ac i feddwl cyn siarad. Dysgwn fod y rhinweddau hyn yn arwydd o ddoethineb merch: 'Un ni fwrw ei phwyll yn oferedd' (GS, 5.4);<sup>170</sup> 'Deall aelaw doeth, diell wyled' (GS, 5.32);<sup>171</sup> noder mai yn yr un modd y mola Casnodyn Gwenllïant hefyd: 'Eirgall ddiwall ball, bwyll ogyweg'

---

<sup>165</sup>Yn falch ac yn fud yr wyf yn dy weld, ddisgynnydd arwr [gydag] asbri arwyr'.

<sup>166</sup>Ni ddylai siarad gormod nac ychwaith peidio â siarad digon. Os byddai'n siarad gormod byddai pobl yn meddwl ei bod yn drahaus, ac os na fyddai'n siarad digon byddai pobl yn meddwl ei bod yn falch: cofiwn mai dyma un o gyhuddiadau Gruffudd ap Dafydd ap Tudur o'r 'Ferch Fud' (Moras, 2007, 28).

<sup>167</sup>[Yr un] ddi-fai [ei] ffurf [o] linach brenhinoedd'.

<sup>168</sup>'Di-fai [ei] bonedd yw Myfanwy dda'.

<sup>169</sup>[Un o] iaith huodledd, [achos] ffyniant [ei] disgynyddion'.

<sup>170</sup>'Un nad yw'n cyfeirio ei meddwl at oferedd'.

<sup>171</sup>[Un a chanddi] feddwl rhwydd [a] doeth [a] gwyleidd-dra perffaith'.

(GC, 5.13).<sup>172</sup> Mae'n debyg bod y rhinwedd gymdeithasol hon yn arbennig o bwysig mewn merch ifanc a oedd o bosibl yn ddi-briod hefyd, fel y nododd Llywelyn Brydydd Hoddnant wrth foli Ellylw:<sup>173</sup>

Llefair rhygwblair, ni rhygablaf;  
Lleddf ddiffol ddethol, ddoethaf – o'r gwragedd,  
Llariedd gludfawredd a glodforaf.<sup>174</sup>  
(GLIBH, 3.10–12)

Diau bod y gallu i drin geiriau wrth ymddiddan yn rhan annatod o ddatblygiad pob uchelwraig ifanc ond prin y gellid casglu ei bod hi'n cael cymryd y cam nesaf ar ysgol dysg ac yn cael arweiniad i fyd trin geiriau ysgrifenedig. O'r hyn a ddywedir yn y gerdd fodd bynnag, gellir ystyried y posibilrwydd fod Myfanwy wedi cael ei hyfforddi (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) i werthfawrogi'r modd yr oedd y beirdd yn trin geiriau ac yn hyn o beth mae'r cyfeiriad at lythrennedd Myfanwy yn anghyffredin, ond yn sicr, mae'n arwydd pellach o'i doethineb a'i magwraeth uchelwrol: 'Llythr a ddysgodd bun llathraidd osgedd' (GS, 5.13).<sup>175</sup>

Fodd bynnag, am ba reswm bynnag, roedd Myfanwy wedi cael arweiniad i fyd darllen ac, yn ôl cerdd Rhisierdyn, gallwn gymryd ei bod wedi llawn dyfu i chwarae rhan weithredol yn y broses o gomisiynu beirdd oherwydd cyfeirir nid yn unig ati yn darllen ond hefyd ati hi'n gofyn am gerddi yn aml ('Gofynnai fawlgerdd yn gyfannedd' GS, 5.9).<sup>176</sup> Mae hyn mewn rhywfaint o wrthgyferbyniad â Gwenlliant, sef gwrthrych cerdd fawl gan

---

<sup>172</sup>[Yr un ddoeth dy air [mewn] mantell wych, yn llestair [i] synnwyr'.

<sup>173</sup>Am y dadleuon o ran statws priodasol Ellylw, gweler GLIBH, t. 37–39.

<sup>174</sup>Llefara'n rhwydd iawn ei hymadrodd, ni feiaf [hi]; / [Un] bwyllog synhwyrol [a] chall, y ddoethaf o'r gwragedd, / [Ei] chyfoeth [llawn] haelioni a glodforaf'.

<sup>175</sup>'Dysgodd [y] fun ddisglair [ei] llun lythrennau'. Gweler hefyd Lloyd-Morgan, 1996 a 1998 ac am addysg a llythrennedd merched ym Mhrydain y cyfnod, gweler Meale, 1996a.

<sup>176</sup>'Gofynnai am gerdd fawl yn barhaus'.

Casnodyn, oherwydd er y nodir ei bod hi'n talu'r bardd am ei wasanaeth,<sup>177</sup> gwelwn mai gwrando'n wylaidd ar y cerddi a wnai, ond nid oes awgrym y byddai hi'n medru eu darllen:

Aur mâl a'm bu dâl, dolur atreg – fraw,  
Yn llaw, wyl andaw, gan ail Indeg.<sup>178</sup>  
(GC, 5.15–6)

Mae Myfanwy Rhisierdyn yn llawer mwy beirniadol ei hymagwedd; gwelwn nad unrhyw fath o farddoniaeth y byddai Myfanwy yn ei noddi, oherwydd fe'i gelwir yn: 'Gwasgawd inseilwawd ansalwedd – arfer' (GS, 5.11).<sup>179</sup> Yr awgrym cryf yw nid yn unig bod ganddi allu i werthfawrogi barddoniaeth dda, ond bod ganddi hefyd safonau uchel o ran yr hyn a oedd yn dderbyniol iddi.

Nid dim ond ei gallu i ddeall a gwerthfawrogi cerddi sy'n cael ei foli, ond hefyd ei haelioni tuag at feirdd. Clywsom eisoes y'i gelwir yn: 'Mygr hoywlamp Bowys, magwyr hywledd' (GS, 5.8) ac mae cyfeiriad ati hefyd fel: 'Gwenlwys eurswllt bobl, gwinllys orsedd' (GS, 5.10),<sup>180</sup> delweddau sydd, fel y mae Ann Parry Owen wedi ei nodi, yn cael eu cysylltu fel arfer â dynion (GS, t.95). Er bod y dyfyniad felly yn awgrymu efallai bod y bardd yn gweld Myfanwy fel noddwraig cystal â'i chymar gwrywaidd, gwelwn nad yw hi'n ffigwr hollol gyfartal. Mae'n amlwg bod cyfyngiadau ar ei hannibyniaeth ac ar ei rôl weithredol, oherwydd mae Rhisierdyn hefyd yn awyddus iawn i bwysleisio bod y Myfanwy ddysgedig hon yn gwybod pryd i ymatal a'i bod yn deall pwysigrwydd ymdawelu a choleddu barn

---

<sup>177</sup>'Eiliais erod glod, gloywdeg – Wenlliant, / Eiliawdd dy foliant fil ychwaneg' (GC, 5.3–4) a 'Mynych lle lewylw lliw ehöeg – ym / Man y'm dug gwelwylw ar rym redeg' (GC, 5.31–32): 'Prydais glod erot, Wenlliant ddisglair a hardd, / Prydodd mil yn ychwaneg dy foliant' a 'Yn fynych lle y mae [hi]'n llewyrchu [y daw] i mi [wisgoedd] lliw porffor / Lle y'm cludodd march llwydwyn a buan gan redeg yn rymus'.

<sup>178</sup>'Bu aur gloyw [yn] dâl imi, [achlysur] braw gofid[us a] phoen[us], / Yn [fy] llaw, [un sy'n] gwrando'n dirion [ydyw], gan un debyg i Indeg'.

<sup>179</sup>'Noddwraig barddoniaeth ddilys [ac iddi] arfer [llawn] gweddeiddrwydd'.

<sup>180</sup>'Lusern hardd [a] gwych Powys, noddwraig sy'n darparu gwleddoedd moethus'; '[Un] hardd a theg [y] bobl [sy'n derbyn] rhodd wych, penaethes y llys lle llifa'r gwin'.

ddiduedd: ‘Cu fynogwyp wawr, cyfiawn agwedd’<sup>181</sup> (GS, 5.21). Gwelwn fod y dyfyniad hwn yn cyd-fynd â’r syniad a welir mewn llenyddiaeth Ffrengig sef mai delweddau hardd a mud y dylai’r uchelwragedd fod.<sup>182</sup> Dyma’r union fath o uchelwraig a bortreadir gan Sefnyn wrth iddo foli Angharad wraig Dafydd Fychan, lle y mae’n eglur mai ei swyddogaeth yw bod yn hardd ac yn dawel: ‘Rhiain loyw firain leferydd – gwastad’ (GS, 1.31).<sup>183</sup> Cyfeirir ati hyd yn oed fel ‘addurn wylaidd’, ac nid oes fawr ddim sôn am unrhyw rinweddau eraill:

Braisg addurn difurn, neud ufydd – arfer  
Brenhines haelder, gloywder gwledydd.<sup>184</sup>  
(GS, 1.5–6)

Noder yma eto mai, yn ôl y bardd, canlyniad i’w hachau uchelwrol yw’r gwyleidd-dra hwn: ‘Breniniawl hawl henblaid gannaid gynnydd’<sup>185</sup> (GS, 1.4).

Wedi tafoli rhinweddau personoliaeth Myfanwy, trown yn awr i edrych ar ei hymddangosiad allanol, a gwelwn fod hyd yn oed ei harddwch, yn ôl y bardd, yn deillio o’i thras uchelwrol: ‘Anwylgain firain o fawredd – didwyll’ (GS, 5.3).<sup>186</sup> Gwelwn mai gwelwder a thaldra’r ferch yw’r delfrydau o brydferthwch ac mae’r cyfeiriad at y talcen, fel ym marwnad Gwenhwyfar, yn dangos eto i ni bwysigrwydd y rhan hwn o’r corff o ran penodi statws uchel yr unigolyn:

Mawl i hirwen ddoeth, mil a’i harwedd  
Manon aur hoywdal mywn enrhydedd.<sup>187</sup>  
(GS, 5.5–6)

---

<sup>181</sup>Arglwyddes hardd, urddasol [ac] annwyl, [un] ddiduedd [ei] hagwedd’.

<sup>182</sup>Gweler Cornuälle, 1961–3 a Gaunt, S, 1990, 202–16.

<sup>183</sup>Mercher ddisglair hardd [o] leferydd isel’.

<sup>184</sup>Addurn godidog [ac] amlwg, gwylaidd yw ymddygiad / Brenhines haelioni, disgleirdeb gwledydd’.

<sup>185</sup>Hawl freintiedig hen linach o ffyniant gwych’.

<sup>186</sup>Un hardd, annwyl a phrydferth o wir fawredd’.

<sup>187</sup>Moliant i[’r] un ddoeth, dal a goleubryd, mae mil yn ei gludo [ar led], / [Y] rhiain wych [a] hardd ei thalcen mewn anrhydedd’.

Yn ogystal â bod yn dal ac yn osgeiddig ('Uniawn bill hirddawn' (GS, 5.1)),<sup>188</sup> y mae ei chorff hefyd yn gryf ac yn goeth, sy'n arwain y beirdd i feddwi yn ei phrydferthwch a'i bonedd: '(Claer aur freisg-gorff llathr) clêr ar frwysgedd' (GS, 5.24).<sup>189</sup> Mae'r cyfeiriadau tebyg at fedd-dod y beirdd oherwydd harddwch uchelwraig yn dra chyffredin yn y bedwaredd ganrif ar ddeg.<sup>190</sup> Yn ogystal â hyn, gwelwn Rhisierdyn yn datgan motiff cyffredin arall wrth iddo nodi bod Myfanwy yn peri iddo wylo'n drwm oherwydd diffyg cwsg yn meddwl amdani: 'dianhunedd – ddeigr' (GS, 5.35).<sup>191</sup> Yr un yw cwyn Casnodyn wrth foli Gwenlliant:

Ar hoywlun ludd hun, hoen gwenfaneg – maen  
Pan wisg ton frwysgflaen gaen am garreg.<sup>192</sup>  
(GC, 5.11–12)

Mwyn forwyn hunddwyn, hoenddygn gysteg;<sup>193</sup>  
(GC, 5.30)

Rhaid oedi yma i nodi ein bod yn y dyfyniadau uchod yn tramwyo ar dir ffiniol rhwng genre y canu mawl a'r canu serch. Yn y cyfnod hwn, mae'r canolbwyntio ar nodweddion personol megis diffyg cwsg o ganlyniad i effaith harddwch merch wedi cael eu diffinio fel rhan o'r canu mawl, ond mewn ysgrifennu ychydig yn ddiweddarach dysgwn fod yr ysgolheigion yn cyfrif cyfeiriadau o'r fath fel rhai nodweddiadol o *genre*'r canu serch.<sup>194</sup> Yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, un o rinweddau'r ferch ddelfrydol oedd sbarduno cariad ac ystyrid ysbrydoli teimlad o'r fath yn destun mawl. Hynny yw, er bod Casnodyn yn galw

<sup>188</sup>[Y] ferch luniaidd, unionsyth, faith ei rhodd'.

<sup>189</sup>'([Yr un a chanddi] gorff cryf, disglair, coeth [a] hyglood), [sef y] beirdd mewn medd-dod'.

<sup>190</sup>Testun ymchwil pellach fyddai ymchwilio i'r gwahanol fotiffs yma.

<sup>191</sup>'[yn achosi] dagrau [o ganlyniad i] ddiffyg cwsg ofnadwy'.

<sup>192</sup>'At un brydferth [sy'n] rhwystr[o] cwsg [imi], [un o] liw ton wen [yn llifo dros] faen / Pan wisg ton flaenwyllt orchudd am garreg'.

<sup>193</sup>'Morwyn fwyn sy'n dwyn cwsg [oddi arnaf], cystudd [sy'n achos] cyfyngiad ar lawenydd'.

<sup>194</sup>

Gwenlliant yn 'gofion gofeg' (GC, 5.34),<sup>195</sup> ac yn nodi ei fod yn methu cysgu oherwydd ei phrydferthwch ac yn y blaen, y mae hefyd yn gofyn i Dduw ryddhau ei gŵr, a oedd wedi ei garcharu.<sup>196</sup> Gwelwn nad oes gan y bardd fwriad rhamantus, ond yn hytrach ei fod yn moli rhinweddau o'r fath fel rhan dderbyniol o gonfensiynau y llys. Wrth ddychwelyd at brif destun ein hastudiaeth achos yn yr adran hon, cofier er y cyfeirir at Myfanwy fel gwrthrych serch, y mae'r bardd yn mynnu mai oherwydd eu moesau a'u boneddigrwydd y mola hi ac nid oherwydd unrhyw deimlad cariadus o ran y bardd: 'Cerir ei mawrdwf nid er cared' (GS, 5.17).<sup>197</sup>

Er na cheir cyfeiriadau uniongyrchol at ddiweirdeb Myfanwy, gellir dehongli'r cyfeiriadau at ei gwelwder a'i phurdeb (megis 'gwiwryw eurgroyw' GS, 5.36),<sup>198</sup> a'r ffaith bod y bardd yn datgan nad yw'n ei moli fel gwrthrych serch, fel cyfeiriadau at ei ffyddlondeb a'i diweirdeb. Yn wir, mae cyfeirio at boenau'r beirdd fel hyn yn ffordd gynnil o ddefnyddu ffyddlondeb y merched tuag at eu gwŷr, fel y gwelwn yng ngherdd Llywelyn Brydydd Hoddnant i Ellylw. Er na wyddom a oedd Ellylw yn briod adeg canu'r gerdd hon, mae'r cyfeiriad ati fel un a oedd yn gwrthod holl ymdrechion y bardd yn delfrydu ei rhinweddau fel merch ddiwair a ffyddlon. Gwelwn fod y bardd yn nodi mai ynfyrwydd yw ceisio merch fel hon: 'Lledfryd yw gofyn dyn diweiraf' (GLIBH, 3.25).<sup>199</sup> Cesglir felly drwy ganu am y merched fel rhai a oedd yn achosi diffyg cwsg a phoen i'r beirdd, fod y beirdd yn eu portreadu fel gwragedd delfrydol ac nid fel gwrthrychau serch.<sup>200</sup>

---

<sup>195</sup>[testun] meddyliau serch[og]'.

<sup>196</sup>'Arglwydd Culwydd rhwydd, Rhwyf Gröeg – rhuglchwyrn, / Ellwng o heyrn y teyrn teg' (GC, 5.19–20).

<sup>197</sup>'Cerir ei chorff lluniaidd ond nid er mwyn cyflawni pechod'.

<sup>198</sup>'gwych a phur'.

<sup>199</sup>'Ynfydrewydd yw ceisio[r] ferch buraf'.

<sup>200</sup>Fel y mae Moras wedi dadlau yng nghyd-destun lleferydd y ferch, mae cwynion y beirdd yn 'cynnal ac nid yn bygwth y drefn' (Moras, 2007, 21). Gweler hefyd: 'Gwiw yw diffinio'n gadarnhaol drwy fod yn negyddol' (Jones, 2000, 32).

Wrth fwrw trem yn ôl gwelwn mai'r rhinwedd amlycaf yn y modd y delfryda Rhisierdyn Myfanwy yw'r ffaith ei bod hi'n hanu o deulu uchelwrol. Gellid olrhain yr holl rinweddau eraill yn ôl i'r un ffaith hon. Oherwydd ei magwraeth, y mae hi'n ddoeth, yn gymedrol, yn dawel, yn hardd a gosgeiddig, yn arddangos moesau da, ac yn y cyd-destun arbennig hwn, yn llythrennog. Canlyniad yr holl rinweddau hyn yw gwneud Myfanwy'n gymar delfrydol i'w gŵr. Hi yw 'goludog gymar... Goronwy Fychan, gwron fuchedd' (GS, 5.33–4) ac yn un sy'n haeddu'r teitl o fod yn 'gymar hy ener' (GS, 5.12).<sup>201</sup>

Yma hefyd, fel gyda'r farwnad a drafodwyd ar ddechrau'r bennod, ceir tystiolaeth bod cerddi'r bedwaredd ganrif ar ddeg i ferched yn eu delfrydu yn unol â'r hyn a welir yn y *Gramadegau*. Fodd bynnag, er bod diweirdeb yn cael lle amlwg yn y *Gramadegau*, nid oes sôn canolog am y ddelfryd hon yn y cerddi, a rhaid chwilio amdani am ei bod yng nghudd mewn cyfeiriadau cynnil. Nid oes sôn ychwaith am ddyletswydd y ferch i gynhyrchu etifedd gwrywaidd yn y cerddi nac o ran hynny yn y *Gramadegau*; yn wir, mae'r unig gyfeiriadaeth bosibl at etifedd yn yr astudiaethau achos uchod yn fwy tebygol o fod yn sôn am ferch yn hytrach na mab wrth i farwnad Gwenhwyfar ddatgan: 'Heb ennill ei chyfryw' (GGM, 5.2),<sup>202</sup> gan awgrymu bod y bardd mewn gwewyr am nad oes etifeddiaeth fenywaidd wedi dod ohoni, ac felly nad oes neb i barhau â safonau a dyletswyddau'r ferch ddelfrydol hon. Er nad yw'r beirdd yn delfrydu'r merched fel mamau, maent yn sicr yn eu delfrydu fel gwragedd ffyddlon sy'n meddu ar holl rinweddau disgwylidig uchelwraig.

---

<sup>201</sup>Gymhares oludog, [un] hael, wâr [a] disglair fel yr haul, / Goronwy Fychan, [un ac iddo] ymarweddiad arwr'; 'Cymhares arglwydd dewr'.

<sup>202</sup>[A ninnau] heb gael neb tebyg iddi [yn ei lle].



Wedi edrych ar gerddi mawl y bedwaredd ganrif ar ddeg, trown ein golygon at ganu'r bymthegfed ganrif er mwyn gweld beth yw'r delfrydau a folid ymysg merched uchelwrol y ganrif honno. Os oedd ein tystiolaeth a'n gwybodaeth hanesyddol o ran cefndir y cerddi i ferched yn y bedwaredd ganrif ar ddeg yn brin, yr un yw'r sefyllfa yn aml yn y bymthegfed ganrif. Serch hynny, mae'r ddwy gerdd a astudir o'r cyfnod hwn yn rhai lle gellir casglu rhywfaint o'r cefndir hanesyddol, yn wir, fel yr esboniwyd, dyma yn rhannol pam y'u dewiswyd. Wrth gydnabod nad yw'r cefndir hanesyddol ynddo'i hunan yn allweddol i'n dealltwriaeth o bortread y ferch yn y cerddi, gellir gweld ei fod yn taflu rhywfaint o oleuni gwerthfawr ar y mater. Ar y naill law, mae'r cefndir yn ein cynorthwyo i ddeall beth oedd cymhelliant y beirdd wrth lunio'r cerddi, ac ar y llaw arall, mae'r ffeithiau cadarn am achau'r gwragedd yn dangos nad gor-ddweud oedd y beirdd o leiaf wrth sôn am foneddigrwydd tras y merched a oedd yn wrthrych i'w canu.

Fel y nodwyd eisoes, cerdd gan Guto'r Glyn i'r Iarlles Ann yw un o'r astudiaethau achos ([gutorglyn.net](http://gutorglyn.net), 26) a cherdd gan Lewys Glyn Cothi i fam-yng-nghyfraith Ann, sef Gwladus ferch Dafydd Gam, yw'r llall (GLGC, 110). Yn wahanol i Gwenhwyfar a Myfanwy, gwyddom fod y ddwy wraig hon wedi cyfoesi, a diddorol nodi'r berthynas rhyngddynt. Gwyddom hefyd fod Gwladus wedi gweld o leiaf chwe blynedd o briodas ei mab Wiliam i'r Iarlles Ann. Edrychwn ar y cerddi yn eu trefn gronolegol, gan ddechrau gyda marwnad Gwladus ferch Dafydd Gam.

## **‘Marwnad Gwladus ferch Syr Dafydd Gam’ gan Lewys Glyn Cothi: ‘O hon y cawn frenhinwaed’<sup>203</sup>**

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd teulu Gwladus. Roedd ei thad, Dafydd Gam, yn ddisgynydd o deulu llewyrchus iawn ac yn bennaeth ar un o deuluoedd cyfoethocaf arglwyddiaeth Brycheiniog,<sup>204</sup> er iddo ef a’i deulu dalu’n ddrud o ganlyniad i’w safiad yn ystod rhyfel Glyndŵr (Tout, 2008). Priododd ei ferch, Gwladus, â’i gyfaill Rhosier Fychan o Frodorrdyn, gŵr dylanwadol arall o deulu pwysig iawn.<sup>205</sup> Ganwyd tri o blant iddynt, sef Watcyn, Tomas a Rhosier Fychan, cyn i’w gŵr a’i thad gael eu lladd ym mrwydr Agincourt yn 1415. Ail-briododd Gwladus â Syr Wiliam ap Tomas o Raglan, a ganwyd Wiliam a Rhisiart Herbert o’r briodas honno, dau ŵr pwysig a thu hwnt o ddylanwadol adeg Rhyfeloedd y Rhosynnau (Griffiths, 2004). Er mai Lancastriad oedd Syr Rhosier Fychan, bu ei blant a’u hanner brodyr, Wiliam a Risiart, yn brwydro’n gryf dros achos yr Iorciaid.

Heb os, bu meibion Gwladus oll yn llwyddiannus a dylanwadol, ond ni ellir gwadu nad Wiliam Herbert oedd y pwysicaf. Priododd Wiliam ag Ann Devereux, chwaer ei gyfaill a’i gyd-filwr ar faes y gad, Walter Devereux, yn 1449, a ganwyd mab iddynt (Wiliam Herbert arall) yn 1455.<sup>206</sup> Fel y mae Dafydd Johnston wedi ei nodi, Herbert oedd y Cymro cyntaf i esgyn i reng uchaf y Cyngor Brenhinol yn Lloegr,<sup>207</sup> ac erbyn 1461 roedd Edward IV yn dibynnu’n drwm iawn arno (GLGC, t.578). Yn ystod y flwyddyn honno, cipiodd Herbert

---

<sup>203</sup>GLGC, 110.21.

<sup>204</sup>‘They were clearly the premier and wealthiest Welsh family of the lordship and are a striking example of a native family that flourished under the rule of an English aristocratic family’ (Tout, T., ‘Dafydd Gam (d. 1415)’, *Oxford Dictionary of National Biography*. [Ar-lein: 2008]. Ar gael: <http://www.oxforddnb.com/view/article/10318> [Gwelwyd: 13 Medi 2011].

<sup>205</sup>Gweler Davies, R.R. ‘Dafydd Gam (d. 1415)’, *Oxford Dictionary of National Biography*. [Ar-lein: 2008]. Ar gael: <http://www.oxforddnb.com/view/article/10318> [Gwelwyd: 13 Medi 2011]. Gweler hefyd Griffiths, R., ‘Vaughan family (per. c. 1400 – c. 1504)’, *Oxford Dictionary of National Biography*. [Ar-lein: 2004]. Ar gael o: <http://www.oxforddnb.com/view/article/48656> [Gwelwyd: 13 Medi 2011].

<sup>206</sup>Griffiths, R. 2008. ‘Herbert, William, first earl of Pembroke (c.1423–1469)’, *Oxford Dictionary of National Biography*. [Ar-lein]. Ar gael: <http://www.oxforddnb.com/view/article/13053> [Gwelwyd: 17 Medi 2011].

<sup>207</sup>Gweler GLGC, 112 am enghraifft o gerdd i Wiliam Herbet.

Gastell Penfro, gan dalu £1000 am warchodaeth a phriodas Harri Tudur, Iarll Richmond, a oedd yn bedair mlwydd oed ar y pryd (sef Harri'r VII, y gŵr a fyddai'n dod yn frenin ar Gymru a Lloegr ym 1485), a'i roi yntau yn ogystal â'i fam, Margaret Beaufort, yng ngofal ei wraig Ann yn Rhaglan.<sup>208</sup>

Er i Gwladus farw ym 1454, yn sicr, fel y mae Johnston yn nodi: 'Ni cheir yr argraff fod y bardd yn ymateb i farwolaeth a oedd newydd ddigwydd' (GLGC, t.577), ac mae hynny yn bennaf oherwydd nad oes braidd dim sôn am alar a cholled. Yn wir, ceir ymdeimlad o orfoledd yn y gerdd hon. Oherwydd y cysylltiad teuluol rhwng Edward IV a Gwladus mae Dafydd Johnston yn mentro dyddio'r gerdd tua 1461, gan awgrymu hynny drwy holi: ai wedi i Edward IV ddod i'r orsedd ym mis Mawrth 1461 ac o ganlyniad i ddyrchafiad Wiliam Herbert i fod yn Brif Ustus a Siambrlain de Cymru am oes ym Mai 1461 y canwyd y farwnad hon i Gwladus ferch Syr Dafydd Gam?<sup>209</sup> Gyda hyn o eiriau cefndirol, trown yn awr i edrych ar ba rinweddau a folir gan Lewys Glyn Cothi yn y farwnad hon.

Gwelwn mai prif rinwedd yr uchelwraig hon heb os yw ei rôl fel mam, ac fe'n hatgoffir bod hyn yn wahanol iawn i'r cyfnod blaenorol lle nad oedd Rhisierdyn na Gruffudd ap Maredudd yn cyfeirio o gwbl at y ferch fel mam. Mae Lewys Glyn Cothi fodd bynnag yn talu sylw mawr i Gwladus y fam:

O hon y cawn frenhinwaed  
a ieirll Gwent eurlliw o'i gwaed.  
(GLGC, 110.21–2)

---

<sup>208</sup>Ar Margaret Beaufort, gweler: Jones, M. 2004. 'Beaufort, Margaret, countess of Richmond and Derby (1443–1509)', *Oxford Dictionary of National Biography*. [Ar-lein]. Ar gael: <http://www.oxforddnb.com/view/article/1863> [Gwelwyd: 13 Medi 2011].

<sup>209</sup>Gweler y nodiadau yn GLGC ar gerddi 110 a 112.

Y mae'i meibion hirion hi  
i roi gwleddau'n arglwyddi.  
(GLGC, 110.13–14)

Rhinwedd arall amlwg yw tras bonheddig Gwladus:

Gwladus lwyddiannus ddinam  
oedd o gorff Syr Dafydd Gam.  
(GLGC, 110.3–4)

Arglwyddes a santes oedd,  
o'r hen arglwyddi'r hanoedd.  
(GLGC, 110.11–2)

Fodd bynnag, o fod wedi rhoi'r pwyslais ar rôl y ferch fel mam, rhaid troedio'n ofalus wrth geisio dehongli'r moliant a offrymir i'r ferch, yn enwedig y cyfeiriadau at ei hachau a'i thras bonheddig, oherwydd gellid dadlau mai cadarnhad o achau uchelwrol ei mab ydyw. Yn wir, o gofio sefyllfa Wiliam Herbert yng nghyfnod cyfansoddi'r gerdd, gellir deall pam fod y bardd yn teimlo'r angen i roi pwyslais mor amlwg ar lwyddiant etifedd gwrywaidd Gwladus, ac mai dathlu llwyddiant Wiliam Herbert yw pennaf amcan y gerdd ac mai cerbyd i gyrchu'r nod hwnnw yw'r mawl i rinweddau ei fam.

Yn ogystal â moli ei llinach ac awgrymu fod ganddi rôl bwysig o ran llewyrch ei mab, molir hefyd dduwioldeb Gwladus:

Galw ar Iesu tra fu fyw,  
ac ar y Grog a oryw.  
(GLGC, 110.9–10)

Yma eto, mae cyswllt rhwng y rhiwedd hon yn y fam a'i heffaith ar y meibion. Yn wir, mae'r syniad o'r meibion yn mwynhau bywyd tragwyddol o ganlyniad i weithredoedd crefyddol eu mamau yn un cyffredin yng ngherddi'r bymthegfed ganrif, fel y gwelwn yn y gerdd o fawl gan yr un bardd i Edudful:

Edudful bob Sul y sydd  
yn galw o sant i'w gilydd,  
a'i meibion draw yn llawen  
am ei gweddi hi fydd hen.  
(GLGC, 168.53–6)

Roedd y ferch ddelfrydol felly yn ymddwyn fel eiriolwraig dros ei theulu, ac yn eu hamddiffyn drwy ei gweddiâu, yn union fel y byddai eu tadau yn eu hamddiffyn ar faes y gad.

Rhinwedd arall i'w moli yw doethineb, ond unwaith eto, molir doethineb Gwladus mewn perthynas â sefyllfa ei mab. O ystyried rôl Wiliam Herbert yn y gymdeithas fel un a oedd yn cadw trefn yng Nghymru, mae'n arwyddocaol fod y bardd, wrth foli doethineb Gwladus, yn datgan:

Marsia gynt, Gymraes gall,  
ar ddwyiaith a rôl ddeall.

Gwladus, a hi'n gweled saint,  
oedd ail hon i ddaly henaint.  
(GLGC, 110.15–16; 19–20)

O gofio'r hyn a ddywedir am Marsia yn y *Brut*: 'ar wreic honno oe hethrylithr a dechymygwys kyfreith a alwei y brytanyeit kyfreit[h] Marchia. Ar gyfreith honno a droes aluryt vrenhin o gymraec yn saesnec' (Rhÿs, 1890, 79), awgryma'r bardd drwy'r cyfeiriad anghyffredin hwn bod rhinweddau Wiliam Herbert o ran ei allu i gadw trefn ac i reoli'n deg, yn rhai sy'n tarddu o linach uchelwrol ei fam.

Yn wahanol i'r ddwy astudiaeth achos o'r bedwaredd ganrif ar ddeg a drafodwyd eisoes, yn y gerdd i Gwladus, daw'n amlwg nad yw'r bardd yn ymgolli yn y canu am rinweddau'r ferch i'r un graddau. Ni chyfeirir at ei gwisg na'i golwg, na'i gallu i ymddiddan

na chwaith at ei haelioni. Yn wahanol i Gruffudd ap Maredudd, nid yw Lewys Glyn Cothi'n ymgolli chwaith mewn galar yma; yn hytrach, mae'n treulio mwy o amser yn rhoi disgrifiad manwl o'i beddrod.<sup>210</sup> Mae hyn yn peri i ni ofyn y cwestiwn ai cerdd wedi'i chomisiynu ar gyfer dadorchuddio'r bedd yw'r gerdd hon felly, a modd i amlygu cyfoeth Wiliam Herbert yn sgil hynodrwydd y bedd hwn yn fwy na cherdd o fawl i Gwladus? Wedi'r cyfan, mae'r disgrifiad o'r bedd yn hawlio lle blaenllaw yn y gerdd, ac mae'r cyfeirio at wrthrychau gwrywaidd sydd arno megis cledd Pandrasus, tad-yng-nghyfraith Brutus, yn caniatáu i'r bardd amlygu'r syniad o hawl Wiliam Herbert i reoli'r wlad. Gweler yr un llinell ar bymtheg isod o'r cywydd yn cael eu neilltuo ar gyfer disgrifio'r bedd:

Yn seren ar ben y bedd  
y rhoed i gadw'r anrhydedd  
maes glas fal cledd Pandrasus  
a llew lir â'r liw o lus.  
O gylch y tŵr yn gylch teg  
Duw a oedd, ef a'r deuddeg;  
englynion gwynion o'i gylch  
a drig bob dri o'i gylch.  
Organau oll hyd frig nef  
ag arianllais, gôr unllaf;  
mil o dyrs amlw o dân,  
mil eraill aml o arian;  
mwy no mil o feudwyaid  
dan gŵyr bob deunaw a gaid;  
yn nesaf mae deunawsaint  
yn bwrw naw sens gerbron saint.  
(GLGC, 110.43–58)

Ar ddiwedd y gerdd, mae'n arwyddocaol fod y bardd yn cyfeirio eto at olyniaeth Gwladus yn hytrach nag at Gwladus ei hunan, wrth gyrraedd pinacl y disgrifiad o'r bedd gan awgrymu y bydd un o feibion Gwladus ryw ddydd yn dywysog ar Gymru:

---

<sup>210</sup>Am ddisgrifiad llawn o'r beddrod gwelir Morgan, 1872, 41–56.

Main beril cylch Syr Wiliam  
oedd fedd gwyn merch Dafydd Gam.  
Dau a wnaeth i'r deau nawdd,  
Duw Iesu a'u dewisawdd,  
ac o'u rhyw'n benáig yrhawg  
y dewiswn dywysawg.  
(GLGC, 110.59-64)

Yn y gerdd orfoleddus hon felly, cana'r bardd am dduwioledeb Gwladus, ei chyfoeth a'i thras a gwelir mai ffrwythlondeb Gwladus yw'r rhinwedd a folir fwyaf, gan ganmol y ffaith iddi sicrhau etifeddiaeth gwrywaidd. Naws tra gwahanol a geir yng ngherdd Guto'r Glyn i'r Iarlles Ann, gwraig Wiliam Herbert, yr hwn a fuasai yn ôl Lewys Glyn Cothi yn dywysog Cymru. Cyfansoddwyd y gerdd hon wedi marwolaeth Wiliam yn 1469, tua wyth mlynedd yn ddiweddarach na cherdd Lewys.

**'Cysuro Ann Hebert, Iarlles Penro, ar ôl marwolaeth ei gŵr' gan Guto'r Glyn:  
'Ymherodr yma hirwyn, / Ail ei mab fo Wiliam yn'<sup>211</sup>**

Yn ystod y cyfnod rhwng cyfansoddi'r gerdd flaenorol yn 1461 a marwolaeth Herbert ym 1469, profodd y teulu lewyrch a oedd hyd yn oed yn ddisgleiriach na'r hyn a fu'n gyd-destun i'r gerdd flaenorol. Er enghraifft, ym 1468 gwnaethpwyd Herbert yn Iarll Penfro (teitl a fu gynt gan Siaspar Tudur, ewythr Harri Tudur), ac ef hefyd oedd naill ai arglwydd neu brif swyddog y rhan fwyaf o siroedd Cymru a'r Mers. At hyn, roedd ganddo incwm o tua £32,000 – £33,000 y flwyddyn. Fodd bynnag, ym mrwydr Banbri ar 26 Gorffennaf 1469, cipiwyd Wiliam Herbert a'i frawd gan Iarll Warwick, ac fe'u dienyddiwyd. Cyn ei lofruddiaeth, fe orchynnodd William Herbert i'w wraig drefnu dyweddïo eu merch Maud â

---

<sup>211</sup> gutorglyn.net, 26.65–6.

Harri Tudur, Iarll Richmond, a oedd (fel y nodwyd eisoes) yng ngofal Ann, oherwydd y byddai hyn yn cysylltu ei deulu ef â llinach Edward III.<sup>212</sup>

Roedd y pwysau o orfod ymwneud â phenderfyniadau fel hyn yn ogystal â gorfod delio â marwolaeth Wiliam yn gadael Ann mewn sefyllfa anodd iawn. Mae'n debyg i'w brawd, Walter Devereux, gynnig amddiffynfa iddi hi, ei phlant, a'r rhai yr oedd hi'n gofalu amdanynt (Harri Tudur a Harri Percy) yn Weblai, ac mae'n debyg iddi gadw Harri Tudur gyda hi yn llys ei brawd hyd y daeth Harri'r VI yn ôl i'r frenhiniaeth ym 1470 pan drosglwyddodd hi ef yn ôl i'w ewythr, Siaspar Tudur.<sup>213</sup> Nid oedd ei mab hynaf, Wiliam, ond pedair blwydd ar ddeg ym 1469, ac yn gorfod ceisio llenwi esgidiau enfawr ei dad wrth ochr ei ewythr, mewn cymdeithas a oedd, a dweud y lleiaf, yn gymhleth o ran ei gwleidyddiaeth a'i strwythur. Mae'n sicr y byddai'r holl elfennau hyn yn destun pryder a phoen meddwl i Ann. Rywbryd yn ystod y cyfnod cythryblus hwn y canodd Guto'r Glyn ei gerdd iddi. Cawn yr argraff fod y bardd drwy foli'r Iarlles yn ceisio ei darbwylllo o'i gallu i ail-godi'r llewyrch a fu, ac yn ceisio ei sicrhau bod ganddi'r rhinweddau angenrheidiol i gyflawni hynny.

Dechreuau'r bardd ar y gwaith o foli Ann drwy osod cynsail benywaidd arbennig i'r gerdd o'r cychwyn cyntaf. Try sylw'r gwrthrych at Eyllt, ferch y brenin Cynan, ac mae hyn yn arwyddocaol. Daw'n amlwg fod y bardd yn gweld tebygrwydd rhwng sefyllfa Ann ac Eyllt, ac mae'n atgoffa Ann sut y daeth mab Eyllt, Merfyn Frych, yn ôl i'r orsedd er i deulu

---

<sup>212</sup>Griffiths, R. 2008. 'Herbert, William, first earl of Pembroke (c.1423–1469)', *Oxford Dictionary of National Biography*. [Ar-lein]. Ar gael: <http://www.oxforddnb.com/view/article/13053> [Gwelwyd: 17 Medi 2011]. Gweler hefyd: Gunn, S. 2008. 'Henry VII (1457–1509)', *Oxford Dictionary of National Biography*. [Ar-lein]. Ar gael: <http://www.oxforddnb.com/view/article/12954> [Gwelwyd: 13 Medi 2011].

<sup>213</sup>Gweler: Griffiths, R. A. 2008. 'Devereux, Walter, first Baron Ferrers of Chartley (c. 1432–1485)', *Oxford Dictionary of National Biography*. [Ar-lein]. Ar gael: <http://www.oxforddnb.com/view/article/50222> [Gwelwyd: 13 Medi 2011]. Gweler hefyd: Thomas, R. S. 2008. 'Tudor, Jasper, duke of Bedford (c. 1431–1495)', *Oxford Dictionary of National Biography*. [Ar-lein]. Ar gael: <http://www.oxforddnb.com/view/article/27796> [Gwelwyd: 13 Medi].



Esyllt golli'r frenhiniaeth, a hynny yn llwyddiannus iawn; wedi'r cyfan, Merfyn oedd y cyntaf o ail linach brenhinoedd Gwynedd, ac ef oedd tad Rhodri Mawr (Thornton, 2004). Mae'n esiampI nodedig i Ann, oherwydd adennillodd Merfyn y frenhiniaeth nid trwy linach y tad, ond trwy linach y fam, sef llinach Esyllt ei hunan. Dyma roi statws arbennig i dras y ferch felly yn y llinell agoriadol a rhoi pwyslais hefyd ar rôl weithredol y ferch yn hanes gwleidyddiaeth y wlad, gan awgrymu ei fod ef yn ffyddiog yng ngallu Ann i barhau â mawredd ei gŵr; mae sylw at rôl weithredol fel hon yn anarferol iawn:

Gynt y rhoed yn gynta' rhan  
Gwynedd yn llaw ferch Gynan,  
Ac unrhodd fu am ganrhent  
Gwraig wedi'i gŵr i gadw Gwent.  
(gutorglyn.net, 26.1–4)

Cyfeirir at gartref Ann yn Weblai, ac fe fanteisir ar y cyfle i dynnu cynsail benywaidd arall at sylw'r Iarlles. Yma, cymhara'r bardd hi â Sibyl, y ferch ddoeth yn chwedloniaeth Rhufain:

Ail Sibyl, o lys Weblai,  
Ddoeth, deg, bendith Dduw i'th dai!  
(gutorglyn.net, 26.7–8)

Mae Guto'n parhau â'r cyfeiriadau pwrpasol hyn at ferched eraill drwy gydol y gerdd. Er enghraifft, wrth foli Ann am ymddwyn yn bwrpasol yn y broses o alaru, cyfeirir at ferched galarus eraill – merched chwedlonol megis Esyllt a fyddai'n pwysleisio'r cwlwm a fu rhwng Ann a'i gŵr a hefyd merched a oedd yn cyd-oesi â hi megis Elisabeth gwraig Edward IV. O gofio y dienyddiwyd tad Elisabeth hithau wedi brwydr Banbri, fe fyddai cyfeiriad ati hi yn fodd o gysuro Ann drwy ei hatgoffa fod merched eraill hefyd yn profi'r un fath o deimladau. Er bod topos y ferch alarus yn boblogaidd yn yr Oesoedd Canol,<sup>214</sup> ni ellir llai na themlo bod

---

<sup>214</sup>Er enghraifft: 'Elen Gethin fu'n wylaw / Ddefni gw lith yn ddafnau glaw' (GLGC, 124.41–2). Gweler hefyd ymateb yr Iarlles yn Chwedl Iarlles y Ffynnon yn wylaw wedi i Owain ladd ei gŵr (y marchog du): 'A ryued oed na bei yssic penneu y bysed rac dyckynet y maedei y dwylaw y gyt... Ac uch oed y diaspat noca oed o dyn a chorn yn y llu', Thomson, 1986, 14; Davies, 2007, 116–38; Jones, 1960.

dewis Guto'r Glyn o'r merched galarus yn bwrpasol yma, ac yn cynnig cysur i'r Iarlles drwy ei gosod yn olyniaeth y galarwragedd dewr hyn:

Esyllt dristwyllt am Drystan  
Wedi dy ŵr ydwyd, Ann,  
Martha irder merthyrdawd,  
Mair brudd wedi marw ei brawd,  
Anhunedd y frenhines  
Am ei thad, liw Mai a thes.  
(gutorglyn.net, 26.31–36)

At hyn, yn debyg i'r farwnad i Gwladus, ond yn anhebyg i'r ddwy gerdd a drafodwyd o'r ganrif flaenorol, delfrydir yn gyson y ffaith fod Ann yn fam, ac yn un a oedd wedi sicrhau etifedd gwrywaidd i'w gŵr. Yn hyn o beth, dyrchefir Ann droeon yn ystod y gerdd drwy ei gosod hi ochr yn ochr â mamau i ddynion pwysig ac enwog eraill, megis Elen fam Cystennin a ddarganfyddodd y Groes:

*Saint Ann* y'th alwan i'th iaith,  
*Sant Elen* dros Went eilwaith.  
Elen oedd fam Gwstennin,  
A'i mab, traws a fu 'mhob trin.  
Mam Iarll Wiliam ieirll aelwyd.  
Ac Elen wych Raglan wŷd;  
(gutorglyn.net, 26.55-60)

Ffordd arall o ddelfrydu mamolaeth Ann yw'r cyfeiriad at y santes Non, santes a oedd yn boblogaidd iawn ymysg beirdd y cyfnod wrth drafod ffrwythlondeb a gallu'r ferch i gynhyrchu etifedd.<sup>215</sup> Roedd cyfeirio at y santesau, ac yn wir, ddirchafu Ann i statws santes fel y gwelir yn y dyfyniad uchod, yn ffordd gyfarwydd o ddelfrydu diweirdeb, duwioldeb a ffyddlondeb hefyd.

---

<sup>215</sup>Gweler Farmer, 1978, Henken, 1987, 156–60 a Baring-Gould, 1913, 24 am gapel Non a'i ffynnon. Gweler GLGC, 168 am bererindod Eduful i eglwys Non. Gweler hefyd 'Awdl i Dduw' Dafydd Llwyd o Fathafarn sy'n datgan bod y santes hon yn 'ddiwair-feichiog' (GDLI, 13.5). Cymharer hyn â disgrifiad Iorwerth Fynglwyd o'r Forwyn Fair yn 'feichiog heb ddim afiechyd' (GIF, 44.32). Ar y ffynhonnau yng nghanu'r Cywyddwyr gweler Daniel, 2001, 65–81 a Jones, 1997, ac am gwlt y Forwyn Fair gweler Cartwright, 1999 a 2008 a Roberts, 1961.

Mae'n debyg mai un o'r cerddi cynharaf sy'n cydnabod rôl yr uchelwraig fel mam yw cerdd gan Iolo Goch, a hynny ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg. Fodd bynnag, nid ystyrid y rôl fel rhinwedd arbennig i'w moli yng nghyfnod Iolo. Sylwn yn y llinell isod fod y rhagenw yn dangos bod yr etifedd yn cael ei weld fel mab i'w dad yn hytrach na mab i'w fam, ac er y cydnabyddir presenoldeb y fam, at y gŵr y mae'n cyfeirio wrth sôn am barhad y llinach (LIYU, 181):

Merch eglur llin marchoglyw,  
Urddol hael anianol yw:  
A'i blant a ddeuant bob ddau,  
Nythaid teg o benaethau.  
(GIG X.81–6)

Ond yma, yng ngherdd Guto'r Glyn, mae'r pwyslais wedi symud, ac mae'r rhagenw personol wrth sôn am yr etifeddiaeth y tro hwn yn cyfeirio'n uniongyrchol at y wraig: 'Iarlly yw dy fab, gŵr llwyd fo!' (gutorglyn.net, 26.12). Yn wir, gwelwn fod cysylltu'r plentyn â'r fam yn nodwedd ddigon cyffredin yng ngherddi'r bymthegfed ganrif i ferched.<sup>216</sup> Eto i gyd, diddorol sylwi nad oes cyfeiriad gan Guto'r Glyn at Ann fel mam i ferch, er y gwyddom fod ganddi o leiaf un ferch o'r enw Maud.

Pwyslesir un o rinweddau eraill Ann drwy foli'r ffaith ei bod hi'n wraig i Iarlly, yn ogystal â bod yn fam i'w etifedd. Er gwaetha'r cyfeiriad cychwynnol at Elyllt sy'n gosod statws Ann mewn cyd-destun benywaidd, yng nghorff y gerdd tafola'r bardd ei statws yn nhermau pwysigrwydd ei gŵr a'i mab – gan awgrymu mai gwir swyddogaeth unrhyw rhinweddau sydd ganddi yw ei gwneud hi'n deilwng o fod yn wraig i William Herbert.<sup>217</sup>

---

<sup>216</sup>Fel y gwelwyd ym marwnad Gwerful: 'Y mae ei meibion hirion hi / i roi gwleddau'n arglwyddi' GLGC, 110.13–4. Am enghreifftiau pellach, gweler GGGI, LXVIII.39–40; GLGC, 76.55–8.

<sup>217</sup>Amlyga beirdd y bymthegfed ganrif yn gyson y syniad o ddau gymar yn gweddu i'w gilydd o achos eu hachau uchelwrol, er enghraifft: 'O Ddewi wyn, pwy yw'r ddau / Oruchaf eu llyfr achau?' (GLGC 34.43–4).

Hynny yw, y ffaith iddi briodi Iarll sy'n codi ei statws nid ei rhinweddau ei hunan – cyfrwng yw'r rhain i'w chyrchu at yr allor:

Mam iarll ag arf wyarlled,  
Gwraig yr iarll gorau o Gred.  
(gutorglyn.net, 26.19–20)

Ni chreodd fy nechreuwr  
Gwraig iarll mor gywir i'w gŵr.  
(gutorglyn.net, 26.15–16)

Er y gellir dehongli'r cyfeiriadau hyn fel rhai sy'n rhoi rôl israddol i Ann, hynny yw, hi oedd yn deilwng o'i gŵr ac nid ef ohoni hi, gallwn ddadlau bod cysgod y cyfeiriad at Elyllt yn ymestyn yn ddigon pell o leiaf i roi'r awgrym fod ganddi rôl bwysicach a mwy gweithredol na bod yn wraig a sicraodd etifedd i'w gŵr yn unig, gan fod y bardd yn ei gosod ym mhroffwydoliaeth y cyfnod (sef y gobaith y byddai'r Cymry unwaith eto'n trechu'n Saeson):

Dilid y broffwydoliaeth  
A'i daly 'dd wyd, wrth dy law 'dd aeth.  
(gutorglyn.net, 26.47–48)

Yn ogystal â delfrydu gallu Ann i sicrhau llwyddiant i Gymru unwaith eto, dengys y dyfyniad uchod hefyd fod y bardd wedi derbyn Ann fel Cymraes, er mai o deulu Seisnig yr oedd hi'n hanu. O gofio sefyllfa'r Iarlles adeg canu'r gerdd, gallwn ddeall sut y byddai cyfeirio ati fel Cymraes (ac felly, fel un a gawsai ei derbyn), y cyfeiriad at y broffwydoliaeth, a mynegiant o ffydd y bardd yn ei mab yn ei chysuro:

Treio ystorm a gormes  
Trwy Raglan dir, troi'r glaw'n des.  
Arglwyddfawr y wraig wleddfawr  
A geidw'r llys, nis gad i'r llawr.  
(gutorglyn.net, 26.39–42)

Mae cwestiwn diddorol yn codi wrth weld y bardd yn ceisio ennyn hyder Ann a'i pherswadio o'i chryfder a'i gallu i oroesi mewn byd gwrywaidd, oherwydd gallasai'r ffaith fod angen ei chysuro o gwbl fod yn gyfeiriad rhywiaethol ati fel bod gwan.

Fel y nodwyd eisoes, fe fyddai mab Ann a Wiliam wedi bod yn ifanc iawn adeg brwydr Banbri, tybed, felly, ai un o ddibenion y gerdd yw cyfiawnhau y modd y mae Ann wedi cymryd rôl weithredol ac anarferol arni hi ei hun? Nid yw Guto'r Glyn yn poeni nad oes gan ei mab y gallu i sicrhau llwyddiant i'r teulu, yn bennaf am ei fod yn gwybod iddo gael ei eni, ie o wŷr dylanwadol, ond hefyd o wraig mor ddelfrydol.

Dywed ei bod yn ymgorfforiad o ddelfrydau'r oes – yn hael ('y wraig wleddfawr' gutorglyn.net, 26.41), yn gyfoethog, ac fel y dangoswyd eisoes, roedd hi'n ddoeth ac yn hanu o deulu uchelwrol. Gwelwn hefyd y molir ei dillad mewn perthynas a'i chyfoeth a'i gallu i ymddwyn yn briodol yn y broses o alaru: 'mewn du drud' (gutorglyn.net, 26.18).<sup>218</sup> Ceir cyfeiriad hefyd at harddwch Ann, elfen anghyffredin yng ngherddi mawl y bymthegfed ganrif i ferched. Ond yn wahanol i gerddi'r bedwaredd ganrif ar ddeg, mae'r bardd yn cyfeirio at ei gwedd mewn perthynas â'r broses o alaru, ac nid yw'r bardd yn ymgolli yn y disgrifio o harddwch yr iarlles, yr unig beth a ddywed yw: 'Mewn du ni bu wyneb well' (gutorglyn.net, 26.46). Yn sgil yr holl rinweddau hyn, yn ogystal â rhai ei gŵr, nid oes syndod i Guto'r Glyn bod gobaith yn eu hetifedd:

Ymherodr yma hirwyn,  
Fal ei mab, fo Wiliam ynn.  
(gutorglyn.net, 26.65–66)

---

<sup>218</sup>Gweler: 'Er mai traddodiad a berthynai i'r ddeunawfed ganrif neu hyd yn oed yn hwyrach yw'r traddodiad i'r weddw wisgo gwisg du – a hynny am gyfnod a oedd wedi ei bennu gan yr Eglwys, yr oedd gwisgoedd unlliw yn gyffredinol yn cael eu cydnabod fel dillad i'w giwsgo i ddangos parch tuag at y meirw' (Jones, 2007, 204). Gweler hefyd Jones, 1983, 176.

A dyna'r gerdd yn cloi gyda chyfeiriad eto at Ann, yr uchelwraig ddelfrydol, fel mam.

Mae'r astudiaeth o gerdd Guto'r Glyn felly yn atgyfnerthu'r hyn y cyfeiriwyd ato wrth gloriannu'r ymdriniaeth o gerdd Lewys Glyn Cothi, sef bod yr astudiaethau achos hyn o'r bymthegfed ganrif yn rhoi lle blaenllaw i rôl y ferch fel mam, a bod y cerddi mawl i ferched yn rhoi cryn bwyslais ar yr etifedd. Efallai mai un rheswm am hyn yw oherwydd bod y beirdd yn cyfansoddi 'mewn cyfnod pan oedd y teulu cnewyllog yn dechrau ymffurfio fel uned ar wahân' (LIYU, 245), ond gwelwn hefyd fod yr amgylchiadau hanesyddol penodol yn peri i'r beirdd ganolbwyntio ar yr etifedd yn achos Gwladus ac Ann. Gwelwyd eto, fel yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, fod ei diweirdeb, ei duwioldeb, ei doethineb a'i thras uchel yn destun mawl, ond yn wahanol i gerddi'r ganrif gynharach, nid oes fawr ddim sôn am brydferthwch y merched yng nghanu mawl y bymthegfed ganrif.

## Pennod 4:

### Casgliad

Yn ystod y traethawd hwn, canolbwyntiwyd ar ddau beth yn benodol sef perthynas y bardd a'r uchelwraig, a'r rhinweddau a folir. Wrth ddarllen cerddi'r cyfnod, gwelwyd yr uchelwraig yn cyflawni rôl amlweddog, a'r tri math ar berthynas a ddaeth i'r amlwg rhyngddi hi a'r bardd, oedd ei pherthynas fel noddwraig iddo, fel ei ymgeleddwraig ac fel un a fu'n eiriol drosto. Mae'n ddiddorol nodi y gellir ystyried y tri chategori hyn fel rhai ag elfen famol iddynt neu yn sicr fel rhai ag elfen sy'n dangos yr uchelwraig yn cynnig rhyw fath o ofal i'r bardd; yn y lle cyntaf drwy ei gynnal â nawdd, yn ail drwy gynnig lloches iddo pan oedd yn sâl, ac yn drydydd, drwy weddio drosto.

Wedi dweud hyn, yn yr enghreifftiau a drafodwyd, gwelir nad oedd hi'n gyffredin i ddelfrydu'r ferch yn uniongyrchol fel mam yng ngwaith y beirdd tan y bymthegfed ganrif. Yn wir, ni cheir braidd dim cyfeiriadaeth at rôl y ferch fel mam yng ngherddi'r bedwaredd ganrif ar ddeg, sy'n drawiadol o gofio pwysigrwydd parhad y llinach yn yr Oesoedd Canol. Ym marwnadau'r bedwaredd ganrif ar ddeg, lle gellir disgwyl y byddai pwyslais ar yr eitfedd, gwelwn ei bod hi'n well gan y beirdd ganolbwyntio ar y golled ei hunan, ac mae'r diffyg sôn am y meibion ym marwnadau'r bedwaredd ganrif ar ddeg yn drawiadol o ystyried presenoldeb amlwg y meibion yng ngherddi'r bymthegfed ganrif. Gellid disgwyl y byddai'r pwyslais hwn yn y bymthegfed ganrif ar bwysigrwydd y fam wedi dyrchafu'r ferch; fodd bynnag, nid hi a'i ffrwythlondeb a ddethlir mewn gwirionedd ond yn hytrach, hi fel cyfrwng i sicrhau llinach ei gŵr drwy'r meibion (nid oes fyth sôn am chwirydd y meibion hyn):

O hon y cawn frenhinwaed  
A ieirll Gwent eurlliw o'i gwaed.  
(GLGC, 110.21–2)

Yng nghyd-destun rôl y ferch fel mam yng ngherddi'r bymthegfed ganrif dyrchefir ei rhinweddau eraill hefyd, megis ei duwioldeb, gan awgrymu wrth iddi hi fyw yn ôl disgwyliadau'r oes, y byddai ei meibion yn mwynhau bywyd tragwyddol:

a'i meibion draw yn llawen  
am ei gweddi hi fydd hen.  
(GLGC, 168.55–6)

A chysylltir duwioldeb â rôl famol y ferch eto wrth sôn am ei dyletswydd a'i haelioni wrth roi i'r gwan a'r anghennus:

I wŷr gwan y rhôl ginio  
ac ar ei fraich ei faich fo.  
I wraig wan y rhôl geiniog  
a deunaw llwyth eidion llog  
(GLGC 39.39–42)

Un ffordd yn unig o ddelfrydu'r ferch oedd cyfeirio at ei haelioni tuag at drueniaid y gymdeithas. Nid oes fawr sôn am y math hwn o haelioni yng ngherddi'r bedwaredd ganrif ar ddeg – mae'n llawer mwy cyffredin i'r bardd ddelfrydu haelioni'r uchelwraig yn y ganrif honno wrth gyfeirio at y ffaith iddi noddi ef a'i gyd-feirdd. Yn y bymthegfed ganrif, wrth glymu duwioldeb wrth haelioni'r ferch, gwelwn fod beirdd y ganrif hon hefyd yn canu am garedigrwydd y ferch tuag atynt hwythau hefyd, ond y tro hwn, yn nhermau eiriol ac ymgeledd:

Mair a all, hyd y mae'r iaith,  
lechyd ym, a'i chydymaith;  
Os gall dyn is gallt annwyl,  
Lowri a'i gall, lawer gŵyl.  
(GTP, 13.47–50)

ac yn hawdd y cawn gan hon  
maeth a hen ameuthunion.  
(GLGC, 88.39–40)



Soniwyd uchod am y berthynas rhwng bardd ac uchelwraig, gyda'r ferch yn noddwraig i'r bardd. Diffiniwyd 'nawdd' yn y traethawd hwn fel arian neu wrthrych materol a gwelwyd bod y berthynas hon – gyda'r awgrym fod y ferch yn rhoi yn gyson i'r bardd yn gyfnewid am gerdd – yn fwyaf amlwg yng ngherddi'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Rhoddir sylw i'r berthynas hon yn yr holl gerddi mawl a drafodwyd o'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Yn naturiol, mae'r modd y mae'r beirdd yn ymdrin â'r berthynas yn gwahaniaethu yn ôl natur y gerdd. Hynny yw, yn y marwnadau, gwelir mai colli nawdd farddol yr uchelwraig yn sgil ei marwolaeth yw un o'r prif themâu:

Llaw roddfrys, o'i llys, lluosydd – edlid,  
Llym dengyn ofid pob prydydd.  
(GGrG, 6.55–6)

tra dathlu'r nawdd farddol a geir yn y cerddi mawl:

Cludodd ewybr ddawn clod o ddiwedd,  
Coeth y gwnaeth eu maeth â medd – bueilsathr  
(Claer aur freisg-gorff llathr) clêr ar frwysged.  
Bid ar hyffawd hoedl, byd orhoffedd  
(Bu flaen nodded beirdd) byw flynyddoedd!  
(GS, 5.22–6)

Yn y ddau fath ar gerdd, ceir argraff gref fod yr uchelwraidd wedi noddi beirdd yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, a cheir yr argraff hefyd fod hyn yn rhywbeth cyson. Atgyfnerthir y syniad o fodolaeth system o nawdd rhwng uchelwraig a bardd wrth i'r canu nodi bod y merched yn gofyn am gerddi yn aml: 'Gofynnai fawlgerdd yn gyfannedd' (GS, 5.9).

O ystyried hyn, gellir gweld ei bod hi'n deg casglu bod system o nawdd yn bodoli rhwng beirdd ac uchelwraidd y bedwaredd ganrif ar ddeg yn bodoli, a bod nodweddion buddiol i'r ddwy ochr o ganlyniad i'r berthynas hon. Byddai'r bardd yn derbyn nawdd, a

byddai'r uchelwraig yn derbyn cerdd yn moli eu holl rinweddau da. Roedd noddi beirdd felly yn fodd o hunan-hyrwyddo, a thrwy hynny, sicrhau bod enw da teuluoedd y gwragedd hyn yn cael ei ledaenu.

Ar y llaw arall, erbyn y bymthegfed ganrif, gellid dadlau bod y syniad o system ffurfiol o nawdd rhwng bardd ac uchelwraig wedi pylu. Mae'r ambell gyfeiriad a geir yn y ganrif hon at nawdd gan uchelwragedd yn ymddangos yn y marwnadau, lle gresynir colli nawdd sydd, yn fwy aml na pheidio, yn cwmpasu pethau fel bwyd a diod yn unig, ac nid yn ymestyn at system o nawdd y tu hwnt i'r gegin:

Rhoddei, fal y rhyddhâi fôr,  
Gwin a gwyrdd, gwyn i gerddor.  
(GLGC, 44.43–4)

Mae hyn yn awgrymu mai rôl ymylol oedd gan ferched wrth noddi beirdd erbyn y bymthegfed ganrif, a'i bod wedi ei chyfyngu i ochr ddomestig y llys yn hytrach na'r ystod ehangach a gafwyd yng nghanu'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Rhaid troi at gerddi gofyn a diolch y bymthegfed ganrif i gael rhyw syniad o wraig yn darparu nwyddau y tu hwnt i ddrws y gegin. Fodd bynnag, yn y cerddi gofyn a diolch rhaid pwysleisio nad yr un yw'r egwyddor â'r rhoi traddodiadol rhwng bardd a'r un a'i noddai, lle cyflwynid cerdd fawl er mwyn derbyn tâl; yn y cerddi hyn, roedd y bardd yn canu er mwyn deisyf. Yn un o'r esiamplau a drafodwyd, gwelwyd Guto'r Glyn nid yn unig yn deisyf ffaling gan Elen ac yn nodi'r broses o gyfnewid rhodd am gerdd, gan awgrymu na fyddai Elen yn derbyn cerdd os na fyddai Guto yn derbyn y ffaling:

O chaf yn y Llannerch wen  
Ffaling, cerdd a gaiff Elen.  
(gutorglyn.net, 53.39–40)

O gofio nad oes gan Lewys Glyn Cothi, y bardd sy'n erchi fwyaf gan wragedd, yr un gerdd fawl sy'n moli'r ferch fel unigolyn, rhaid holi ai dyma brofi ymhellach mai yr unig ffordd o gael nawdd gan wragedd yn y bymthegfed ganrif oedd trwy ofyn amdano yn blwmp ac yn blaen, ac nad oedd cyflwyno cerdd fawl bellach yn ddigonol i arwain at y cyfnewid a arferai fod yn ddefod? Yn aml yng ngherddi Lewys, ceir yr argraff fod rhaid i'r bardd bledio ei achos yn gryf er mwyn sicrhau derbyn rhodd gan wraig. Gwelir defnydd cyson o bersona'r 'hen dlawd' yn ei gerddi gofyn gan wragedd, gan geisio ennyn eu tosturi er mwyn sicrhau'r rhoi:

ac yn noethach y'm gwnaethant  
no'r gleisiad yn nofiad nant.  
Yr wyf yn noeth heb fawr wrid,  
mae naw carl i'm un cwrlid.  
(GLGC, 227.31–4)

Gwelwn Lewys hefyd yn ceisio perswadio'r uchelwraig i'w anrhegu drwy atgoffa'r ferch o'i dyletswydd i barhau traddodiad o roi:

Mahallt ferch Hywel Selau  
Am air i hon a'i mawrhau,  
A roes huling, ers helynt,  
Gwely am gerdd Gwilym gynt.  
(GLGC, 227.55–8)

Y mae sawl graddfa wahanol felly y gellir ei hystyried wrth ddehongli perthynas y bardd a'r ferch fel noddwraig iddo yng ngherddi'r bymthegfed ganrif. Yn gyntaf, rhaid holi, a yw'r ffaith mai prin iawn yw'r cerddi mawl i ferched (a hynny heb fod yn farwnad, mawl 'ar y cyd', neu mawl ar ffurf cerdd ofyn) yn dangos nad oedd pwrpas i'r beirdd foli merch fel unigolion ar wahân i'w gŵr am nad oedd y ferch yn noddwraig annibynnol bellach? At hyn, mae presenoldeb y gwŷr yng ngherddi'r bymthegfed ganrif yn awgrymu nad oedd yn gyffredin bellach i'r ferch noddi'r beirdd yn annibynnol. Hyd yn oed wrth ofyn rhodd gan

uchelwraig, mae Lewys Glyn Cothi yn sicrhau ei fod yn cyfeirio at wŷr yr uchelwraig. Sylwer yma mai'r gŵr yw'r un sy'n bennaf gyfrifol am ddsbarthu gwin ac aur i'r beirdd:

ei gŵr yn bennach nog un  
i roi o'i gost aur a gwin  
i wŷr o gerdd er ei gân.  
(GLGC, 119.6–8)

Ymhellach, gwelir mai rôl is-wasanaethgar sydd gan yr uchelwraig yng nghyd-destun noddi beirdd yng ngherddi'r bymthegfed ganrif, a hynny yn aml yng nghysgod ei gŵr:

yntau'n rhoi gynau, 'm Gwynnen – a gwleddau,  
hithau y gwyliau yn deg ei gwên.  
(GLGC, 97.71–2)

Gyda'r disgrifiad hwn o ferch yn gwyllo'n dawel, trown ein sylw at agwedd arall a fu'n ffocws i'r astudiaeth sef lleferydd y ferch. Dangoswyd bod nifer o raddfeydd gwahanol i fesur llwyddiant llafar y ferch, ac mae'n ddiddorol nodi bod y rhinweddau sy'n ymwneud â lleferydd y ferch yn fwyaf amlwg yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Molid y merched am eu gallu i siarad ac am safon eu Cymraeg yn ogystal ag am eu tawelwch. Yn y marwnadau, cyffelybid ymddiddan y gorffennol â thawelwch presennol y bedd, ond ceir yr argraff hefyd bod ymdawelu wedi bod yn ddisgwylidig gan ferched y cyfnod hyd yn oed pan oeddynt yn fyw. Hynny yw, canmola'r beirdd ymatal llafar y merched yn y cerddi sydd y tu allan i ffurf y farwnad: 'Un ni fwrw ei phwyll yn oferedd' meddai Rhisieryd am Myfanwy (GS, 5.4); felly hefyd y mola Casnodyn Gwenllïant: 'Eirgall ddiwall ball, bwyll ogyweg' (GC, 5.13).

Mae'r beirdd yn barod iawn i nodi bod y cymedroldeb llafar hwn yn rhan o 'ddoethineb' y merched, a bod eu doethineb yn ganlyniad i'w magwraeth fonheddig a'u hetifeddiaeth uchelwrol. Yn wir, y nodwedd amlycaf yng ngherddi'r ddwy ganrif yw'r pwyslais cyson ar dras yr uchelwraig:

Mud a balch, hil gwalch gweilch nwyf  
(GGDT, 4.5)

Arglwyddes a santes oedd,  
O'r hen arglwyddi'r hanoedd  
(GLGC, 110.11–2)

A chofier bod y beirdd wedi nodi mai canlyniad i'w magwraeth oedd haelioni Gwenhwyfar o Bentraeth yn y bedwaredd ganrif ar ddeg ac Elen, gwraig Gruffudd ap Llywelyn ap Gruffudd yn y bymthegfed ganrif. Yn achos Gwenhwyfar: 'gwin a medd a'i maeth' (GGM, 5.28), ac roedd Elen wedi bod yn arddangos ei haelioni 'er yn ferch' (GGI, LXXVIII.2).

Drwy foli pwysigrwydd magwraeth y merched fel hyn, cawn yr ymdeimlad bod rhyw fath o draddodiad wedi bodoli yng Nghymru o ran hyfforddi'r merched hyn yn y rhinweddau a oedd yn ddisgwyliedig gan y ferch ddelfrydol. Gwelwyd nad oedd yr hyfforddiant hwn yn ymestyn ymhellach na ffiniau cwrteisi a moeseg, oherwydd dim ond un cyfeiriad prin a gawn yn y farddoniaeth o ferch yn dysgu darllen, a hynny yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Ni welir unrhyw ddatblygiad ar hyn yng ngherddi'r bymthegfed ganrif sy'n awgrymu, wrth edrych ar y dystiolaeth yn y cerddi, nad oedd cymdeithas y cyfnod (fel y'i phortreadir yn y cerddi) yn credu ei bod hi'n angenrheidiol i ferched fabwysiadu sgiliau o'r fath.

Heb os, y rhinwedd bwysicaf i'w moli yng ngherddi'r bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed, yw tras uchel y merched hyn. Fodd bynnag, mae'n ddiddorol nodi un gwahaniaeth – mae beirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg yn edrych yn ôl ar yr achau yn unig, tra bo beirdd y bymthegfed ganrif, yn ogystal ag edrych yn ôl, hefyd yn moli gobaith y dyfodol a pharhad y tras uchel hwn. Ond er bod ffrwythlondeb y ferch yn bwysig yn y bymthegfed ganrif, mae ei diweirdeb hefyd yn ganolog i'r mawl drwy'r gyfeiriadaeth gyson

at y santesau. Gwelwyd bod diweirdeb yn rhinwedd gyffelyb i'w moli ymysg merched y ddwy ganrif dan sylw, ond ni cheir unrhyw gyfeiriadaeth at y santesau yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, mae'n fwy cyffredin o lawer i foli gwryfod y merched drwy ddisgrifio eu gwelwder.

Roedd moli gwelwder y merched hefyd yn fodd o foli eu prydferthwch, sy'n ein harwain ni at y gwahaniaeth mwyaf rhwng y cerddi, sef y sylw cryfach a roddir yng nghanu'r bedwaredd ganrif ar ddeg i harddwch y merched. Yn wir, y mae'n ganolog i'r darlun o ferch ddelfrydol beirdd y ganrif honno, ac mae'n amlygu ei hunan nid yn unig drwy foli pryd a gwedd yr uchelwagedd, ond hefyd drwy foli eu hosgo a'u dillad drud. Gwelwyd bod beirdd y bedwraedd ganrif ar ddeg yn moli'r merched yn yr un modd ag y byddai beirdd y canu serch yn y bymthegfed ganrif yn ei wneud, gan ddisgrifio rhannau pendant o'u cyrff, er enghraifft ei 'mwyalchliw ddwyael' (GGM, 5.7) a'r 'tâl dan aur mâl am ael feinir' (GGM, 5.106). Gwelwyd y byddai achosi poen i'r beirdd (er enghraifft, achosi diffyg cwsg), oherwydd harddwch allanol yr uchelwagedd, yn rhinwedd i'w foli. Ond noder nad poenau serch mewn gwirionedd oedd y rheswm y tu ôl i'r cyfeiriadau at boenau'r bardd; yn wir, fel yr esbonia Ann Parry Owen:

Yr oedd merched ifainc yn gaffaeliad yn y llysoedd, ac yr oedd eu harddwch, eu cyfoeth a'u bonedd, a amlygid yn eu gwisgoedd a'u moesau gwych, yn ddrych o natur lysaidd eu cartrefi ac felly o lwyddiant cymdeithasol ac economaidd eu penaethiaid. (2004, 62)

Wrth gloriannu'r astudiaeth hon, gellir gweld, hyd yn oed wrth edrych ar rai cerddi o fewn rhai *genres* yn unig, gymaint o gyfoeth sydd yng nghanu'r cyfnod hwn o safbwynt datblygu ein dirnadaeth ni o bwy oedd uchelwagedd y beirdd. Yn wir, wrth ddarllen yn fanwl rhwng llinellau'r farddoniaeth, fe'n hatgoffir o ba mor bwysig yw'r cerddi fel

ffynonellau i unrhyw un a gais gip olwg ar gymdeithas yr Oesoedd Canol. O safbwynt y ferch, gwelwyd nad cuddio yn y cysgod a wnaï bob tro, ac er bod ei llais bron bob tro'n fud, y mae ei phresenoldeb yn amlwg. Y gobaith yw y bydd cyfle yn y dyfodol i ddwysau'r ymchwil er mwyn creu darlun manylach o'r ferch drwy ehangu'r astudiaeth i gynnwys holl gynnyrch llenyddol yr Oesoedd Canol.

## Llyfryddiaeth

- Andrews, Rh. *et al.* goln. 1996. *Gwaith Bleddyn Fardd a Beirdd Eraill Ail Hanner y Drydedd Ganrif ar Ddeg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Caerdydd
- Ariès, P. 1991. *The Hour of Our Death*. New York: Oxford University Press
- Baring-Gould, S. a Fisher, J. 1907–13. *The Lives of the British Saints*, I–IV. London: Clark, for the Honourable Society of Cymmrodorion
- Bell, H. gol. 1909. *Vita Sancti Tatheï and Buched Seint y Katrin*. Bangor: Welsh Manuscript Society
- Beknov, E. 1989. Language and Women: From Silence to Speech. Yn: Wasserman, J. N. a Roney, L. goln. *Sign, Sentence, Discourse: Language in Medieval Thought and Literature*. Syracuse: Syracuse University Press, tt. 245–65
- Berman, C. H. *et al.* goln. 1985. *The Worlds of Medieval Women: Creativity, Influence, and Imagination*. Morgantown: West Virginia University Press
- Bernau, A. *et al.* goln. 2003. *Medieval Virginites*. Cardiff: University of Wales Press
- Birch, W. de G. 1893–1905. *A Descriptive Catalogue of the Penrice and Margam Abbey Manuscripts*. 6 Vols. London: Privately Printed
- Blamires, A. *et al.* goln. 1992. *Woman Defamed and Woman Defended: An Anthology of Medieval Texts*. Oxford: Clarendon Press
- Blamires, A. 1997. *The Case for Women in Medieval Culture*. Oxford: Clarendon Press
- Bloch, R. H. 1991. *Medieval Misogyny and the Interpretation of Western Romantic Love*. Chicago: University of Chicago Press
- Bollard, J. K. 1975. The Structure of the Four Branches of the Mabinogi. Yn: *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion* 1974/5, tt. 250–76
- Bornstein, D. 1983. *The Lady in the Tower: Medieval Courtsey Literature for Women*. Connecticut: Archon Books
- Bowen, D. J. 1952. 'Y Gymdeithas Gymreig yn Niwedd yr Oesoedd Canol fel yr Adlewyrchir hi yn y Farddoniaeth Uchelwrol: Tair Astudiaeth'. Traethawd MA, Prifysgol Cymru Aberystwyth
- Bradfield, N. 1958. *Historical Costumes of England 1066–1956*. 2<sup>nd</sup> arg., London: Harrap



- Bramley, K. *et al.* goln. 1994. *Gwaith Llywelyn Fardd I ac Eraill o Feirdd y Ddeuddegfed Ganrif*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- Breeze, A. 1983. 'Bepai'r ddaear yn bapir'. Yn: *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd* 30, tt. 274–277
- 1988. The Virgin's Tears of Blood. Yn: *Celtica* 20, tt. 110–122
- 1990. The Blessed Virgin's Joys and Sorrows. Yn: *Cambridge Medieval Celtic Studies* 19, tt. 41–54
- 1991. Two Bardic Themes: The Virgin and Child, and AVE–EVA. Yn: *Medium Ævum* 63, tt. 17–33
- Breeze, A. 2000. An Irish Etymology for Chaucer's Falding. Yn: *The Chaucer Review*, 35.1, tt. 112–14
- Browmich, R. a Evans, D. S. goln. 1997. *Culhwch ac Olwen*. 2<sup>il</sup> arg., Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- Bromwich, R. gol. 2006. *Trioedd Ynys Prydein*. 3<sup>ydd</sup> arg., Cardiff: University of Wales Press
- Brown, P. 1986. The Notion of Virginity in the Early Church. Yn: McGinn, B. a Meyendorff, J. goln. *Christian Spirituality: Origins to the Twelfth Century*. London: Routledge & Kegan Paul, tt. 427–43
- 1989. *The Body and Society: Men, Women and Sexual Renunciation in Early Christianity*. London: Faber
- Burgess, G. S. a Busby, K. cyf. 1986. *The Laïs of Marie de France*. London: Penguin
- Cartwright, J. 1999. *Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod, Agweddau ar Wryfyddod a Diweirdeb yng Nghymru'r Oesoedd Canol*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- 2003. Virginity and Chastity Tests in Medieval Welsh Prose. Yn: Bernau, A. *et al.* goln. *Medieval Virginites*. Cardiff: University of Wales Press, tt. 56–79
- 2008. *Feminine Sanctity and Spirituality in Medieval Wales*. Cardiff: University of Wales Press
- Conran, A. 1992. The Lack of the Feminine. Yn: *The New Welsh Review* 17, tt. 28–31
- Cornuälle, H. 1961–63. *Le Roman de Silence*. Cambridge: W. Heffer & Sons
- Costigan (Bosco), N. G. *et al.* goln. 1995. *Gwaith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur, Gwilym Ddu o Arfon, Trahaearn Brydydd Mawr ac Iorwerth Beli*. Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru

- Cule, J. gol. 1980. *Wales and Medicine*. Aberystwyth: National Library of Wales
- Curtius, E. R. 1953. *European Literature and the Latin Middle Ages*. New York: Pantheon Books
- Cymdeithas y Beibl. 1988. *Y Beibl Cymraeg Newydd*. Swindon: Cymdeithas y Beibl
- Daniel, R. I. gol. 1998. *Gwaith Dafydd Bach ap Madog Wladaidd 'Sypyn Cyfeiliog' a Llywelyn ab y Moel*. Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru
- gol. 1999. *Gwaith Casnodyn*. Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru
- 2001. Y Ffynhonnau yng Nghanu'r Cywyddwyr. Yn: *Dwned* 7, tt. 65–81
- Davies, A. E. gol. 1992. *Gwaith Deio ab Ieuan Du a Gwilym ab Ieuan Hen*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- Davies, C. 1972. 'Cerddi'r tai Crefydd', I–II. Traethawd M.A., Prifysgol Cymru Bangor
- 1997. Early Free-Metre Poetry. Yn: Gruffydd, R. G. gol. *A Guide to Welsh Literature c. 1530–1700*. Cardiff: University of Wales Press tt. 75–99
- Davies, R. 1995. *The Revolt of Owain Glyndŵr*. Oxford: Oxford University Press
- Davies, S. 1994. Y Ferch yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol. Yn: Jenkins, G. H. gol. *Cof Cenedl IX: Ysgrifau ar Hanes Cymru*. Llandysul: Gwasg Gomer, tt. 3–31
- 2007. cyf. *The Mabinogion*. Oxford: Oxford University Press
- Dodd, A. H. a Williams, J. G. goln. 1969. *Aspects of Welsh History: Selected Papers of the Late Glyn Roberts*. Cardiff: University of Wales Press
- Donovan, P. J. gol. 1982. *Cywyddau Serch y Tri Bedo*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru ar ran yr Academi Gymreig.
- Dronke, P. 1978. *The Medieval Lyric*. 2<sup>ll</sup> arg., London: Hutchinson
- 1984. *Women Writers of the Middle Ages*. Cambridge: Cambridge University Press
- Edwards, J. G. gol. 1940. *Littere Wallie*. Cardiff: University of Wales Press Board
- Edwards, H. T. 1995. gol. *Cwm Rhondda*. Llandysul: Gwasg Gomer
- Egan, G. a Pritchard, F. 1991. *Dress Accessories c.1150 – c.1450*. London: HMSO

- Einarsson, S. 1957. *A History of Icelandic Literature*. Baltimore: Johns Hopkins Press for the American-Scandinavian Foundation
- Evans, R. a Johnson, L. 1994. Goln. *Feminist Readings in Middle English Literature: The Wife of Bath and all her sect*. London: Routledge
- Evans, R. a Johnson, L. goln. 1994. *Feminist Readings in Middle English Literature: The Wife of Bath and all her sect*. London: Routledge
- Farmer, D. H. 1978. *Oxford Dictionary of Saints*. Oxford: Oxford University Press
- Finnegan, R. 1977. *Oral Poetry: Its Nature, Significance and Social Context*. Cambridge: Cambridge University Press
- Foss, C. et al. goln. 1980. *Color*. Los Angeles: The Knapp Press
- Frank, R. 1978. *Old Norse Court Poetry: The Dróttvætt Stanza*. Ithaca and London: Cornell University Press
- Fulton, H. 1989. *Dafydd ap Gwilym and the European Context*. Cardiff: University of Wales Press
- 1991. Medieval Welsh Poems to Nuns. Yn: *Cambridge Medieval Celtic Studies* 21, tt. 87–112
- Gets, F. M. 2010. *Healing and Society in Medieval England*. Madison: University of Wisconsin Press
- Goldin, F. G. 1973. *Lyrics of the Troubadours and Trouvères*. Massachusetts: Peter Smith Publishers
- Gray, M. 1996. Pen-rhys: the Archaeology of a Pilgrimage. Yn: *Morgannwg* 40, tt. 10–32
- Griffiths, R. A. 2004. 'Vaughan family (per c.1400–c.1540)', *Oxford Dictinoray of National Biography*. [Ar-lein]. Ar gael: <http://www.oxforddnb.com/view/article/48656> [Gwelwyd: 13 Medi 2011]
- 'Devereux, Walter, first Baron Ferrers of Chartley (c. 1432–1485)', *Oxford Dictionary of National Biography*. [Ar-lein]. Ar gael: <http://www.oxforddnb.com/view/article/50222> [Gwelwyd: 13 Medi 2011].
- 2008. 'Herbert, William, first earl of Pembroke (c. 1423–1469)', *Oxford Dictionary of National Biography*. [Ar-lein]. Ar gael: <http://www.oxforddnb.com/view/article/13053> [Gwelwyd: 17 Medi 2011]
- Gruffydd, R. G. gol. 1997. *A Guide to Welsh Literature c. 1530–1700*. Cardiff: University of Wales Press

- Gunn, S. 2008. 'Henry VII (1457–1509)', *Oxford Dictionary of National Biography*. [Ar-lein].  
Ar gael: <http://www.oxforddnb.com/view/article/12954> [Gwelwyd: 13 Medi 2011]
- Haycock, M. 1990. Merched Drwg a Merched Da: Ieuan Dyfi v. Gwerful Mechain. Yn:  
Williams, J. E. C. gol. *Ysgrifau Beirniadol XVI*. Dinbych: Gwasg Gee, tt. 97–110
- 1999. 'Where Cider Ends, There Ale Begins to Reign': Drink in Medieval Welsh Poetry.  
*H.M. Chadwick Memorial Lectures 10*. Cambridge: University of Cambridge,  
Department of Anglo-Saxon, Norse, and Celtic, tt. 1–29
- 2001. 'Defnydd hyd Ddydd Brawd': Rhai Agweddau ar y Ferch ym Marddoniaeth yr Oesoedd  
Canol. Yn: Jenkins, G. H. gol. *Cymru a'r Cymry 2000 Trafodion Cynhadledd Milflwyddiant  
Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru*. Llandysul: Gwasg Gomer, tt.  
41–70
- Henken, E. R. 1982. 'Folklore of the Welsh Saints', I–II. Traethawd MA Prifysgol Cymru,  
Aberystwyth
- 1987. *Traditions of the Welsh Saints*. Cambridge: Boydell and Brewer
- 1991. *The Welsh Saints: A Study in Patterned Lives*. Woodbridge: D. S Brewer
- Howells, N. A. gol. 2001. *Gwaith Gwerful Mechain ac Eraill*. Aberystwyth: Canolfan  
Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru
- Huizinga, J. 1924. *The Waning of the Middle Ages*. London: Penguin
- Huws, B. O. gol. 1998a. *Detholiad o Gywyddau Gofyn a Diolch*. Caernarfon: Gwasg  
Gwynedd ar ran Cyhoeddiadau Barddas.
- 1998b. *Y Canu Gofyn a Diolch c.1350 – c.1630*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru  
Caerdydd
- (heb ei gyhoeddi). 'Llawer dyn ... / Â chywydd a iachawyd': Guto'r Glyn yr iachawr.
- Ifans, Rh. et al. goln. 1997. *Gwaith Gronw Gyriog, Iorwerth ab y Cyriog, Mab Clochyddyn,  
Gruffudd ap Tudur Goch ac Ithel Ddu*. Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau  
Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru
- Ifans, Rh. gol. 2000. *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill*. Aberystwyth: Canolfan  
Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru
- James, C. 1995. Pen-rhys: Mecca'r genedl. Yn: Edwards, H. T. gol. *Cwm Rhondda*.  
Llandysul: Gwasg Gomer, tt. 27–71
- Jenkins, D. ac Owen, M. E. 1980. goln. *The Welsh Law of Women*. Cardiff: University of

Wales Press

- Jenkins, G. H. 1994. gol. *Cof Cenedl IX: Ysgrifau ar Hanes Cymru*. Llandysul: Gwasg Gomer
- gol. 2001. *Cymru a'r Cymry 2000 Trafodion Cynhadledd Milflwyddiant Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru*. Llandysul: Gwasg Gomer
- Johnston, D. gol. 1988. *Gwaith Iolo Goch*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- gol. 1991a. *Canu Maswedd yr Oesoedd Canol*. 2<sup>il</sup> arg., Bridgend: Seren
- 1991b. Lewys Glyn Cothi: Bardd y Gwragedd. Yn: *Taliesin* 94, tt. 68–77
- gol. 1995. *Gwaith Lewys Glyn Cothi*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- 2005. *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300–1525*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- *et al.* goln. Cerddi Dafydd ap Gwilym. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- Jones, A. M. 2007. 'Gwisgoedd ac Ategolion yn Llenyddiaeth yr Oesoedd Canol c. 700 – c.1600'. Traethawd PHD, Prifysgol Cymru Aberystwyth
- Jones, B. 1960. *Y Tair Rhامت: Iarlles y Ffynnon, Peredur, Geraint fab Erbin*. Aberystwyth: Cymdeithas Lyfrau Ceredigion
- Jones, D. G. 1929. Buchedd Mair Fadlen a'r *Legenda Aurea*. Yn: *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd* 4, tt. 325–39
- Jones E. J. a Williams G. J. goln. 1935. *Gramadegau'r Penceirddiaid*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- Jones, F. 1997. *The Holy Wells of Wales*. 2<sup>il</sup> arg., Cardiff: University of Wales Press
- Jones, G. P. 1980. The Welsh Poet as a Medical Historian. Yn: Cule, J. gol. *Wales and Medicine*. Aberystwyth: National Library of Wales, tt.119–26
- Jones, H. Ll. a Rowlands, E. I. goln. 1975. *Gwaith Iorwerth Fynglwyd*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru ar ran Bwrdd Gwybodau Celtaidd Prifysgol Cymru
- Jones, I. gol. 1963. *Gwaith Hywel Cilan*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- Jones, M. 1983. 'Byd y Beirdd, sef Ymchwiliad i Amgylchfyd a Diddordebau Beirdd yr Uchelwyr yn y Bedwaredd Ganrif ar Ddeg a'r Bymthegfed Ganrif'. Traethawd M.A., Prifysgol Cymru Bangor

- Jones, M. K. 2004. 'Beaufort, Margaret, countess of Richmond and Derby (1443–1509)', *Oxford Dictionary of National Biography*. [Ar-lein]. Ar gael: <http://www.oxforddnb.com/view/article/1863> [Gwelwyd: 13 Medi 2011].
- Jones, N. A. a Owen, A. P. goln. 1991. *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr I*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- Jones, N. A. a Rheinallt, E. H. goln. 1995. *Gwaith Sefnyn, Rhisierdyn, Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed a Llywarch Bentwrch*. Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru
- Jones, R. M. 2000. *Mawl a'i Gyfeillion (Hanfod y Traddodiad Llenyddol Cymraeg), Cyfrol 1: Adeiladau Mawl*. Llandybïe: Barddas
- Jones, T. G. 1925. *Rhieingerddi'r Gogynfeirdd*. Dinbych: Gee a'i Fab
- gol. 1926. *Gwaith Tudur Aled*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- Kerr, J. 2007. *Monastic Hospitality: The Benedictines in England, c.1070–c.1250*. Woodbridge: Boydell & Brewer
- Klinck, A. a Rasmussen, A. goln. 2002. *Medieval Woman's Song*. Philadelphia: University of Pennsylvania Press
- Larrington, C. 1995. *Women and Writing in Medieval Europe*. London and New York: Routledge
- Lastique, E a Lemay, H. R. 1991. A Medieval Physician's Guide to Virginity. Yn: Salisbury, J. 1991b. gol. *Sex in the Middle Ages: A Book of Essays*. New York: Garland, tt. 56–79
- Lawson, S. 1985. cyf. *Christine de Pisan: The Treasure of the City of Ladies*. London: Penguin
- Lerner, G. 1979. *The Majority Finds its Past*. New York: Oxford University Press
- Lewis, B. J. gol. 2007. *Gwaith Madog Benfras ac Eraill o Feirdd y Bedwaredd Ganrif ar Ddeg*. Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru
- Lewis, C. S. 1958. *The Allegory of Love*. Oxford: Oxford University Press
- Lewis, H. gol. 1974. *Brut Dingestow*. arg. newydd, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Lewis, M. 1970. *Stained Glass in North Wales up to 1850*. Altrincham: Sherratt
- Lewis, S. 1932. *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

- Leyser, H. 1995. *Medieval Women: A Social History of Women in England, 450–1500*. London: Weidenfeld and Nicolson
- Lloyd-Jones, J. gol. 1931–63. *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- Lloyd-Morgan, C. 1990. ‘Gwerful, ferch ragorol fain’: Golwg Newydd ar Gwerful Mechain. Yn: Williams, J. E. C. gol. *Ysgrifau Beirniadol XVI*. Dinbych: Gwasg Gee, tt. 84–96
- 1996. Women and their poetry in medieval Wales. Yn: Meale, C. gol. *Women and Literature in Britain 1150–1500*. 2<sup>il</sup> arg., Cambridge: Cambridge University Press, tt. 183–201
- 1998. More written about than writing? Welsh women and the written word. Yn: Pryce, H. gol. *Literacy in Medieval Celtic Societies*. Cambridge: Cambridge University Press, tt. 149–165
- Lloyd, N. a Owen, M. E. goln. 1986. *Drych yr Oesoedd Canol*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- McCash, J. gol. 1996. *The Cultural Patronage of Medieval Women*. London: University of Georgia Press
- McGinn, B. a Meyendorff, J. goln. 1986. *Christian Spirituality: Origins to the Twelfth Century*. London: Routledge & Kegan Paul
- McSheffrey, S. 1995. Literacy and the Gender Gap in the Late Middle Ages. Yn: Smith, L. a Taylor, J. H. M. goln. *Women, the Book and the Godly: Selected Proceedings of the St Hilda’s Conference, 1993*. Cambridge: D. S Brewer, tt. 157–70
- Meale, C. 1996a. ‘...alle the bokes that I haue of latyn, englich, and frensch’: laywomen and their books in late medieval England. Yn: Meale, C. gol. *Women and Literature in Britain 1150–1500*. 2<sup>il</sup> arg., Cambridge: Cambridge University Press, tt. 128–58
- 1996b. gol. *Women and Literature in Britain 1150–1500*. 2<sup>il</sup> arg., Cambridge: Cambridge University Press
- Millet, B. a Wogan-Browne, J. 1990. *Medieval English Prose for Women*. Oxford: Clarendon Press
- Moras, E. 2005. ‘Mabddysgu oedd iddi rhoddi yn rhwydd’: Nawdd barddol gan wragedd yn yr Oesoedd Canol. Yn: *Llên Cymru* 28, tt. 26–52
- 2007. ‘Nid di-boen na’ m atebud, nid hawdd ymadrawdd â mud’: Cwynion Beirdd Llys am Ferched. Yn: *Llên Cymru* 30, tt. 17–43

- Morgan, G. 1992. 'Y Portread o'r Cymeriadau Benywaidd yn y Tair Rhamant Gymraeg a'r Tair Rhamant Ffrangeg'. Traethawd PhD, Prifysgol Cymru, Caerdydd
- Morgan, O. 1872. *Some Account of the Ancient Monuments in the Priory Church, Abergavenny*. Newport: Printed for the Monmouthshire and Caerleon Antiquarian Association by H. Mullock
- Numbers, R. L. a Amundsen, D. W. goln. 1986. *Caring and Curing: Health and Medicine in the Western Religious Traditions*. New York: Macmillan Publishing Co.
- Nunn, J. 1984. *Fashion in Costume 1200–1980*. London: Herbert Press
- Owen, A. P. gol. 1996. *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac Eraill*. Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru
- 2004. Canu Serch Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd o Fôn. Yn: *Dwned* x, tt. 57–78
- gol. 2007. *Gwaith Gruffudd ap Maredudd III, Canu Amrywiol*. Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru
- Owen, M. E. a Jenkins, D. goln. 1980. *The Welsh Law of Women*. Cardiff: University of Wales Press
- Owen, M. 1990. Gwŷr Dysg yr Oesodd Canol a'u Dulliau Rhyddiaith. Yn: Williams, J. E. C. gol. *Ysgrifau Beirniadol XVII* Dinbych: Gawsg Gee , tt.42–62
- Parry, T. 1953. *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- gol. 1962. *The Oxford Book of Welsh Verse*. Oxford: Oxford University Press
- Paterson, L. 1993. *The World of the Troubadours: Medieval Occitan Society c.1100 – c.1300*. Cambridge: Cambridge University Press
- Payne, F. G. 1939. *Guide to the Collection of Samplers and Embroideries*. Cardiff: Published by the Museum and by the Press Board of the University of Wales
- Pennar, M. 1976. 'Women in Medieval Welsh Literature: an examination of some literary attitudes before 1500'. Traethawd D.Phil., Oxford University
- Power, E. 1975. gol. *Medieval Women*. Cambridge: Cambridge University Press
- Pryce, H. 1994. A New Edition of the *Histori Divae Monacellae*. Yn: *Montgomeryshire Collections* 82, tt. 23–40
- gol. 1998. *Literacy in Medieval Celtic Societies*. Cambridge: Cambridge University Press



- Richards, W. L. gol. 1964. *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- Richardson, C. 2004. gol. *Clothing Culture, 1350–1650*. Aldershot: Burlington
- Roberts, B. F. gol. 1961. *Gwassanaeth Meir: Sef Cyfieithiad Cymraeg Canol o'r Officium Parvuum Beatae Mariae Virginis*. Caerdydd : Gwasg Prifysgol Cymru
- Roberts, E. gol. 1916. *Llanstephan MS 6*. Cardiff: Guild of Graduates of the University of Wales
- Roberts, T. gol. 1958. *Gwaith Tudur Penllyn ac Ieuan ap Tudur Penllyn*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- Robinson, D. M. 1995. *Tintern Abbey*. 3<sup>ydd</sup> arg., Cardiff: Cadw: Welsh Historic Monuments
- 2006. *The Cistercians in Wales: Architecture and Archaeology 1130–1540*. London: Society of Antiquaries of London
- Rowlands, J. gol. 1975. *Dafydd ap Gwilym a Chanu Serch yr Oesoedd Canol*. Llandysul: Gwasg Prifysgol Cymru
- Ruddock, G. 1971. Prydferthwch Merch yng Nghywyddau Serch y Bymthegfed Ganrif. Yn: *Llên Cymru* 11, tt. 140–75
- 1975. Rhai Agweddau ar Gywyddau Serch y Bymthegfed Ganrif. Yn: Rowlands, J. gol. *Dafydd ap Gwilym a Chanu Serch yr Oesoedd Canol*. Llandysul: Gwasg Prifysgol Cymru, tt. 95–119
- 1992. Dilyd Llysiau Dolydd. Yn: Williams, J. E. C. gol. *Ysgrifau Beirniadol XVIII*. Dinbych: Gwasg Gee, tt. 110–24
- Rushton, C. a Hopkins, A. goln. 2007. *The Erotic in the Literature of Medieval Britain*. Woodbridge: Boydell & Brewer
- Rhŷs, J. ac Evans, J. G. goln. 1890. *The Poetry in the Red Book of Hergest*. Oxford: Printed Privately, Issued to subscribers only by J.G. Evans
- Salisbury, J. E. 1991a. *Church Fathers, Independent Virgins*. London: Verso
- gol. 1991b. *Sex in the Middle Ages: A Book of Essays*. New York: Garland
- Shahar, S. 1983. *The Fourth Estate: A History of Women in the Middle Ages*. London and New York: Methuen
- Smith, L. a Taylor, J. H. M. goln. 1995a. *Women, the Book and the Godly: Selected Proceedings of the St Hilda's Conference, 1993*. Cambridge: D. S Brewer

- goln. 1995b. *Women, the Book, and the Worldy*. Cambridge: D. S Brewer
- goln. 1997. *Women and the Book*. London: The British Library
- Stacey, R. C. 2000. Clothes Talk. Yn: Charles-Edwards, T., Owen, M. E. a Russel, P. goln. *The Welsh King and his Court*. Cardiff: University of Wales Press, tt. 338–46
- Sullivan, C. W. gol. 1996. *The Mabinogi: A Book of Essays*. New York: Garland Publishing
- Thomas, R. S. 2008. 'Tudor, Jasper, duke of Bedford (c. 1431–1495)', *Oxford Dictionary of National Biography*. [Ar-lein]. Ar gael: <http://www.oxforddnb.com/view/article/27796> [Gwelwyd: 13 Medi]
- Thomson, D. 1989. *An Introduction to Gaelic Poetry*. 2<sup>il</sup> arg., Edinburgh: Edinburgh University Press
- Thomson, R. L. 1968. *Owein: or Chwedl Iarlls y Ffynnawn*. Dublin: Dublin Institute for Advanced Studies
- gol. 1997. *Ystorya Gereint uab Erbin*. Dublin: Dublin Institute for Advanced Studies
- Thornton, D. E. 2004. 'Merfyn Frych (d. 844)', *Oxford Dictionary of National Biography*. [Ar-lein]. Ar gael: <http://www.oxforddnb.com/view/article/18587> [Gwelwyd: 17 Medi 2011]
- Davies, R. R. 2008. 'Dafydd Gam (d. 1415)', *Oxford Dictionary of National Biography*. [Ar-lein]. Ar gael: <http://www.oxforddnb.com/view/article/10318> [Gwelwyd: 13 Medi 2011]
- Valente, R. L. 1988. '*Merched y Mabinogi*': *Women and the thematic structure of the Four Branches*. Michigan: UMI Dissertation Information Service
- Valente, R. L. 1996. Gwydion and Aranÿod: Crossing the Borders of Gender in Math. Yn: Sullivan, C. W. gol. *The Mabinogi: A Book of Essays*. New York: Garland Publishing, tt. 331–46
- Wade-Evans, A. W. gol. 1944. *Vitae Sanctorum Britanniae et Genealogiae*. Cardiff: University of Wales Press Board
- Walton, M. T. a Walton, P. J. 2007. *Medical Practitioners and Law in Fifteenth Century London*. Raleigh, N. C: Lulu Press
- Wasserman, J. N. a Roney, L. gol. 1989. *Sign, Sentence, Discourse: Language in Medieval Thought and Literature*. Syracuse: Syracuse University Press
- Watson, W. J. gol. 1937. *Scottish Verse from the Book of the Dean of Lismore*. Edinburgh : Oliver & Boyd for the Scottish Gaelic texts society

- William, A. gol. 1960. *Llyfr Iorwerth*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- Williams, D. H. 1993. *Catalogue of Seals in the National Museum of Wales*, Vol 1. Cardiff: National Museum of Wales
- Williams, G. 1987. *Recovery, Reorientation and Reformation: Wales, c.1415–1642*. Oxford: Clarendon Press
- Williams, I. a Roberts, T. goln. 1923. *The Poetical Works of Dafydd Nanmor*. Cardiff: University of Wales Press
- Williams, I. gol. 1927. *Breuddwyd Maxen*. Bangor: Jarvis&Foster
- gol. 1961. *Gwaith Guto'r Glyn*. 2<sup>ll</sup> arg., Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- gol. 1978. *Pedeir Keinc y Mabinogi*. 6<sup>ed</sup> arg., Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- Williams, J. E. C. 1964–66. Nodiadau Testunol. Yn: *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd* xxi, tt. 26–7
- 1974. ŷyddiaith Grefyddol Cymraeg Canol. Yn: Bowen, G. gol. *Y Traddodiad Rhyddiaith yn yr Oesau Canol*. Llandysul: Gwasg Gomer, tt. 312–407
- 1975. Cerddi'r Gogynfeirdd i Wragedd a Merched, a'u Cefndir yng Nghymru a'r Cyfandir. Yn: *Llên Cymru* 13, tt. 3–112
- 1977. *Canu Crefyddol y Gogynfeirdd*. Swansea: Coleg y Brifysgol Abertawe
- gol. 1990. *Ysgrifau Beirniadol XVI*. Dinbych: Gwasg Gee
- gol. 1990. *Ysgrifau Beirniadol XVII*. Dinbych: Gwasg Gee
- gol. 1992. *Ysgrifau Beirniadol XVIII*. Dinbych: Gwasg Gee
- gol. 1994. *Gwaith Meilyr Brydydd a'i Ddisgynyddion*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- Williams, S. a Powell, E. goln. 1942. *Cyfreithiau Hywel Dda yn ôl Llyfr Blegywryd*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- Windeatt, B. cyf. 1985. *The Book of Margery Kempe*. London: Penguin
- Winward, F. 1997. Some Aspects of the Women in the *Four Branches*. Yn: *Cambrian Medieval Celtic Studies* 34, tt.77–106

Wogan-Browne, J. 1994. The Virgin's Tale. Yn: Evans, R. a Johnson, L. goln. *Feminist Readings in Middle English Literature: The Wife of Bath and all her sect.* London: Routledge, tt. 165–94

— a Burgess, G. goln a chyf. 1996. *Virgin Lives and Holy Deaths.* London: Everyman

Wolters, C. cyf. 1966. *Julian of Norwich: Revelations of Divine Love.* London: Penguin

Wood, J. 1996. The Caluminated Wife in Medieval Welsh Literature. Yn: Sullivan, C. W. gol. *The Mabinogi: A Book of Essays.* New York: Garland Publishing, tt. 61–78